# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mehefin 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09:15 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:30 - 09:50)

**2.1 Llythyr gan yr Ysgrifenydd Parhaol i'r Cadeirydd yn ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21**

(Tudalennau 1 - 59)

**2.2 Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad Ernst and Young Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

(Tudalen 60)

## (Egwyl)

(09:50 - 10:00)

## 3 Penodiadau Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth

(10:00 - 11:00) (Tudalennau 61 - 82)

Damian Bridgeman

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(11:00)

Gweddill y cyfarfod.

## 5 Penodiadau Cyhoeddus: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

(11:00 - 11:15)

## 6 Papurau preifat i'w nodi

(11:15 - 11:25)

### 6.1 Llythyr gan Lywodraeth Cymru yn ymateb i lythyr y Pwyllgor ar 6 Ebrill yn ymwneud a Maes Awyr Caerdydd

(Tudalennau 83 - 85)

### 6.2 Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas a tharged ychwanegol i Faes Awyr Caerdydd

(Tudalen 86)

## 7 Adroddiad ddrafft - Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru: 2021-22

(11:25 - 11:55) (Tudalennau 87 - 136)

## 8 Adroddiad ddrafft - Adolygiad o Gomisiynwyr

(11:55 - 12:15) (Tudalennau 137 - 166)

## 9 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol: Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE - y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig

(12:15 - 12:30) (Tudalennau 167 - 202)

Eitem 2.1

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Mai 2023

Annwyl Gadeirydd,

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21, rwyf isod yn rhoi ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.  Nid wyf wedi rhoi ymateb i argymhelliad 9 gan mai mater i'r Archwilydd Cyffredinol yw gwneud sylwadau ar hwnnw.

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu i'r Pwyllgor ei diffiniad o 'secondiad', ynghyd â'i pholisïau ar gyfer trefniadau o'r fath, gan gynnwys canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer Uwch-weision Sifil.**

Derbyn. Rwy'n cefnogi'r argymhellion ynghylch sicrhau llywodraethiant a thryloywder da ar gyfer trefniadau secondio a fydd, gobeithio, yn cynorthwyo dealltwriaeth y Pwyllgor. I fod yn glir, rydym yn croesawu ceisiadau i ymgymryd â rolau ar sail secondiad neu fenthyciad fel rhan o’r broses recriwtio i'r rhan fwyaf o swyddi Llywodraeth Cymru, nid dim ond swyddi uwch. Mae secondiadau hefyd yn rhan arferol o opsiynau staff y gwasanaeth sifil ar bob lefel ac yn cael eu defnyddio mewn modd cadarnhaol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a sectorau eraill.

Mae gan secondiadau a chyfnewid le pwysig yn ymrwymiad Prif Weinidog Cymru i greu ‘Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru’ ac nid yw'r Prif Weinidog na minnau am i gydweithwyr yn y Senedd, gweision cyhoeddus nac aelodau o'r cyhoedd deimlo’n negyddol am secondiadau. Maent yn dod â manteision mawr ac ni fyddem am weld y broses graffu yn cyfyngu ar uchelgais na hyblygrwydd yn y dyfodol. Mae secondiadau yn hwyluso cyfnewid sgiliau a phrofiad, maent yn dod â syniadau newydd ac arloesedd

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ac, yn enwedig yn achos rolau uwch yn y gwasanaeth sifil, maent yn sicrhau bod gennym y bobl orau yn cyflawni rhai o'r rolau arwain mwyaf dylanwadol yng Nghymru.

Mae secondiadau ar waith ar bob lefel ac ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ac fe'u defnyddir gan bob un o adrannau'r llywodraeth. Mae Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil yn nodi, '*Secondment is the term used to describe the voluntary movement of individuals into or out of the Civil Service on a temporary basis, in a way which does not affect their employment status'*. Yn fwy penodol, mae'r term "secondiadau" yn ymwneud yn unig ag unigolion nad ydynt yn Weision Sifil sy'n symud i un o sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil, neu was sifil presennol sy'n gadael y Gwasanaeth Sifil i fynd i sefydliad nad yw'n rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i ddarpariaethau'r cod rheoli ac rydym yn diffinio secondiadau fel *'cyfnewid cyflogeion dros dro rhwng y sector cyhoeddus a sectorau eraill am gyfnod penodol o amser'*. Mae secondeion i Lywodraeth Cymru neu, yn wir, unrhyw sefydliad arall, yn benodiadau dros dro sy'n cadw telerau ac amodau gwasanaeth eu cyflogwr parhaol, gan gynnwys lefelau cyflog, tra pery'r contract.

Rwyf wedi atodi ein polisi Secondiadau a Benthyciadau (sy'n gymwys i gydweithwyr ar bob gradd) a Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil (sy'n gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth). Rydym yn ymrwymedig i wella'n barhaus ac, yn dilyn archwiliad mewnol, mae ein tîm Adnoddau Dynol yn cymryd camau i adolygu a gwella'r polisi hwn a phrosesau ategol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn awgrymu mai cysylltu â Swyddfa'r Cabinet a/neu Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil fyddai orau os bydd angen eglurhad pellach ynglŷn â'u prosesau a'u cymeradwyaethau mewn perthynas â recriwtio i rolau uwch, gan gynnwys ar sail secondiad.

Wrth ymateb, rwy'n nodi bod y broses graffu wedi rhoi sylw i bolisïau a phrosesau sy'n sail i secondiadau i'r swyddi uchaf yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys fy nhrefniadau innau. Er bod gwybodaeth wedi'i rhoi eisoes am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â secondiadau, ynghyd ag eglurhad o brosesau Swyddfa'r Cabinet a Chomisiynydd Gwasanaeth Sifil y DU sy'n gymwys, mae'n ymddangos bod pryder o hyd ymhlith y Pwyllgor ynghylch secondiadau. Tynnwyd sylw pellach at hyn yn ystod y ddadl yn y Senedd yn ddiweddar, a gallaf gadarnhau unwaith eto bod y prosesau sy'n ofynnol gan Swyddfa'r Cabinet a Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil wedi'u dilyn yn llawn a bod y cymeradwyaethau angenrheidiol wedi'u sicrhau ar gyfer fy mhenodiad fel Ysgrifennydd Parhaol a hefyd ar gyfer penodiad dros dro Judith Paget. Mae'r prosesau a'r cymeradwyaethau ar gyfer y rolau uwch hyn yr un fath ar gyfer pob adran o lywodraeth y DU gan gynnwys Llywodraeth Cymru.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Cafodd fy mhroses recriwtio a'm penodiad eu harwain gan Swyddfa'r Cabinet a than gadeiryddiaeth Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil, gyda phanel a oedd yn cynnwys Ysgrifennydd Cabinet y gwasanaeth sifil fel y rheolwr llinell oedd yn penodi. Cefais fy nghymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru fel yr ymgeisydd dethol, yn dilyn cyngor gan y Panel. Roedd fy mhenodiad a'm trefniadau ffurfiol, gan gynnwys y cynnig i gadw fy secondiad presennol gyda thelerau ac amodau'r GIG, yn bodloni'r meini prawf recriwtio, a chawsant eu cytuno drwy achos busnes unigol Swyddfa'r Cabinet a'u cymeradwyo gan un o weinidogion Llywodraeth y DU (Prif Ysgrifennydd y Trysorlys) fel rhan o oruchwyliaeth Llywodraeth y DU ar y gwasanaeth sifil.

Cafodd penodiad dros dro presennol Judith Paget i swydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru ei wneud ar sail secondiad uniongyrchol fel trefniant dros dro. Hon oedd y swydd yr oeddwn i'n ei gwneud cyn ymgymryd â'm swydd fel Ysgrifennydd Parhaol. Mae secondiad uniongyrchol yn golygu bod unigolyn yn cael ei benodi am hyd at ddwy flynedd heb ymarfer recriwtio, a hynny fel arfer i gydnabod y sgiliau a'r profiad penodol sydd eu hangen. Yn yr achos hwn, roedd yn hanfodol cynnal arweinyddiaeth gref a chyson, yn enwedig wrth inni weithio drwy'r broses adfer ac ailsefydlu yn dilyn pandemig Covid, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl gadael y rôl heb ei llenwi tra oedd ymarfer recriwtio yn cael ei gynnal. Cafodd y prosesau sy'n ofynnol gan Swyddfa'r Cabinet a Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil ar gyfer secondiad uniongyrchol eu dilyn yn llawn a chafwyd y cymeradwyaethau angenrheidiol.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod trefniadau secondiad yn y dyfodol, rhai mewnol ac allanol, sy'n ymwneud â staff ar Fand Cyflog 2 Uwch-wasanaeth Sifil a throsodd (Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol, gan gynnwys Prif Swyddogion Deintyddol, Digidol, Meddygol, Nyrsio, Gofal Cymdeithasol, Gwyddonol a Milfeddygol, yn ogystal â Phrif Weithredwyr) yn Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfleu'n glir a'u nodi i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gyfnodau'r secondiadau.**

Derbyn. Mewn ymateb i argymhelliad 2 sy'n ymwneud â chyfathrebu cliriach ynghylch secondiadau, telerau secondiadau ac unrhyw newidiadau dilynol a wneir, byddaf yn sicrhau bod fy nhîm Adnoddau Dynol yn hysbysu'r Pwyllgor am drefniadau secondio yn y dyfodol ar gyfer unrhyw rôl ym mand cyflog 2 yr Uwch-wasanaeth Sifil (Cyfarwyddwyr ac uwch) pan fydd y secondiad yn dechrau a, lle y bo'n gymwys, pan wneir unrhyw ddiwygiadau i delerau. Lefel o fanylder gweithredol yw hyn, ac er fy mod yn cefnogi'ch

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

cais am dryloywder, rwy'n pryderu y gellid casglu o'r argymhelliad fod barn negyddol ynghylch trefniadau o'r fath, er eu bod yn fecanweithiau cydnabyddedig a chyffredin a ddefnyddir ar draws y gwasanaeth sifil, y gwasanaethau cyhoeddus a sectorau eraill. O ran yr uwch-aelodau o staff Llywodraeth Cymru sy'n aelodau o Fwrdd Llywodraeth Cymru, mae eu statws secondiad wedi'i gynnwys yn y cyfrifon blynyddol bob amser.

**Argymhelliad 3. Pan fo'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn ei Chyfrifon a/neu yn ei Datganiad Polisi Tâl yn datgelu gwybodaeth am aelodau unigol o staff sydd ar secondiad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adrodd cyfnod y trefniadau yn y dogfennau cyhoeddedig hynny.**

Derbyn. Byddaf hefyd yn sicrhau bod datgeliadau yn y cyfrifon a'r datganiad polisi tâl ategol yn sicrhau tryloywder o ran trefniadau secondio gan gynnwys cyfnod y swydd.

**Argymhelliad 4. Nodwn y disgwylir i broses benodi gynhwysfawr ar gyfer swydd Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddechrau yn 2023. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cael amserlen a manylion y broses, gan gynnwys y dull o recriwtio h.y. a fydd y rôl yn cael ei hysbysebu'n fewnol neu'n allanol ac a fydd y swydd yn cael ei llenwi dros dro neu'n barhaol.**

Derbyn. Mae proses recriwtio 'deg, agored ac ar sail teilyngdod' wedi bod yn mynd rhagddi eisoes mwyn gwneud penodiad parhaol i rôl y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru (fel y nodwyd, roedd penodi Judith Paget ar secondiad i'r rôl hon yn drefniant dros dro). Mae hyn wedi digwydd yn unol â'r gymeradwyaeth wreiddiol ar gyfer y penodiad dros dro, a gafodd ei wneud gyda'r bwriad o roi sicrwydd a sefydlogrwydd i'r GIG hyd nes y byddai'r penodiad parhaol wedi'i wneud. Ni fyddai'n briodol gwneud sylwadau ar ymarfer recriwtio sydd ar y gweill, heblaw nodi bod y broses yn y camau asesu ar hyn o bryd ac y byddem yn disgwyl i gyhoeddiad gael ei wneud am y penodiad parhaol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae'r ymarfer recriwtio yn cael ei gadeirio gan un o Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ac mae'n dilyn y broses recriwtio allanol a bennwyd gan Swyddfa Cabinet y DU fel sy'n digwydd ar gyfer pob penodiad ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mhob rhan o Wasanaeth Sifil y DU. Ni allaf wneud sylwadau am delerau tebygol y penodiad gan y byddai hynny'n amodol ar drafodaeth â'r ymgeisydd llwyddiannus a chymeradwyaethau dilynol y byddai Swyddfa'r Cabinet yn eu hwyluso. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau bod Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil a Swyddfa'r Cabinet yn goruchwylio'r broses

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

gydymffurfio a chytuno ar gyfer unrhyw drefniadau, gan gynnwys y rhai a wneir yn Llywodraeth Cymru. Mae meini prawf clir ar waith er mwyn cadarnhau trefniadau o'r fath.

**Argymhelliad 5. Mae'n hanfodol y tynnir sylw’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i newidiadau sylweddol sy’n ymwneud â rôl yr Ysgrifennydd Parhaol cyn gynted â phosibl i sicrhau gwaith craffu amserol a phriodol ar faterion o’r fath. Mae'n hynod bryderus, pan ofynnwyd am newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn 2019, na chawsant eu datgelu i'r Pwyllgor a’n rhagflaenodd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dangos lefelau uwch o dryloywder wrth ymgysylltu â’r Pwyllgor ar faterion o ddiddordeb sylweddol fel y mater hwn yn y dyfodol.**

Derbyn. Mae gwaith wedi'i wneud gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet er mwyn rhoi diffiniad gwell o rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y ddau barti mewn perthynas â thelerau, amodau a threfniadau cyflogaeth Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae Fframwaith Telerau ac Amodau'r Ysgrifennydd Parhaol eisoes wedi'i rannu â'r Pwyllgor, fel y nodwch yn eich adroddiad, ac mae'r fframwaith yn weithredol ers mis Hydref 2022.

Mae'n cynnwys rhoi gwybod am newidiadau i drefniadau gweithio Ysgrifennydd Parhaol a'r ffordd y byddai'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â secondai sy'n cyflawni rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, sy'n berthnasol o ystyried fy statws fel secondai. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'm trefniadau gweithio ar yr adeg y gwneir penderfyniad. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio fy mod wedi bod yn dryloyw eisoes ac wedi ateb cwestiynau ynglŷn â'm cyflogaeth a'm statws yn unol â'r argymhelliad hwn.

Mae'r fframwaith yn amlinellu rôl ein Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol. Mynegodd y Pwyllgor ac Archwilio Cymru bryderon ynghylch swyddog ar lefel is yn cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, ond dyna’r drefn weithredol arferol ar draws y llywodraeth ac ni fyddwn ni’n newid y trefniant hwnnw. Fodd bynnag, mae'r fframwaith yn egluro'r cyfrifoldebau hynny.

Gwneir darpariaeth yn y fframwaith i adroddiad gael ei gyflwyno i'n Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar y ffordd y rhoddwyd pob agwedd ar delerau ac amodau ar waith (er enghraifft, rheoli perfformiad a threfniadau gwyliau). Derbyniodd y Cyfarwyddwr Anweithredol sy’n cadeirio’r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r tîm Cyfarwyddwyr Anweithredol yr adroddiad ar gyfer



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

2022-23 a thrafodwyd ei gynnwys mewn sesiwn gaeedig yn eu cyfarfod ar 28 Ebrill. Gallaf gadarnhau na wnaethant nodi unrhyw bryderon.

Mae fframwaith dirprwyo a chymeradwyo adnoddau ar waith bellach i helpu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i wneud penderfyniadau ynghylch cyflogeion yr Uwch-wasanaeth Sifil ac mae'n nodi'r prosesau penodol sy'n gymwys ar bob gradd. Bydd fframwaith telerau ac amodau ategol ar gyfer yr Uwch-wasanaeth Sifil yn cael ei ddatblygu a'i weithredu yn awr. Caiff y Pwyllgor wybod am unrhyw newidiadau a wneir i drefniadau gweithio Cyfarwyddwyr Cyffredinol ar yr adeg y gwneir penderfyniad.

**Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei harferion ar gyfer adrodd a chadw cofnodion i sicrhau bod penderfyniadau mewnol ynghylch rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, ynghyd â rolau eraill ar lefel Cyfarwyddwr neu uwch, yn cael eu dogfennu'n glir. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru yn cael eu cymhwyso gan gyflogeion ar lefel is. Dylid rhannu canlyniadau'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor hwn, pan ddaw i ben.**

Derbyn. Rwyf eisoes wedi cydnabod y pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor ynghylch peidio â chadw cofnodion cyfoes ynghylch materion cyflogaeth a phenderfyniadau'n ymwneud â'r Ysgrifennydd Parhaol blaenorol ac mae gwelliannau wedi'u gwneud. Datblygwyd 'cynllun ffeilio' yn dilyn ymarfer mewnol ar ddysgu gwersi, er mwyn sicrhau bod yr holl gymeradwyaethau a phenderfyniadau ynglŷn â'm cyflogaeth a'm trefniadau gweithio i, unrhyw Ysgrifennydd Parhaol yn y dyfodol a phob uwch-gydweithiwr yn cael eu dogfennu'n llawn.

Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor am ganlyniad yr adolygiad.

**Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gynnwys manylion newidiadau o ran sylwedd yn nhrefniadau gwaith neu dâl yr Ysgrifennydd Parhaol neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gydag esboniad o'r rheswm am y newidiadau hyn. Dylid cwblhau'r gwaith hwn, fel mater o drefn, yn y Cyfrifon sy'n berthnasol i'r flwyddyn gyfrifyddu pan wnaed y newid. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid hysbysu'r Pwyllgor hwn yn ysgrifenedig am newidiadau perthnasol, gydag esboniad pam na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn y set berthnasol o Gyfrifon.**

Derbyn. Rwyf wedi cytuno yn Argymhelliad 2 i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw drefniadau secondio ar gyfer Cyfarwyddwyr Cyffredinol neu Ysgrifennydd Parhaol a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r trefniadau hynny, wrth iddynt godi. Rwyf wedi cytuno yn Argymhelliad 3 i ehangu'r datgeliadau a gynhwysir yn yr Adroddiad

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Cydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas ag uwch-swyddogion sydd ar secondiad, ac rwyf wedi cytuno yn Argymhelliad 5 i roi manylion i'r Pwyllgor pan wneir newidiadau i drefniadau gweithio unrhyw Gyfarwyddwr Cyffredinol neu Ysgrifennydd Parhaol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn sicrhau, ar gyfer pob uwch-swyddog, y datgelir dyddiad penodi, dyddiad gorffen, statws secondiad a statws rhan-ymddeol, ac yn y dyfodol bydd hyn yn cynnwys cyfnod y secondiad yn ogystal â'r datgeliadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a phensiynau sy'n ofynnol yn ôl Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a Hysbysiad Pensiwn y Cyflogwr

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Pwyllgor i gytuno beth ymhellach y gellir ystyried ei fod o fewn cwmpas 'newidiadau o ran sylwedd' er mwyn sicrhau nad oes amwysedd ynghylch pa ddatgeliadau y gofynnir amdanynt; ac i wneud gwaith ar y cwmpas hwnnw i asesu a yw'n gydnaws â gofynion GDPR y DU o ran data personol, fel y gellir cadarnhau gyda'r Pwyllgor pa wybodaeth y bydd modd ei datgelu'n fanylach fel mater o drefn yn y Cyfrifon yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8. Rydym yn nodi'r gwendidau a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'n rhagflaenodd yn niwylliant sefydliadol Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain at ddiffygion o ran cadernid ei phrosesau cadw cofnodion a sut y mae'r themâu hyn wedi codi eto yn ein gwaith ni. Fel y cyfryw, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau penodol i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ofynion ei phrosesau cadw cofnodion mewnol gan nad ydym yn disgwyl i brosesau cadw cofnodion gwael fod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi manylion i ni am y camau y bydd yn eu cymryd i wella ei phrosesau cadw cofnodion.**

Cytuno. Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ofynion y prosesau cadw cofnodion mewnol. Mae'r canllawiau i staff ar gadw cofnodion wedi'u hymestyn a'u diweddaru ac maent yn defnyddio enghreifftiau o brosesau cadw cofnodion gwael a'i ganlyniadau fel astudiaethau achos. Caiff y canllawiau diwygiedig hyn eu rhoi i'r staff yn fuan. At hynny, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi comisiynu gwaith i adolygu ac ymestyn y canllawiau a roddir i staff fel rhan o hyfforddiant sefydlu ar gyfer penodiadau newydd, ac i ddatblygu hyfforddiant pwrpasol ar gadw cofnodion y gellir ei gyflwyno ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'n disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn yr hydref.

**Mater i'r Archwilydd Cyffredinol yw ymateb i argymhelliad 9.**

**Argymhelliad 10. Rydym yn croesawu'r gwaith ehangach y mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu ei wneud ar y gydberthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Ysgrifenyddion Parhaol  Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pryd y mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ac yn darparu rhagor o wybodaeth i ni am yr hyn y bydd y gwaith hwn yn ei gynnwys, yn ogystal ag amserlenni i'w gwblhau a'r allbynnau.**

Derbyn. Rydym eisoes wedi hysbysu'r Pwyllgor fod Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi gwybod inni ei bod yn bwriadu gwneud rhagor o waith ar y gydberthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Nid yw'r gwaith hwnnw wedi dechrau eto ond byddwn yn chwarae rhan weithredol ynddo pan fydd yn dechrau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wedi hynny. Yn amlwg, mater i Swyddfa'r Cabinet ei bennu a'i oruchwylio yw hynny, ond edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn llawn a sicrhau bod y cynnwys a'r naws yn berthnasol i Gymru ac i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 11:  Esboniad o'r rheswm pam na chafodd amcangyfrif twyll a gwall ei gynnwys yng nghyfrifon 2020-21 er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan swyddogion y gellid darparu amcangyfrif.**

Gwrthod.  Cafodd amcangyfrif twyll a gwall ei gynnwys yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 a 2021-22, sy'n ffurfio rhan o Gyfrifon Gyfunol Llywodraeth Cymru.  Seiliwyd yr amcangyfrif hwn ar y dystiolaeth a ddeilliodd o waith Monitro ar ôl Cwblhau a gynhaliwyd, adroddiadau Llywodraeth Leol ac achosion o dwyll posibl y rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt er mwyn cynnal ymchwiliad twyll. Mae'r datgeliadau hyn yn ymdrin ar wahân â chynlluniau a weinyddir gan Lywodraeth Leol a chynlluniau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru o ran y Gronfa Cadernid Economaidd.

**Argymhelliad 12:  Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cyfrif clir o'r camau y mae awdurdodau lleol wedi'u cymryd i asesu'r risg o dwyll a gwall, ac ymateb iddi, yn y grantiau cymorth busnes a weinyddwyd ganddi ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.**

Derbyn - Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu arolwg twyll a gwall ar gyfer Awdurdodau Lleol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020/2021 a 2021/2022 ac wedi dechrau ymarfer tebyg ar gyfer 2022/23 mewn perthynas â chronfeydd COVID-19 sy'n amlinellu nifer yr achosion o dwyll a gwallau a nodwyd, gan gynnwys gwerth sydd wedi'i gyhoeddi.  Mae'r arolygon hyn yn atgyfnerthu'r casgliad bod lefel y rheolaethau cyn gwneud cais wedi cyfrannu'n sylweddol at wrthsefyll achosion o wallau a thwyll. Mae'r ffaith fod 14% o'r ceisiadau wedi'u gwrthod yn dangos hyn. Bydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn parhau i gynnwys manylion am lefelau gwallau a thwyll.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gellir gwneud rhagor o waith i symleiddio ac egluro'r camau y cytunwyd y byddant yn cael eu cymryd, a byddwn yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi'r Fenter Twyll Genedlaethol ac mae wedi rhoi manylion derbynwyr grantiau i Gyllid a Thollau EF at y diben hwn. Nid oes unrhyw achosion sy'n ymwneud â'r Gronfa Cadernid Economaidd ac Ardrethi Annomestig wedi'u hatgyfeirio gan y Fenter Twyll Genedlaethol hyd yma.  Mae Awdurdodau Lleol unigol wedi bod yn gweithredu'r cynlluniau o dan eu fframweithiau archwilio sefydledig yn unol â chyfarwyddiadau Swyddogion Cyfrifyddu Adran 151 Awdurdodau Lleol ac fe'u hanogir i ddefnyddio cynhyrchion y Fenter Twyll Genedlaethol os yw hynny'n briodol.

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o eglurder ar y sefyllfa ddiweddaraf am adennill arian o'r cynlluniau Cymorth Covid-19 i Fusnesau y mae wedi'u gweinyddu, gan gynnwys esboniad o sut y mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r symiau a adlewyrchir ym memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhai a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod tystiolaeth lafar.**

Derbyn.  Darparodd y Gronfa Cadernid Economaidd yr elfen gyllido ddewisol a oedd yn gysylltiedig ag ymyrraeth wedi'i thargedu yn wahanol i gymhwystra cyfradd safonol grantiau ar gyfer Ardrethi Annomestig, er enghraifft. Y sefyllfa ddiweddaraf o ran adennill arian o ganlyniad i weithgarwch Monitro ar ôl Cwblhau y Gronfa Cadernid Economaidd yw:

- Camau 1 a 2 – 23 o achosion adennill arian wedi'u cwblhau £0.9m, tri achos wedi'i dileu oherwydd ansolfedd £0.08m (£77.5k) a 29 o achosion adennill arian yn dal i fynd rhagddynt sy'n werth cyfanswm o £2.5m

- Camau eraill – 15 o achosion adennill arian wedi'u cwblhau £0.3m, ni chafodd unrhyw achosion eu dileu ac mae 18 o achosion adennill arian yn dal i fynd rhagddynt sy'n werth cyfanswm o £0.4m

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi diweddariad ar y data ar adennill arian a chysoni'r data hynny, ar y cyd â'r diweddariad y cytunwyd arno yn argymhelliad 15,

**Argymhelliad 14:  Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa staffio'r tîm Monitro ar ôl Cwblhau y tu hwnt i haf 2023.**

Derbyn.  Mae tîm Monitro ar ôl Cwblhau y Gronfa Cadernid Economaidd bellach yn gyflogeion parhaol i Lywodraeth Cymru a disgwylir i'r tîm barhau i ymgymryd â'r gwaith hollbwysig hwn tan fis Mawrth 2025.  Cafodd y tîm ei ailstrwythuro'n ddiweddar er mwyn

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.  https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations.  https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ystyried y newid yng nghydbwysedd y gwaith, ac er bod maint cyffredinol y tîm wedi'i leihau i adlewyrchu'r ffaith ei fod bellach yn ymdrin ag achosion mwy cymhleth, rydym wedi recriwtio dau reolwr grantiau profiadol ychwanegol.

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran Monitro ar ôl Cwblhau.**

Derbyn. Isod, rhoddir y sefyllfa ddiweddaraf ym mis Ebrill 2023 o ran gwaith Monitro ar ôl Cwblhau y Gronfa Cadernid Economaidd. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor ddiwedd mis Hydref 2023.

Camau 1 a 2:

- cyflwynwyd 9,094 o arolygon i ficro fusnesau (cyfradd cymorth safonol a chymhwystra) a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chafwyd ymateb gan 3029 (33%).

- cyflwynwyd 1,257 o arolygon i fusnesau bach a chanolig a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chafwyd ymateb gan 421 (33%).

- cyflwynwyd 1,270 o geisiadau am wybodaeth Monitro ar ôl Cwblhau fwy cynhwysfawr i fusnesau bach a chanolig a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2 ac ar hyn o bryd mae 392 o ymatebion yn cael eu hystyried ac mae 585 o achosion wedi'u cwblhau (cyfradd gwblhau o 46%).

- cyflwynwyd 52 o geisiadau am wybodaeth i fusnesau mawr a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, ac mae 51 o achosion wedi'u cwblhau (98%).

Cam 3:

- Rydym wedi cyflwyno 1,205 o arolygon yng ngham 3 ac mae 690 wedi'u dychwelyd (57%).

- Mae 804 o ddyfarniadau sy'n gofyn am waith Monitro ar ôl Cwblhau helaethach a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gyflawni mewn dau gam oherwydd yr amodau yn y grant, gyda dyddiadau gwahanol yn cael eu pennu yn dibynnu ar ddyfarniadau eraill a wnaed o dan y camau cynharach.

- Mae 584 o fusnesau wedi cael ceisiadau am wybodaeth hyd at fis Ebrill 2023 ac mae 183 o achosion bellach wedi'u cwblhau (31%).

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Camau 4 i 7:

- Dechreuodd camau 4-7 y Gronfa Cadernid Economaidd (Ionawr-Awst 2021) yn ystod haf 2022, a chyflwynwyd 3,866 o arolygon, a chafwyd ymateb gan 1,248 (32%).

- Cyflwynwyd 425 o geisiadau i fusnesau gwblhau gwaith Monitro ar ôl Cwblhau mwy cynhwysfawr ac mae 76 o achosion wedi'u cwblhau hyd yma.

Cam 8 y Gronfa Cadernid Economaidd (Rhagfyr 2021-Chwefror 2022):

- Mae'r gwaith i anfon allan y ceisiadau ar gyfer y cam cyllid hwn wrthi'n cael ei baratoi i'w gyflwyno i dderbynwyr grant.

**Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlenni a'r trafodaethau a ddigwyddodd rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF ynghylch cais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen swm sy'n fwy na'r hyn a ganiateir ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 31 Mawrth 2021. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am drafodaethau a ddigwyddodd rhwng diwedd y flwyddyn (Mawrth 2021) a mis Tachwedd 2021.**

Derbyn. Roedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn y rheolaeth gyllidebol gyffredinol osodir gan Drysorlys EF o ran llinellau gwariant adrannol (DEL). Er y rhoddwyd ar ddeall inni y gallai'r anghydbwysedd rhwng refeniw a chyfalaf gael ei reoli ar ôl diwedd y flwyddyn, gwrthodwyd yr hyblygrwydd hwn inni yn y pen draw. Nodir isod fanylion dyddiadau'r trafodaethau a gafwyd gyda Thrysorlys EF a'r Prif Ysgrifennydd:

**18 Chwefror 2021**
Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ysgrifenedig i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys y byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddefnyddio hyblygrwydd llawn i gario ymlaen arian y tu allan i Gronfa Wrth Gefn Cymru (gan nodi bod y cyfanswm yn llai na'r hyn roedd ei eisiau arnom).

**17 Mawrth 2021**
Gofynnodd Trysorlys EF am gadarnhad o'r ffigurau roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w cario ymlaen ar gyfer Prif Amcangyfrifon 2021/22.

**23 Mawrth 2021**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Gofynnodd Trysorlys EF am wybodaeth debyg ar gyfer 2020/21 am ei fod yn bwriadu cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ar ostyngiad yn ein cyllideb ar gyfer 2020/21. Ar yr adeg hon, roedd swyddogion yn gweithio gyda sefyllfa gyfalaf wedi'i gor-raglennu ond roeddent yn awyddus i newid refeniw i gyfalaf. Roedd angen **£501m** i gefnogi cynlluniau yn ein trydedd Gyllideb Atodol. Roedd cynigion refeniw a chyfalaf eraill yn cael eu hystyried bryd hynny. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y symiau i'w cario ymlaen a bod £501m i'w newid i gyfalaf ond gofynnodd am eglurhad ynglŷn â'r effaith y byddai unrhyw Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar ôl i'r Senedd gymeradwyo Amcangyfrifon, yn ei chael ar ein cyllidebau.

**24 Mawrth 2021**

Cadarnhaodd Trysorlys EF, at ddibenion gweinyddol, y byddai'r cyllidebau yn cael eu lleihau ac y byddai unrhyw wariant dros y terfynau hynny yn cael ei ystyried yn achos o dor-rheolaethau.

Cafwyd trafodaethau â swyddogion Trysorlys EF ynghylch elfennau yn ein sefyllfa nas ymdriniwyd â nhw a'r ffaith ein bod yn debygol o dorri rheolaethau unigol petai'r cyllidebau yn cael eu lleihau at ddibenion gweinyddol, **ond ddim yn gyffredinol**. Roedd swyddogion Trysorlys EF o'r farn bod y cyfnod ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau i'w cynnwys yn y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog bellach wedi dod i ben ond **ar y sail y gallem gytuno i dacluso unrhyw beth yn ein halldro gyda nhw. Felly, ni wnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru bwyso am newid pellach i gyfalaf ar yr adeg hon.**

**Mehefin 2021**

Yn dilyn ymarfer alldro dros dro, dechreuodd Llywodraeth Cymru bwyso ar Drysorlys EF i gael eglurder ynghylch triniaeth. Holodd Trysorlys EF am y rhesymau dros y gorwariant a sefyllfa Cronfa Wrth Gefn Cymru.

**25 Awst 2021**

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i Drysorlys EF.

**Medi/Hydref 2021**

Pwysodd Llywodraeth Cymru am ymateb sawl gwaith. Cyfeiriwyd at bwysau'r Adolygiad o Wariant, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ac ati, fel rhesymau dros yr oedi.

**Dechrau Tachwedd 2021**

Awgrymodd tîm Trysorlys EF y dylai'r dybiaeth gynllunio fod ar sail ddarbodus y caiff gorwariant ei drin fel achos o dor-rheolaethau a'i ddidynnu o gyllidebau

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

2021/22. Cadarnhaodd Trysorlys EF ar lafar mai safbwynt Prif Ysgrifennydd y Trysorlys oedd y byddai rheolau'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol yn gymwys ac y byddai cyfalaf yn cael ei leihau yn ystod y flwyddyn. Felly, byddai tanwariant refeniw yn y flwyddyn flaenorol yn agored i'w ildio gan ei fod yn mynd y tu hwnt i derfyn Cronfa Wrth Gefn Cymru.

**Ionawr 2022**
Ar gais Trysorlys EF, darparodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o opsiynau ar gyfer y ffordd y gallai'r arian gael ei ailbroffilio a'i ddychwelyd i Gymru. Roedd yn siom, er bod y mater wedi'i godi, fod Trysorlys EF wedi gwrthod gweithredu ar unrhyw awgrym.

**29 Mawrth 2022**
Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a thrafod y ffaith nad oedd mater tanwariant refeniw gormodol a gafwyd ar ddiwedd 2020-21 na ellid darparu ar ei gyfer yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru wedi'i ddatrys. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu llythyr yn dilyn y cyfarfod.

**4 Ebrill 2022**
Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn nodi'r mater a drafodwyd yn y cyfarfod dwyochrog ar 29 Mawrth.

**18 Ebrill 2022**
Cafwyd ymateb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cadarnhau na fyddai unrhyw hyblygrwydd ychwanegol yn cael ei roi.

**14 Mehefin 2022**
Ymatebodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn datgan ei hanfodlonrwydd â safbwynt Prif Ysgrifennydd y Trysorlys.

**5 Awst 2022**
Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cyllid gydag adroddiad alldro 2020-21 yn tynnu sylw at y broblem gyda'r tanwariant refeniw.

**Argymhelliad 17 – Dylai Llywodraeth Cymru geisio cymeradwyaeth gan Drysorlys EF cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau na chaiff rhagor o gyllid ei golli.**

Derbyn. Mae Llywodraeth Cymru bob amser yn ceisio bod yn brydlon ac yn dryloyw yn ei holl ymwneud â Thrysorlys EF. O ran diwedd blwyddyn 2020-21, fe wnaethom gyfathrebu'n agored â'r Trysorlys dros ddiwedd y flwyddyn a'r tu hwnt, ond ar yr

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

achlysur hwn roedd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys o’r farn na fyddai'n bosibl caniatáu inni newid refeniw i gyfalaf, rhywbeth yr ydym wedi'i wneud sawl gwaith o'r blaen.

Rhowch wybod imi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir,


**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# COD Y GWASANAETH SIFIL

## COD Y GWASANAETH SIFIL

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 5 (5) o *Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010*.

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 5 (7) o *Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010*.

**Gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil**

1. Nodir y sail statudol ar gyfer rheoli'r Gwasanaeth Sifil yn Rhan 1 o Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010.

2. Mae'r Gwasanaeth Sifil yn rhan annatod ac allweddol o lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n cefnogi'r Llywodraeth gyfredol o ran datblygu a gweithredu ei pholisïau, ac o ran darparu ei gwasanaethau cyhoeddus. Mae gweision sifil yn atebol i Weinidogion,[1] ac mae Gweinidogion yn eu tro yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru[2].

3. Fel gwas sifil, fe'ch penodir yn ôl eich teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ac mae disgwyl ichi ymgymryd â'ch rôl ag ymroddiad ac ymrwymiad i'r Gwasanaeth Sifil a'i werthoedd craidd: hygrededd, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd. Yn y Cod hwn:

- ystyr 'hygrededd' yw rhoi rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus o flaen eich buddiannau personol eich hun;
- ystyr 'gonestrwydd' yw bod yn agored a dweud y gwir;
- ystyr 'gwrthrychedd' yw seilio'ch cyngor a'ch penderfyniadau ar ddadansoddiad trylwyr o'r dystiolaeth; ac
- ystyr 'didueddrwydd' yw gweithredu yn unol â rhinweddau'r achos yn unig a gwasanaethu Llywodraethau o wahanol dueddiadau gwleidyddol mewn modd sydd yr un mor dda.

4. Mae'r gwerthoedd craidd hyn yn cefnogi llywodraeth dda ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth Sifil yn cyflawni'r safonau uchaf posibl yn ei holl waith. Mae hyn yn ei dro yn helpu'r Gwasanaeth Sifil i ennyn a chadw parch Gweinidogion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y cyhoedd a'i gwsmeriaid.

5. Mae'r Cod hwn[3] yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gennych chi a phob gwas sifil arall. Mae'r rhain yn seiliedig ar y gwerthoedd craidd sydd

[1] Yn y fersiwn hon o'r Cod, ystyr "Gweinidogion" yw Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a Chwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Efallai nad yw Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru yn Aelod Cynulliad, ond gall gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad. Ers mis Mai 2016 mae'r Gweinidogion unigol yn cael eu galw'n Ysgrifenyddion Cabinet a'r Dirprwy Weinidogion yn Weinidogion. Mater cyflwyniadol yw hyn, fodd bynnag ac nid yw'n newid y sefyllfa gyfansoddiadol. Felly, er enghraifft, bydd Ysgrifennydd Cabinet (term nad oes iddo sail gyfreithiol) yn arfer swyddogaethau un o Weinidogion Cymru.

[2] Dylai'r gweision sifil sy'n cynghori Gweinidogion fod yn ymwybodol o arwyddocâd cyfansoddiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r confensiynau sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[3] Mae cyfrifoldebau perthnasol Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a Chwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru a chynghorwyr arbennig mewn perthynas â'r Gwasanaeth Sifil wedi'u nodi yn eu Codau Ymddygiad: www.wales.gov.uk/civilservicecode. Mae Cod y Gwasanaeth Sifil hefyd yn gymwys i

wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ei datganiad cenhadaeth a'i datganiad gwerthoedd ei hun sy'n seiliedig ar y gwerthoedd craidd. Mae'r rhain yn cynnwys y safonau ymddygiad a ddisgwylir gennych wrth ichi ddelio â'ch cydweithwyr.

**Safonau ymddygiad**

***Hygrededd***

6. Rhaid ichi:

- gyflawni eich dyletswyddau a'ch rhwymedigaethau mewn modd cyfrifol;
- gweithredu bob amser mewn modd proffesiynol[4] sydd yn haeddu ac yn sicrhau hyder pawb yr ydych yn delio â nhw[6];
- cyflawni'ch rhwymedigaethau ymddiriedol mewn modd cyfrifol (hynny yw, sicrhau y caiff arian cyhoeddus ac adnoddau eraill eu defnyddio'n briodol ac yn effeithlon);
- delio â'r cyhoedd a'u materion mewn modd teg, effeithlon, prydlon, effeithiol a sensitif, hyd eithaf eich gallu;
- sicrhau eich bod wedi cael awdurdod Gweinidogol ar gyfer unrhyw gysylltu rhyngoch chi â'r cyfryngau[5];
- cadw cofnodion swyddogol cywir a delio â gwybodaeth mor agored â phosibl yn y fframwaith cyfreithiol; a
- chydymffurfio â'r gyfraith a sicrhau cyfiawnder.

7. Ni ddylech:

  - gamddefnyddio'ch safle swyddogol, er enghraifft drwy ddefnyddio gwybodaeth a gewch drwy'ch dyletswyddau swyddogol er mwyn eich buddiannau preifat neu fuddiannau preifat pobl eraill;

---

gynghorwyr arbennig ac eithrio, i gydnabod eu swyddogaeth benodol, y gofynion am wrthrychedd a didueddrwydd (paragraffau 10-15 isod).

[4]Gan gynnwys ystyried safonau moesol sy'n rheoli proffesiynau penodol.

[6] Gan gynnwys cydnabyddiaeth arbennig o bwysigrwydd cydweithredu a pharch cilyddol rhwng gweision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ac i'r gwrthwyneb.

[5] Gall y ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban (Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) fod yn gymwys hefyd mewn rhai amgylchiadau. Mae 'Cyfeiriadur Canllawiau'r Gwasanaeth Sifil' a 'Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil' yn cynnig rhagor o wybodaeth.

- derbyn rhoddion neu letygarwch neu unrhyw fanteision eraill gan unrhyw un y gellid barnu eu bod yn amharu ar eich barn bersonol neu eich hygrededd; na

- datgelu gwybodaeth swyddogol heb ganiatâd. Mae'r ddyletswydd hon yn parhau i fod yn berthnasol wedi ichi adael y Gwasanaeth Sifil.

***Gonestrwydd***

8. Rhaid ichi:

- nodi'r ffeithiau a'r materion perthnasol yn onest, a chywiro unrhyw wallau cyn gynted â phosibl; a

- defnyddio adnoddau at y dibenion cyhoeddus awdurdodedig y'u darperir ar eu cyfer yn unig.

9. Ni ddylech:

- dwyllo neu gamarwain Gweinidogion, y Cynulliad Cenedlaethol Cymru nac eraill yn fwriadol; na

- gadael i bwysau amhriodol gan eraill na'r posibilrwydd o fantais bersonol ddylanwadu arnoch.

***Gwrthrychedd***

10. Rhaid ichi:

- ddarparu gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys cyngor i Weinidogion, ar sail y dystiolaeth, a chyflwyno'r opsiynau a'r ffeithiau yn gywir;

- gwneud penderfyniadau yn ôl rhinweddau'r achos; a

- rhoi ystyriaeth briodol i gyngor arbenigol a phroffesiynol.

11. Ni ddylech:

- anwybyddu ffeithiau anghyfleus neu ystyriaethau perthnasol wrth roi cyngor neu wrth wneud penderfyniadau; na rhwystro polisïau rhag cael eu rhoi ar waith wedi i benderfyniadau gael eu gwneud drwy wrthod neu ymatal rhag cymryd camau sy'n deillio o'r penderfyniadau hynny.

***Didueddrwydd***

12. Rhaid ichi:

- ymgymryd â'ch cyfrifoldebau mewn modd teg, cyfiawn a chyfartal sydd yn adlewyrchu ymrwymiad y Gwasanaeth Sifil i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

13. Ni ddylech:

- weithredu mewn modd sy'n ffafrio unigolion neu fuddiannau penodol yn ddireswm neu'n gwahaniaethu yn eu herbyn.

***Didueddrwydd Gwleidyddol***

14. Rhaid ichi:

- wasanaethu'r Llywodraeth, waeth beth fo'i thuedd gwleidyddol, hyd eithaf eich gallu mewn modd sy'n cynnal didueddrwydd gwleidyddol ac sy'n cyd-fynd â gofynion y Cod hwn, waeth beth fo'ch credoau gwleidyddol;

- gweithredu mewn modd sy'n haeddu ac yn sicrhau hyder Gweinidogion, tra'n sicrhau ar yr un pryd y byddwch yn gallu sefydlu'r un berthynas â'r rheini y gallai fod angen ichi eu gwasanaethu mewn Llywodraeth yn y dyfodol; a

- chydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar eich gweithgareddau gwleidyddol.

15. Ni ddylech:

- weithredu mewn modd sy'n dilyn ystyriaethau pleidiau gwleidyddol, na defnyddio adnoddau swyddogol at ddibenion pleidiau gwleidyddol; na

- gadael i'ch safbwyntiau gwleidyddol personol liwio unrhyw gyngor a roddwch nac unrhyw gamau a gymerwch.

**Hawliau a chyfrifoldebau**

16. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau ddyletswydd i'ch hysbysu am y Cod hwn a'i werthoedd. Os ydych chi'n credu bod gofyn ichi weithredu mewn modd sy'n gwrthdaro â'r Cod hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried eich pryder a sicrhau na chewch eich cosbi am ei fynegi.

17.  Os oes gennych bryder, dylech siarad i ddechrau â'ch rheolwr llinell neu rywun arall yn eich cadwyn rheoli llinell. Os bydd hyn yn peri anhawster ichi am unrhyw reswm, dylech godi'r mater â swyddogion enwebedig Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u penodi i gynghori staff am y Cod.

18.  Os byddwch yn ymwybodol o gamau gweithredu gan eraill sydd yn eich tyb chi yn gwrthdaro â'r Cod hwn, dylech sôn am hyn wrth eich rheolwr llinell neu rywun arall yn eich cadwyn rheoli llinell; fel arall gallwch ofyn am gyngor gan eich swyddogion enwebedig. Dylech roi tystiolaeth am weithgarwch troseddol neu anghyfreithlon i'r heddlu neu i awdurdodau rheoleiddio priodol eraill.  Nid yw’r Cod hwn yn gymwys i faterion rheoli Adnoddau Dynol.

19.  Os ydych wedi codi mater sy'n berthnasol i baragraffau 16 i 18, yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol[7], ac nad ydych wedi cael ymateb rhesymol yn eich tyb chi, cewch hysbysu Comisiwn y Gwasanaeth Sifil am y mater[8]. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried gwneud cwyn uniongyrchol. Ei gyfeiriad yw:

> G/08, 1 Horseguards Road, London SW1A 2HQ.
> Ffôn: 020 7271 0831
> e-bost: info@csc.gov.uk

Os na ellir datrys y mater gan ddefnyddio'r gweithdrefnau uchod, a'ch bod yn teimlo na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir ichi, bydd yn rhaid ichi ymddiswyddo o'r Gwasanaeth Sifil.

20.  Mae'r Cod hwn yn rhan o'r berthynas dan gontract rhyngoch chi a'ch cyflogwr. Mae'n nodi'r safonau ymddygiad uchel y disgwylir ichi eu dilyn yn eich swydd mewn bywyd cyhoeddus a chenedlaethol fel gwas sifil. Gallwch fod yn falch o arddel y gwerthoedd hyn.

Ionawr 2017

---

[7] Gall y ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban (Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) fod yn gymwys hefyd mewn rhai amgylchiadau. Mae Cyfeiriadur Canllawiau'r Gwasanaeth Sifil a Chod Rheoli’r Gwasanaeth Sifil yn cynnig mwy o wybodaeth: GOV.UJK – Civil Service Management Code.

[8] Ceir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil ar Wneud Cwynion – gweler gwefan y Comisiwn: www.civilservicecommission.gov.uk.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Cynnwys**

**CRYNODEB O'R POLISI**

**CANLLAWIAU A GWEITHDREFNAU**

1. Rolau a Chyfrifoldebau
2. Cyflwyniad
3. Manylion Secondiadau o'r Tu Allan (staff nad ydynt yn staff y Gwasanaeth Sifil)
4. Manylion Benthyciadau o'r Tu Allan (staff y Gwasanaeth Sifil)

Gweithwyr Llywodraeth Cymru sy'n gweithio y tu allan i Lywodraeth Cymru

5. Manylion Secondiadau i'r Tu Allan (i gyrff nad ydynt yn gyrff y Gwasanaeth Sifil)
6. Manylion Benthyciadau i'r Tu Allan (i gyrff y Gwasanaeth Sifil)

Atodiad A - Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil
Atodiad B - Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – Adran 83
Atodiad C – Ffurflen Secondiad/Benthyciad I'R TU ALLAN ar gyfer CSSC
Atodiad D - Geirfa

**DOLENNI DEFNYDDIOL**

E-ffurflen ar gyfer Cymeradwyo Secondiad/Benthyciad o'r Tu Allan ac Achos Busnes

Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil

Gwefan Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil

Academi Wales

Cyfnewid Pobl Cymru

gov.uk – Secondiadau a Benthyciadau'r Gwasanaeth Sifil

Polisi ac Adnoddau Rheoli Perfformiad

Rheolau Penodiadau Busnes

Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

## CRYNODEB O'R POLISI

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at fod yn gyflogwr sy'n dangos esiampl ac mae'n cydnabod gwerth Secondiadau a Benthyciadau am i mewn ac am allan.

Ein polisi yw annog a hwyluso, lle bynnag y bo'n briodol, drefniadau i gyfnewid cyflogeion am gyfnod dros dro rhwng Llywodraeth Cymru ac adrannau a chyrff Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraethau datganoledig eraill, sefydliadau'r sector cyhoeddus a sectorau eraill o'r economi, er budd i'r ddwy ochr. Mae hyn yn galluogi cyflogeion o wahanol sefydliadau i ddysgu gan ei gilydd a rhannu arfer da, arbenigedd, syniadau a phrofiad.

Fel arfer, trefnir secondiadau a benthyciadau am i mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn ymgymryd â phrosiectau neu rolau penodol am gyfnod cyfyngedig lle mae angen arbenigedd arbenigol na all staff presennol ei ddarparu a lle nad yw'n briodol recriwtio cyflogeion parhaol.

Mae secondiad am allan yn symudiad gwirfoddol dros dro i sefydliad nad yw'n un o Adrannau'r Llywodraeth. Mae benthyciad am allan yn symudiad gwirfoddol am gyfnod cyfyngedig dros dro i un o Adrannau Llywodraeth y DU neu Lywodraeth arall.

Dim ond os bydd budd amlwg i Lywodraeth Cymru, y cyflogwr arall a'r unigolion dan sylw y dylai Rheolwyr a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol ystyried cyfleoedd o'r fath. Ni ddylid byth defnyddio secondiadau a benthyciadau fel ffordd o symud cyflogeion â phroblemau tanberfformio rhwng sefydliadau.

Nid yw Secondeion na Benthyceion i Lywodraeth Cymru yn gyflogeion Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn gymwys ar gyfer ymgyrchoedd dilyniant na symudiadau rhwng swyddi neu raddau o fewn Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod y secondiad neu'r benthyciad.

Wrth ddarparu cyfleoedd am secondiad neu fenthyciad ac wrth benodi secondeion a benthyceion, rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n ofynion cyfreithiol ac a nodir yn Neddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010. Ceir esboniad llawn ar wefan Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rhaid i reolwyr ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ddilyn y canllawiau a'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r polisi hwn wrth gytuno ar secondiadau a benthyciadau i mewn i Lywodraeth Cymru ac am allan ac wrth drefnu secondiadau a benthyciadau o'r fath. Gallai methu â dilyn y gweithdrefnau hyn arwain at gamau disgyblu.

Mae ein holl bolisïau'n gwbl gynhwysol o bob aelod staff heb ystyried eu hoedran, statws priodas a phartneriaeth sifil (yr un rhyw a rhyw arall), beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a oes ganddynt nam neu gyflwr iechyd, yn niwroddirywiol neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, eu hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd. Rydym yn cydnabod nad yw'r termau 'hunaniaeth rhywedd' a 'mynegiant rhywedd' yn nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fodd bynnag, credwn fod polisi'r Llywodraeth sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer yr unigolion hynny sy'n ystyried eu hunain dan yr ymbarél 'traws' (yn hytrach nag ar sail rhyw deuaidd) yn agwedd fwy cynhwysol ac yn un sy'n sicrhau bod Gweinidogion Cymru mewn sefyllfa i gydymffurfio â'u holl ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hyrwyddo llesiant yng Nghymru. Os oes gennych unrhyw adborth ar gynwysoldeb y polisi hwn, e-bostiwch EqualityintheWorkplaceTeam@llyw.cymru

## CANLLAWIAU A GWEITHDREFNAU

### 1. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

### Secondiadau a Benthyciadau o’r Tu Allan

**Mae’r Is-adran sy’n Derbyn yn Llywodraeth Cymru/Rheolwyr Llinell yn gyfrifol am y canlynol:**

- Nodi'r cyfle am secondiad/benthyciad
- Mae cael cymeradwyaeth i recriwtio drwy’r dull hwn yn golygu am hyd at ddwy flynedd gan Banel Adnoddau'r maes busnes a'r Panel Adnoddau Allanol drwy Achos Busnes,
- Defnyddio E-ffurflen Secondiadau a Benthyciadau o’r Tu Allan i gyflwyno manylion y trefniant a'r secondai neu'r sawl sy’n cael ei fenthyg i'r Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol (CSSC)
- Hysbysebu'n fewnol fel y bo'n briodol drwy'r CSSC
- Gwneud y cyfle am secondiad/benthyciad yn hysbys i gyrff ac Adrannau Llywodraeth perthnasol
- Anfon copi o'r Polisi a'r canllawiau hyn at y Rhiant-Sefydliad
- Talu cyflog a chostau eraill sy'n gysylltiedig â swyddi (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth) ar gyfer secondeion a phobl sydd ar fenthyg o Gostau Rhedeg Is-adrannol neu arian Rhaglen
- Sicrhau bod y secondai yn ymwybodol o egwyddorion y rheolau Penodi Busnes ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau cyn llofnodi'r Cytundeb Secondiad
- Rhoi unrhyw amodau penodol i'r CSSC ar gyfer y secondiad neu'r benthyciad (sy'n ymwneud ag egwyddorion y Rheolau Penodi Busnes) y mae'n rhaid eu cynnwys yn y Cytundeb
- Trefnu cyfarpar TG drwy Ddesg Gymorth TG a sicrhau bod y secondai/sawl sydd ar fenthyg yn darparu'r Manylion Personol sy'n ofynnol gan y CSSC
- Sicrhau bod y secondai/sawl sydd ar fenthyg yn mynychu sesiwn sefydlu a hyfforddiant priodol e.e. hyfforddiant rheoli llinell os yw'n berthnasol
- Defnyddio'r system Adrodd Rheoli Perfformiad y cytunwyd arni a sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal
- Cadw mewn cysylltiad â'r Rhiant-Sefydliad
- Trefnu i dalu Anfonebau am gostau cyflog gan y Rhiant-Sefydliad

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

- Sicrhau bod yr holl nodiadau, memoranda a chofnodion (ysgrifenedig neu electronig) a gynhyrchir gan y secondai neu'r sawl sydd ar fenthyciad o'r tu allan, wrth gyflawni'r gwasanaethau a bennir ar gyfer ei secondiad neu ei fenthyciad yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd tymor y secondiad.
- Cysylltu â'r CSSC ar geisio sicrwydd fel sy'n ofynnol gan CThEM ynghylch treth incwm ac Yswiriant Gwladol gan y Cyflogwr
- Cyflwyno Achosion Busnes ar gyfer estyniadau i'r Tîm Adnoddau yn Adnoddau Dynol i'w cymeradwyo gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, OFMCO.

**Mae'r Tîm Adnoddau Dynol[1] yn gyfrifol am y canlynol:**

- Trefnu i'r Achos Busnes ar gyfer estyniadau i secondiadau/benthyciadau o'r tu allan presennol gael eu cymeradwyo
- Cyflwyno unrhyw geisiadau am estyniad i secondiad/benthyciad o'r tu allan a awdurdodwyd i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w awdurdodi ar ôl i'r estyniad gael ei gymeradwyo gan y Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Arbenigol a Phobl
- Cofnodi unrhyw estyniadau arfaethedig i Secondiadau a Benthyciadau presennol, monitro a rheoleiddio'r rhaglen Secondiadau/Benthyciadau a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi, gweithdrefnau a deddfwriaeth
- Bwrw ymlaen ag unrhyw benderfyniadau ar geisiadau i ystyried cymhwysedd ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio Llywodraeth Cymru gan gyflogeion allan ar secondiad neu fenthyciad
- Monitro a rheoleiddio Secondiadau a Benthyciadau

**Mae'r Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol (HRBPs) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Darparu cyngor ac arweiniad ar Bolisi Secondiadau a Benthyciadau, Canllawiau a Gweithdrefnau a rheolau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil
- Sicrhau bod cytundeb secondiad/benthyciad wedi'i lofnodi ar waith **cyn** i'r trefniant ddechrau, gan gynnwys gohirio'r dyddiad cychwyn hyd nes y cwblheir y cytundeb os oes angen
- Gwirio a monitro parhaus i sicrhau bod y Secondiad neu'r Benthyciad yn cydymffurfio â'r Polisi Secondiadau a Benthyciadau, y canllawiau hyn ac Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil
- Gweithio gyda Phanel Adnoddau'r maes busnes, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau am estyniadau i'r Tîm Adnoddau Dynol i'w cymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, OFMCO
- Sicrhau bod rheolwyr llinell yn cymryd camau i ddod â secondiadau/benthyciadau i ben ar yr adeg briodol
- Cyflwyno ceisiadau am secondiad o'r tu allan i'r Panel Adnoddau Allanol
- Cysylltu ag Arweinwyr Tîm Recriwtio yn y CSSC i ddelio ag unrhyw ymholiadau neu faterion

[1] Mae'r **Tîm Adnoddau Dynol** yn darparu ystod o gyngor arbenigol sy'n cynnwys cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a llywodraethu, meincnodi cydraddoldeb, archwiliadau recriwtio rheolaidd, gwelliannau i brosesau recriwtio a gweithredu mentrau recriwtio newydd.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Mae'r Tîm Cynghori ar Achosion (CAT) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cefnogi Rheolwyr Llinell ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, presenoldeb, ymddygiad a disgyblaeth ar gyfer unrhyw Secondiadau a Benthyciadau o'r tu allan

**Mae'r Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol (CSSC) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cydgysylltu gyda'r Is-adran sy'n Derbyn a'i chynghori ar y prosesau
- Cynhyrchu Cytundebau Secondiad a Benthyciadau gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan yr Is-adran sy'n Derbyn
- Cyhoeddi pecyn llofnodi i'r Secondiad/Benthyciad (gan gynnwys copïau o'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol, ffurflenni diogelwch a pholisïau perthnasol), gan gynghori bod rhaid eu dychwelyd o fewn 10 diwrnod gwaith ac na all y trefniant ddechrau cyn i gytundeb wedi'i lofnodi ddod i law
- Atgoffa'r unigolyn, y Rheolwr Llinell a'r Partner Busnes Adnoddau Dynol os na fydd cytundeb wedi'i lofnodi wedi dod i law o fewn 11 diwrnod gwaith i'w dosbarthu, a gofyn am ddyddiad cychwyn diwygiedig
- Uwchgyfeirio'r mater i'r Arweinydd Tîm os na dderbynnir cytundeb wedi'i lofnodi o fewn 15 diwrnod gwaith i'w ddosbarthu, a fydd yn cynghori'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol Adnoddau Dynol am y sefyllfa
- Ymgymryd â phrosesau fetio a diogelwch
- Monitro Secondiadau a Benthyciadau
- Coladu'r holl fanylion personol i'w hymgorffori mewn systemau cyfrifiadurol Adnoddau Dynol, gan gynnwys copi wedi'i sganio o'r holl gytundebau a gedwir yn ffeil rithwir y person ac unrhyw lythyrau estyniad
- Trosglwyddo unigolion ar Fenthyciadau o'r Tu Allan i gyflogres Llywodraeth Cymru
- Anfon negeseuon atgoffa at y rheolwr llinell 90 diwrnod a 30 diwrnod, a hefyd at y cyflogai 30 diwrnod cyn y dyddiad gorffen y cytunwyd arno ar gyfer pob Secondiad neu Fenthyciad
- Gweithredu trefniadau gadael arferol
- Casglu ffurflenni Cyllid a Thollau EM Llywodraeth Cymru ynghylch didynnu Treth Incwm a ffurflenni Yswiriant Gwladol ar gyfer secondeion a hysbysu'r Tîm TAW a Threth yn Cyllid o hysbysiad gan gyflogwyr

**Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol a Phobl yn gyfrifol am y canlynol:**

- Monitro Secondiadau a Benthyciadau drwy'r Tîm Adnoddau Dynol
- Oedi dyddiadau dechrau os nad yw cytundeb wedi'i lofnodi wedi dod i law

**Mae'r Paneli Adnoddau mewn meysydd busnes yn gyfrifol am y canlynol:**

- Gweithio gyda HRBPs ac ystyried a ddylid cytuno ar yr Achos Busnes ar gyfer Secondiad neu Fenthyciad yn seiliedig ar ofynion ariannu ac adnoddau ac ystyried unrhyw geisiadau dilynol am estyniadau lle bo hynny'n bosibl

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Mae'r Tîm Polisi Adnoddau Dynol yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cynnal a diweddaru Polisi, Canllawiau a Gweithdrefnau Secondiadau a Benthyciadau
- Ymdrin ag ymholiadau a atgyfeiriwyd gan CSSC a'r Tîm Adnoddau mewn perthynas â secondiadau a benthyciadau

## Secondiadau a Benthyciadau i'r Tu Allan

**Mae'r gweithwyr yn gyfrifol am y canlynol:**

- Sicrhau cytundeb mewn egwyddor gan reolwyr llinell cyn gwneud cais am secondiad neu fenthyciad i'r tu allan i Lywodraeth Cymru
- Gwneud cais am Secondiad neu Fenthyciad i'r Tu Allan
- Cyflwyno Achos Busnes, gan gynnwys manylion y secondiad neu'r benthyciad, gofyn am gymeradwyaeth gan y Rheolwr Llinell i ymgymryd â'r cyfle os bydd cais yn llwyddiannus
- Ystyried a allai'r secondiad fod yn gwrthdaro â'i rôl yn y Gwasanaeth Sifil gan ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn y polisi Trafodion Ariannol a Gwrthdaro Buddiannau pan fo hynny'n wir
- Cytuno ar dâl a hyd Secondiad neu Fenthyciad hyd at uchafswm o ddwy flynedd mewn ymgynghoriad a'r Is-adran sy'n Cyflogi yn Llywodraeth Cymru, CSSC a'r Sefydliad sy'n Croesawu (adran y llywodraeth neu gorff arall y bydd yn cael ei secondio neu ei fenthyg iddo)
- Sicrhau ei fod ar gael i drafod y profiad os oes angen
- Sicrhau bod y Sefydliad sy'n Croesawu yn cynhyrchu ac yn dychwelyd y Cytundeb Secondiad neu Fenthyciad wedi'i lofnodi i'r CSSC
- Cyflwyno Achos Busnes i gefnogi unrhyw gynnig i ymestyn y trefniant i'w Panel Adnoddau Adrannol
- Rhoi gwybod i'r CSSC am unrhyw newid i fanylion personol/cyswllt tra bydd ar secondiad/benthyciad
- Gwneud cais am swyddi o leiaf 3 mis cyn diwedd y secondiad neu'r benthyciad (os nad yw'r swydd yn cael ei chadw ar agor) a chysylltu â'i Bartner Busnes Adnoddau Dynol am gymorth drwy'r broses hon

**Mae'r Is-adran sy'n Cyflogi yn Llywodraeth Cymru/Rheolwyr Llinell yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cymeradwyo mewn egwyddor neu wrthod cais am secondiad neu fenthyciad i'r tu allan
- Os caiff ei gymeradwyo, cytuno ar dâl a hyd Secondiad/Benthyciad (hyd at uchafswm o ddwy flynedd), mewn ymgynghoriad â'r Cyflogai, CSSC a'r Sefydliad sy'n Croesawu
- Cadarnhau a fydd y swydd bresennol yn cael ei chadw ar agor tan ddiwedd y secondiad neu'r benthyciad
- Cysylltu â'r Sefydliad sy'n Croesawu ynghylch rheoli perfformiad y cyflogai (gan gynnwys asesu categori perfformiad) tra ar secondiad

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

- Cytuno ar drefniadau 'cadw mewn cysylltiad' a sicrhau y gweithredir arnynt yn ystod cyfnod y Secondiad neu'r Benthyciad.
- Ystyried unrhyw estyniadau arfaethedig i dymor y Secondiad neu'r Benthyciad, a'u hanfon at y Partner Busnes AD perthnasol i'w hystyried
- Darparu copi o'r polisi a'r canllawiau hyn i'r Sefydliad sy'n Croesawu
- Mewn amgylchiadau eithriadol, cynhyrchu achos busnes i'w ystyried gan y Prif Swyddog Diogelwch a'r Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau TGCh, ynghylch y posibilrwydd o gadw pas swyddfa a phroffil TG y cyflogai.

**Mae Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol (HRBPs) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Darparu cyngor ac arweiniad ar bolisi a gweithdrefnau Secondiadau a Benthyciadau
- Ystyried a ddylid cymeradwyo Achosion Busnes, gan gynnwys cyflwyno ceisiadau am estyniadau i'r Tîm Adnoddau Dynol a, lle y bo'n briodol, Tîm Adnoddau Dynol yr Uwch Wasanaeth Sifil i'w cymeradwyo.
- Cysylltu â'r cyflogai, ei gynghori ar sicrhau swydd i ddychwelyd iddi ar ôl dychwelyd o'i secondiad neu fenthyciad lle nad yw ei swydd wedi'i chadw ar agor, neu drefnu swydd dros dro yn ei Faes Busnes os na fu ceisiadau llwyddiannus erbyn y dyddiad dychwelyd
- Cysylltu ag Arweinwyr Tîm Recriwtio yn y CSSC i ddelio ag unrhyw ymholiadau neu faterion

**Mae'r Timau Cynghori ar Achosion Adnoddau Dynol (CAT) yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cefnogi rheolwyr llinell ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, presenoldeb, cwynion a disgyblaeth ar gyfer benthyciadau a secondiadau i'r tu allan

**Mae'r Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am y canlynol:**

- Hysbysebu cyfleoedd am Secondiad/Fenthyciad ar dudalennau Swyddi Gwag y Fewnrwyd
- Rhoi gwybod i secondeion am drefniadau cadw mewn cysylltiad
- Unwaith y derbynnir hysbysiad am secondiad neu fenthyciad i'r tu allan, ysgrifennu at y Sefydliad sy'n Croesawu i ofyn am gytundeb drafft 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad dechrau
- Os na dderbynnir drafft erbyn hyn, gofyn amdano eto ac atgoffa'r Sefydliad sy'n Croesawu na fydd y cyflogai yn gallu dechrau hyd nes bod cytundeb wedi'i lofnodi ar waith ac efallai y bydd angen i'r dyddiad cychwyn newid, a chopïo hyn i'r Partner Busnes Adnoddau Dynol
- Os na dderbynnir ymateb o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad cychwyn, uwchgyfeirio i'r Arweinydd Tîm a fydd yn cynghori'r Partner Busnes Adnoddau Dynol na all y person ddechrau heb gytundeb wedi'i lofnodi, gan anfon copi at y Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Arbenigol Adnoddau Dynol
- Coladu copïau o Gytundebau a llythyrau ymestyn
- Trefnu gyda gwasanaethau TG i ddileu Proffil TG y Cyflogai, oni chytunir fel arall gan yr Is-adran sy'n Cyflogi/Rheolwr Llinell
- Cymryd camau i dynnu benthyciadau i'r tu allan oddi ar y gyflogres

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

- Anfonebu Sefydliadau sy'n Croesawu am gostau cyflog secondai llawn + TAW o 20%
- Anfon negeseuon atgoffa at y rheolwr llinell a'r Partner Busnes Adnoddau Dynol 100 diwrnod cyn y dyddiad y cytunwyd y byddai'r Secondiad/Benthyciad i'r tu allan yn dod i ben

**Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr yn y maes busnes perthnasol yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cytuno ar yr Achos Busnes am gyfle Secondiad/Benthyciad i'r tu allan ac unrhyw geisiadau am estyniad cyn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan ei Banel Adnoddau.

**Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Arbenigol a Phobl yn gyfrifol am y canlynol:**

- Oedi dyddiadau dechrau os nad yw cytundeb wedi'i lofnodi wedi dod i law

## 2. Cyflwyniad

2.1 Gall secondiadau a benthyciadau i mewn ac allan o Lywodraeth Cymru helpu i ddatblygu a gwella cysylltiadau â llywodraethau ac adrannau'r DU a'r llywodraethau datganoledig a chyda sefydliadau'r sector preifat a chyhoeddus. Mae secondiadau a benthyciadau fel arfer yn para rhwng ychydig fisoedd ac uchafswm arferol o ddwy flynedd. Gweler Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

2.2 Y sefydliad sy'n cynnig y cyfle am secondiad neu Fenthyciad sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Cytundeb Secondiad neu Fenthyciad sy'n ddogfen gyfreithiol.

2.3 Ni ellir defnyddio cytundeb Secondiad neu Fenthyciad pan fo un corff cyhoeddus yn ymgymryd â swyddogaethau un arall o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Trefniadau Asiantaeth a darparu gwasanaethau). Os caiff adran 83 ei chychwyn, rhaid i gyfreithwyr Llywodraeth Cymru lunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'i roi ar waith i gwmpasu'r trefniant.

2.4 Ni all staff nad ydynt yn aelodau o Lywodraeth Cymru a gyflogir ar ddyletswyddau sy'n ymwneud â threfniadau a83 i arfer swyddogaeth benodol naill ai o'u hawdurdod cyflogi neu Lywodraeth Cymru ddefnyddio system TG Llywodraeth Cymru heb ganiatâd penodol Cynghorydd Diogelwch Llywodraeth Cymru. Mae angen cliriad diogelwch llawn os rhoddir caniatâd i ddefnyddio system TG Llywodraeth Cymru. (Atodiad C)

2.5 Dylid cyfeirio cwestiynau cyffredinol ynghylch secondiadau a benthyciadau at y CSSC yn y lle cyntaf.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

## 3. SECONDIAD O'R TU ALLAN (STAFF NAD YDYNT YN STAFF Y GWASANAETH SIFIL)

**Nodi cyfle am secondiad o'r tu allan:**

3.1 Pan fydd yr Is-adran sy'n Derbyn wedi nodi'r angen am gyfle am secondiad o'r tu allan, rhaid cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Cyfarwyddwr perthnasol neu ei reolwyr dirprwyedig i gadarnhau bod cyllid a lle ar gael. Rhaid i'r Is-adran sy'n Derbyn hefyd ofyn am gyngor ac arweiniad gan eu Partner Busnes Adnoddau Dynol i sicrhau mai secondiad o'r tu allan yw'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu adnoddau ar gyfer y rôl. Rhaid llunio achos busnes i'w ystyried gan Banel Adnoddau'r maes busnes yna'r Panel Adnoddau Allanol.

**Trefnu secondiad o'r tu allan:**

3.2 Os yw'r swydd ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil, rhaid i'r Is-adran sy'n Derbyn gyflwyno Achos Busnes i'r Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Corfforaethol, OFMCO. Lle bo angen, bydd y Cyfarwyddwr, OFMCO, yn cyflwyno Achos Busnes i Bwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil i'w gymeradwyo.

3.3 Dylai'r Is-adran sy'n Derbyn lenwi Ffurflen Swydd Newydd i'w gwerthuso gan y Tîm Datblygu Sefydliadol Adnoddau Dynol a Gwerthuso Swyddi cyn hysbysebu swydd i sicrhau ei bod yn cael ei hysbysebu ar y lefel gywir.

3.4 Rhaid i benodiadau gydymffurfio ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyhoeddwyd yr Egwyddorion diwygiedig yn 2018 (Atodiad A). Gellir trefnu secondiadau o'r tu allan o hyd at 2 flynedd heb gael nifer o ymgeiswyr. Os disgwylir i'r secondiad o'r tu allan fod am gyfnod hwy o'r cychwyn neu os ystyrir y gallai fod angen ymestyn y secondiad y tu hwnt i 2 flynedd yna rhaid cynnal ymarfer recriwtio teg ac agored.

3.5 Fel arfer, mae secondiadau o'r tu allan yn para o ychydig fisoedd i ddwy flynedd. Hyd yn oed gydag estyniadau, ni ddylai secondiad byth bara mwy na 4 blynedd.

3.6 Mae'r Is-adran sy'n Derbyn yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfle'n hysbys i ddarpar ymgeiswyr drwy'r rhai y mae ganddynt gysylltiadau â nhw. Gall hyn gynnwys hysbysu awdurdodau lleol neu grwpiau gwirfoddol neu'r cyhoedd yn ehangach drwy dudalennau recriwtio rhyngrwyd Llywodraeth Cymru lle mae angen bodloni'r maen prawf cystadleuaeth deg ac agored. Dylid o leiaf hysbysebu'r cyfle ar Borth Cyfnewid Pobl Cymru. Gall y Partner Busnes AD roi arweiniad i'r Is-adran sy'n Derbyn ar hysbysebu cyfleoedd am secondiad o'r tu allan yn ehangach ac ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr hysbyseb, e.e. telerau'r secondiad, a sut i adlewyrchu manylion Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil.

3.7 Os na chaiff secondai o'r tu allan ei recriwtio drwy gystadleuaeth deg ac agored (gweler Atodiad A) a bod angen estyniad i'r tymor cychwynnol o ddwy flynedd, yna rhaid sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig benodol gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil cyn rhoi unrhyw estyniad.

3.8 Lle bo’n bosibl, dylai ymgeiswyr ar secondiad i Lywodraeth Cymru gael eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld yn unol â Pholisi Recriwtio Llywodraeth Cymru ac yn unol â data cynllunio'r gweithlu. Dylid ymgynghori â Phartneriaid Busnes AD pan na ddefnyddir y Polisi Recriwtio ar gyfer llunio rhestr fer a/neu gyfweld. Gall y Partner Busnes AD a'r Tîm Adnoddau Dynol roi cyngor ar y broses recriwtio a dethol.

3.9 Ni ddylai'r telerau ymlyniad ar gyfer unrhyw wladolion tramor wrthdaro â rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil.

3.10 Mae'r rhan fwyaf o'r secondeion yn symud ar draws fel eu bod yn aros ar yr un cyflog ag y cânt gan eu Rhiant-Sefydliad. Dim ond mewn achosion eithriadol, e.e. lle mae lefel ôl-fandio’r secondiad yn cyfateb i ddyrchafiad dros dro o ran cyflog, y gellir bod yn hyblyg gyda’r cyflog.

3.11 Rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn hysbysu'r CSSC o'r secondai o’r tu allan gan ddefnyddio'r E-ffurflen sydd ar gael ar y Fewnrwyd. Rhaid i'r secondeion o’r tu allan i Lywodraeth Cymru lenwi a llofnodi ffurflen manylion personol, ffurflen cyn cyflogaeth 1 (Diogelwch a Fetio) a llofnodi copi o'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol. Cyhoeddir y rhain gan y CSSC. Rhaid cwblhau gwiriadau diogelwch yn unol â Pholisi Diogelwch Llywodraeth Cymru a chyn i'r secondai ddechrau gweithio i Lywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar natur rôl y secondai, efallai y bydd angen cliriad diogelwch ychwanegol, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.12 Mae'r E-ffurflen yn cyflenwi'r wybodaeth ofynnol fel y gellir cynhyrchu'r Cytundeb Secondiad i'w lofnodi gan bartïon y Cytundeb (person cyfrifol Llywodraeth Cymru, y Rhiant-Sefydliad a'r Secondai). Mae'r rheolwr llinell yn yr Is-adran sy’n Derbyn yn cysylltu â’r Partner Busnes AD, y secondai a'r Rhiant-Sefydliad i esbonio manylion y Cytundeb. Rhaid ei gwneud yn glir i'r Rhiant-Sefydliad a'r Secondai ar y dechrau na all y naill barti na'r llall newid templed y Cytundeb, sy'n dempled dogfen gyfreithiol safonol. Mae'r CSSC yn cwblhau'r meysydd gwag ar Dempled y Cytundeb, yn trefnu llofnod ac yn rhannu copïau â’r partïon allweddol, gan gadw cofnod.

3.13 Bydd y CSSC yn ysgrifennu at y Rhiant-Sefydliad, gan esbonio bod ganddo 10 diwrnod gwaith i ddychwelyd y copi wedi'i lofnodi o'r cytundeb i Lywodraeth Cymru. Os nad yw'r cytundeb wedi'i dderbyn o fewn 11 diwrnod gwaith, bydd y CSSC yn anfon nodyn atgoffa at yr unigolyn, y Rheolwr Llinell recriwtio a'r Partner Busnes AD yn esbonio na fyddant yn gallu dechrau'r secondiad hyd nes bod cytundeb wedi'i lofnodi ar waith. Bydd y nodyn atgoffa yn gofyn am ddyddiad cychwyn diwygiedig. Os nad oes ymateb i'r nodyn atgoffa o fewn 5 diwrnod gwaith, bydd y CSSC yn anfon yr achos ymlaen at arweinydd Tîm CSSC, gan ddarparu llwybr llawn o'r holl gamau gweithredu. Bydd yr Arweinydd Tîm yn cysylltu â’r Partner Busnes AD, gan gynnwys copi i’r Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth Strategaeth a Pholisi Adnoddau Dynol. Ni fydd y secondai'n dechrau hyd nes bod cytundeb wedi'i lofnodi ar waith ac felly ni fydd unrhyw gyfrif TGCh yn cael ei greu na'i actifadu. Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Pherfformiad Adnoddau Dynol hefyd yn cael ei gopïo i mewn fel ei fod yn

ymwybodol o'r sefyllfa a gall gadarnhau ei fod yn fodlon i'r dyddiad dechrau gael ei ohirio hyd nes y derbynnir cytundeb wedi'i lofnodi.

**Telerau ac Amodau Gwasanaeth**

3.14 Mae secondeion o’r tu allan i Lywodraeth Cymru yn cadw Telerau ac Amodau Gwasanaeth y Rhiant-Sefydliad. Fodd bynnag, fel un o amodau eu secondiad, mae'n ofynnol iddynt gadw at egwyddorion y Rheolau Penodiadau Busnes pan ddaw'r secondiad i ben gan na ddylent ddefnyddio gwybodaeth sensitif, fasnachol neu fel arall, a gawsant drwy eu secondiad i Lywodraeth Cymru, i ddylanwadu ar unrhyw fudd i'w cyflogwr neu unrhyw fudd preifat i’w hunain. Cyfeirir at hyn yn y Cytundeb Secondiad a dylai rheolwr llinell Llywodraeth Cymru drafod hyn gyda'r secondai a'r cyflogwr cyn llofnodi'r Cytundeb a hefyd sicrhau bod unrhyw amodau penodol, sy'n ymwneud ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai ddigwydd ar ôl diwedd y cyfnod secondiad, wedi'u cynnwys ym mharagraff 15.2 o'r Cytundeb Secondiad.

3.14.1 **– Absenoldeb/Gwyliau**: mae secondeion o’r tu allan yn cadw eu gwyliau blynyddol cytundebol a'u lwfans gwyliau braint fel y nodir yn eu contract cyflogaeth gyda'r Rhiant-Sefydliad. Maent yn parhau i gronni gwyliau blynyddol yn ystod y cyfnod secondiad. Nid oes gan secondeion o’r tu allan hawl i wyliau braint Llywodraeth Cymru a lle nad oes ganddynt hawl debyg, rhaid iddynt naill ai gymryd gwyliau blynyddol ar ddiwrnod Braint Llywodraeth Cymru neu weithio gartref drwy gytundeb â rheolwr llinell Llywodraeth Cymru os yw swyddfa Llywodraeth Cymru ar gau fel arfer.

3.14.2 **- Absenoldeb Salwch/Absenoldeb teuluol**: trefniadau yn unol â gweithdrefnau safonol y Rhiant-Sefydliad. Mae'n ofynnol i secondeion o’r tu allan roi gwybod i'w rheolwr llinell Llywodraeth Cymru erbyn 9.30am ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb os nad ydynt yn gallu mynychu'r gwaith oherwydd salwch a hyd amcangyfrifiad o’r absenoldeb. Ar gyfer absenoldeb teuluol, megis absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu, ac ati., mae telerau'r cyflogwr yn berthnasol. Rhaid i reolwr llinell Llywodraeth Cymru ymdrin â materion presenoldeb. Ymdrinnir â thrafodion ffurfiol ar y cyd ag Adran Adnoddau Dynol y cyflogwr. Gellir gofyn am gymorth gan y Tîm Cynghori ar Achosion (CAT).

3.14.3 **- Tâl a threuliau**: Mae secondeion o’r tu allan yn parhau i fod ar gyflogres eu Rhiant-Sefydliad. Rhaid i'r olaf anfonebu'r Is-adran sy’n Derbyn bob chwarter am y costau cyflog y cytunwyd arnynt. Mae'r secondai o’r tu allan yn ddarostyngedig i Bolisi a Gweithdrefnau Teithio a Chynhaliaeth Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod secondiad gan fod Llywodraeth Cymru yn talu costau teithio a chynhaliaeth. Rhaid i hawliadau am Deithio a Chynhaliaeth gael eu hawdurdodi yn y ffordd arferol gan y rheolwr llinell yn yr Is-adran sy’n Derbyn. Mae'n ofynnol gan CThEM fod Llywodraeth Cymru yn gofyn am sicrwydd gan y cyflogwr, pan fo secondai o’r tu allan yn ennill £220 y dydd neu fwy, bod treth incwm ac yswiriant gwladol yn cael eu didynnu gan y cyflogwr, ac, ers 6 Ebrill 2017, bod pob enillion yn ddarostyngedig i dreth ac yswiriant gwladol fel y bo'n

briodol. Bydd Desg Gymorth CSSC yn cyflawni'r swyddogaeth hon a gall fod angen cefnogaeth yr Is-adran sy'n Derbyn i gysylltu â'r cyflogwr. Bydd y CSSC yn hysbysu'r Tîm TAW a Threth yn Cyllid pan ddaw'r sicrwydd i law.

3.14.4 **- Pensiwn:** Ni all secondeion ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn rhinwedd cael eu secondio i Lywodraeth Cymru ac, os ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn, byddant yn aros yn eu cynllun pensiwn presennol. Ni fydd cofrestru awtomatig i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn berthnasol secondeion o'r tu allan.

3.14.5 **- Trefniadau Budd-dal Anafiadau:** rhaid i'r rheolwr llinell, y Partner Busnes AD a'r Rhiant-Sefydliad gytuno ar y trefniadau ar gyfer yswiriant budd-dal anafiadau cyn i unrhyw Secondiad ddechrau. Fel arfer, bydd secondeion yn cael eu hyswirio ar gyfer yswiriant budd-dal anafiadau fel rhan o gynllun pensiwn eu cyflogwr neu bolisi yswiriant preifat. Rhaid i'r secondai a'r Is-adran sy'n Derbyn wirio pa drefniadau budd-dal anafiadau sydd ar waith cyn i'r secondiad ddechrau. Gall yr Is-adran sy'n Derbyn benderfynu a fydd Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer budd-dal anafiadau dim ond os caiff ei gwneud yn un o'r amodau bod y Secondiad yn digwydd.

3.14.6 **- Perfformiad a Hyfforddiant**: Mae'r Is-adran sy'n Derbyn yn gyfrifol am drefnu rhaglen sefydlu, cytuno ar y system monitro Rheoli Perfformiad a chwblhau a dogfennu adolygiadau amserol. Mae gan y secondiad o'r tu allan hawl i ddefnyddio'r rhaglen Hyfforddiant Craidd a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i geisiadau am hyfforddiant nad ydynt yn dod o dan y rhaglen gael eu hawdurdodi a'u hariannu gan y rheolwr llinell a'r Is-adran sy'n Derbyn yn y drefn honno. Rhaid i reolwr llinell Llywodraeth Cymru ymdrin â materion perfformiad yn anffurfiol yn y lle cyntaf. Os bydd materion tanberfformio'n parhau a'i bod yn angenrheidiol cymryd camau ffurfiol, efallai y bydd angen terfynu'r Cytundeb gan roi'r rhybudd priodol. Gellir gofyn am gymorth gan y Tîm Cynghori ar Achosion.

3.14.7 **- Cwynion a Disgyblu:** Rhaid ymdrin â materion disgyblu a chwyno mewnol yn unol â gweithdrefn y Rhiant-sefydliad. Rhaid codi materion gyda rheolwr llinell Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf. Bydd yn cysylltu â'r Tîm Cynghori Achos am arweiniad, cyn cysylltu ag adran Adnoddau Dynol y Rhiant-sefydliad i drafod y mater ymhellach. Yna bydd y Rhiant-Sefydliad yn cymryd camau priodol yn unol â'i weithdrefnau, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru. Rhaid rhoi gwybod i staff Llywodraeth Cymru sydd â gwybodaeth neu sy'n ymwneud ag unrhyw fater disgyblu neu gwyno sy'n ymwneud â secondai o'r tu allan am weithdrefnau'r cyflogwr, a rhaid iddynt gydweithredu â hwy.

3.14.8 Caiff Llywodraeth Cymru derfynu'r secondiad heb rybudd os yw'r secondai'n cyflawni unrhyw weithred gamymddwyn ddifrifol neu'n ailadrodd neu'n parhau i dorri dyletswyddau'n ddifrifol mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau diswyddo heb rybudd o dan ei Delerau a'i Amodau presennol. At ddibenion y polisi a'r canllawiau hyn, mae gweithred gamymddwyn ddifrifol yn gyfystyr â'r hyn

a nodir yn y telerau ac amodau cyflogaeth safonol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r cyflogwr i gytuno a chymryd y camau nesaf.

3.14.9 Rhaid i Lywodraeth Cymru gynorthwyo a chydweithredu â'r cyflogwr i gynnal unrhyw ymchwiliadau/gamau disgyblu sy'n ymwneud â'r secondai o'r tu allan a rhaid iddi sicrhau bod yr holl ddata perthnasol ar gael ar yr amod ei fod yn briodol ac yn gyfreithlon i wneud hynny. Os bydd materion Diogelu Data neu gyfrinachedd (e.e. polisi gwleidyddol sensitif, polisi gwarchodedig neu wybodaeth bersonol) yn codi wrth reoli materion ymddygiad neu ddisgyblaeth gyda'r cyflogwr, dylid ceisio cyngor pellach drwy'r Tîm Cynghori ar Achosion sy'n ystyried y goblygiadau priodoldeb a chyfreithiol ac yn cynghori yn unol â hynny.

**Gofynion Cyfreithiol – Y Cytundeb Secondiad**

3.15 Mae'r Cytundeb Secondiad rhwng LlC, y Rhiant-Sefydliad a'r secondai o'r tu allan yn ddogfen gyfreithiol sy'n cael ei chwblhau a'i darparu gan y CSSC pan fydd secondiad o'r tu allan yn cael ei drefnu. **Rhaid** cwblhau a llofnodi'r Cytundeb cyn i'r trefniadau fetio diogelwch gael eu cwblhau a chyn i'r secondai ddechrau gweithio i Lywodraeth Cymru.

**Iechyd a Diogelwch**

3.16 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch y secondai o'r tu allan tra'i fod wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb yr Is-adran sy'n Derbyn yw trefnu asesiad yr Adran Gweithredol Iechyd a Diogelwch (DSE) cychwynnol pan fydd y secondai'n dechrau ac yn rheolaidd yn ôl y gofyn. Pan fo'r secondai o'r tu allan wedi'i leoli mewn safle nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru, rhaid i'r Is-adran sy'n Derbyn gael cytundeb ysgrifenedig gan y Sefydliad sy'n Croesawu y bydd yn:

- hysbysu'r secondai o weithdrefnau argyfwng a gweithdrefnau eraill sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr adeilad
- darparu dodrefn/cyfarpar i'r safonau gofynnol a threfnu asesiad DSE
- trin y secondai fel cyflogai mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch yn gyffredinol.

**Cadw mewn Cysylltiad yn ystod y Cyfnod Secondiad**

3.17 Dylai'r secondai o'r tu allan gadw mewn cysylltiad â'i Riant-Sefydliad i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r holl hysbysiadau staff, cyfleoedd gwaith etc sy'n codi yn ystod ei absenoldeb. Rhaid i reolwr llinell LlC gysylltu â'r Rhiant-Sefydliad yn rheolaidd i roi gwybod am bresenoldeb, perfformiad ac unrhyw faterion perthnasol eraill, ac ar ddiwedd y cyfnod secondiad o ran dychwelyd i'r Rhiant-Sefydliad.

**Cyfnodau Rhybudd**

3.18 Ar unrhyw adeg, gall Llywodraeth Cymru, y cyflogwr neu'r secondai o’r tu allan roi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig y bydd y Cytundeb Secondiad yn cael ei derfynu ac y bydd y secondai o’r tu allan yn ailddechrau ei ddyletswyddau gyda'r Rhiant-Sefydliad. Rhaid i'r rheolwr llinell gadarnhau'r dyddiad dychwelyd gyda nhw a hysbysu'r CSSC yn unol â hynny. Caiff Llywodraeth Cymru derfynu'r secondiad heb rybudd dan rai amgylchiadau megis camymddygiad difrifol.

**Ymestyn cyfnod secondiad o’r tu allan**

3.19 **Rhaid** i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil roi cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw estyniad i'r cyfnod secondiad ar gyfer secondeion a recriwtiwyd o dan Eithriad 3 o Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil (gweler Atodiad A). Rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn gynhyrchu Achos Busnes cynhwysfawr ar gyfer estyniad i'w ystyried gan y Panel Adnoddau a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Gweithrediadau a Pherfformiad AD, yn ystyried y cais am estyniad, ac os ydynt o'r farn ei fod yn rhesymol, byddant yn cyfarwyddo'r Tîm Adnoddau Dynol i anfon yr achos i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil am ei sêl bendith. Heb estyniad wedi'i gymeradwyo'n llawn, rhaid i'r secondai ddychwelyd i'r Rhiant-Sefydliad ar y dyddiad y cytunwyd arno yn y Cytundeb Secondiad cychwynnol. Rhaid sicrhau cytundeb i ymestyn secondiad o leiaf dri mis cyn dyddiad gorffen gwreiddiol y secondiad (gweler paragraff 3.4).

**Trefniadau monitro ac uwchgyfeirio ar ddiwedd y cyfnod secondiad**

3.20 Bydd rheolwr llinell y secondai o’r tu allan yn cael nodiadau atgoffa awtomataidd gan y CSSC 90 diwrnod a 28 diwrnod cyn y dyddiad gorffen y cytunwyd arno ar gyfer y secondiad, i hwyluso'r gwaith o adolygu'r trefniadau secondiad ac i gymryd camau ymestyn neu gamau gadael priodol. Bydd y secondai yn derbyn nodyn atgoffa 28 diwrnod cyn y dyddiad gorffen y cytunwyd arno ar gyfer y secondiad er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu ar bob cam gadael perthnasol, ceir canllawiau ar hyn o fewn y nodyn atgoffa.Os nad oes ymateb i'r CSSC erbyn y pwynt 28 diwrnod, bydd y CSSC yn cymryd camau gadael priodol, gan gynnwys dileu'r proffil TG, hawlio’r pas adeilad a therfynu trefniadau cyflog.

## 4. BENTHYCIAD O’R TU ALLAN (STAFF Y GWASANAETH SIFIL)

**Nodi cyfle am Fenthyciad o’r Tu Allan**

4.1 Pan fydd yr Is-adran sy’n Derbyn wedi nodi'r angen am gyfle am fenthyciad o’r tu allan, rhaid cynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Cyfarwyddwr perthnasol neu ei reolwyr dirprwyedig i gadarnhau bod cyllid a lle ar gael. Rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn hefyd ofyn am gyngor ac arweiniad gan eu Partner Busnes AD i sicrhau mai benthyciad o’r tu allan yw'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu adnoddau ar gyfer y rôl.

**Trefnu benthyciad o’r tu allan – y Broses**

4.2 Os yw'r swydd ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil, rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn gyflwyno Achos Busnes i Gyfarwyddwr AD a fydd, lle bo angen, yn cyflwyno Achos Busnes i Bwyllgor Taliadau'r Uwch Wasanaeth Sifil i'w gymeradwyo. Ym mhob achos, unwaith y cytunir mai benthyciad o’r tu allan yw'r ffordd ymlaen, rhaid cyflwyno'r Achos Busnes i'r Partner Busnes AD i'w gymeradwyo.

4.3 Dylai'r Is-adran sy’n Derbyn lenwi Ffurflen Swydd Newydd i'w gwerthuso gan y Tîm Datblygu Sefydliadol a Gwerthuso Swyddi Adnoddau Dynol cyn hysbysebu swydd i sicrhau ei bod yn cael ei hysbysebu ar y lefel gywir.

4.4 Os caiff ei chymeradwyo, cyfrifoldeb yr Is-adran sy’n Derbyn yw hysbysebu'r swydd, a threfnu'r benthyciad o’r tu allan gyda chymorth y CSSC. Rhaid rhoi gwybod am y cyfle i Adrannau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Gall y Partner Busnes AD roi arweiniad i'r Is-adran sy’n Derbyn ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr hysbyseb, e.e. telerau'r benthyciad, a manylion Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil.

4.5 Pan fydd y sawl ar fenthyg wedi'i ddewis, rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn hysbysu'r CSSC gan ddefnyddio'r E-ffurflen sydd ar gael ar y Fewnrwyd sydd ar gael ar y Fewnrwyd. Mae'r CSSC yn gyfrifol am gynhyrchu'r Cytundeb Benthyciad o’r Tu Allan. Rhaid i Reolwr Llinell yr Is-adran sy’n Derbyn, mewn ymgynghoriad â'r Partner Busnes AD, y Cyflogwr a'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan, hefyd gysylltu â'r CSSC fel sy'n ofynnol i'w helpu i baratoi'r Cytundeb Benthyciad i'w lofnodi gan bartïon y Cytundeb (person cyfrifol Llywodraeth Cymru, y Rhiant-Adran a'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan). Mae'r Rheolwr Llinell yn cysylltu â'r Partner Busnes AD, y sawl sydd ar fenthyg a'r Rhiant-Adran i esbonio telerau'r Cytundeb. Rhaid esbonio’n glir i'r Rhiant-Adran a’r sawl sydd ar fenthyg ar y dechrau fod y Cytundeb yn ddogfen gyfreithiol safonol ac na ddylid newid ei Thelerau. Mae'r CSSC yn dosbarthu copïau o'r Cytundeb Benthyciad wedi'i lofnodi i bartïon allweddol, gan gadw cofnod. **Er mwyn sicrhau bod Cytundeb wedi'i lofnodi yn dod i law cyn y dyddiad cychwyn, bydd y broses a nodir yn 3.13 uchod yn gymwys.**

4.6 Mae CSSC yn cyhoeddi'r ffurflenni fetio diogelwch perthnasol, manylion y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol a ffurflen manylion personol i'w llenwi gan y sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan. Rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn sicrhau bod yr holl nodiadau, memoranda a chofnodion (ysgrifenedig neu electronig) a gynhyrchir gan y sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan, wrth gyflawni'r gwasanaethau a bennir ar gyfer eu benthyciad, yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd tymor y benthyciad.

**Telerau ac Amodau Gwasanaeth**

4.7 Bydd y rhai ar fenthyciad o’r tu allan yn trosglwyddo i Delerau ac Amodau Llywodraeth Cymru.

4.7.1 **- Gwyliau Blynyddol ac Amser i Ffwrdd**: mae gan y sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan yr hawl i gael gwyliau yn unol â Pholisi Gwyliau Blynyddol,

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

Polisi Gwyliau Cyhoeddus a Braint a pholisïau absenoldeb teuluol Llywodraeth Cymru.

4.7.2 **- Absenoldeb Oherwydd Salwch**: Mae gwasanaeth y sawl ar fenthyciad o’r tu allan, gan gynnwys cofnodion salwch, yn trosglwyddo gydag ef yn ystod y cyfnod benthyg. Rheolir absenoldeb yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r sawl sydd ar fenthyg hysbysu ei reolwr llinell LlC cyn 9.30am dros y ffôn ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb oherwydd salwch. Gweler y Polisi Rheoli Presenoldeb. Rhaid i reolwr llinell Llywodraeth Cymru hefyd gadw'r Rhiant-Adran yn ymwybodol o absenoldeb oherwydd salwch.

4.7.3 **- Cyflog a Threuliau**: Caiff y rhai ar fenthyciad o’r tu allan eu rhoi ar gyflogres Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod benthyg. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau Teithio a Chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â busnes yn ystod tymor y benthyciad. Mae'r sawl sydd ar fenthyg yn hawlio costau teithio a chynhaliaeth drwy systemau mewnol arferol Llywodraeth Cymru.

4.7.4 **- Pensiwn**: Yn ystod y cyfnod benthyg, mae'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan yn aros yn ei gynllun pensiwn arferol yn y gwasanaeth sifil, oni bai ei fod wedi optio allan o gynllun pensiwn. **Dylai’r rhai ar fenthyciadau o’r tu allan fod yn wyliadwrus wrth wirio Datganiadau Buddion Pensiynau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod cofnodion pensiynau yn dangos parhad y gwasanaeth y gellir ei gyfrif.**

4.7.5 – **Budd-dal Anaf:** Bydd yswiriant budd-dal anafiadau Llywodraeth Cymru yn berthnasol yn ystod y cyfnod benthyg, a hynny ar gyfer anafiadau cymwys a fydd yn digwydd yn ystod y cyfnod benthyg.

4.7.6 **- Perfformiad a Hyfforddiant**: Rhaid i’r sawl sydd ar fenthyg a rheolwr llinell Llywodraeth Cymru gytuno ar amcanion Rheoli Perfformiad (yn unol â system Rheoli Perfformiad Llywodraeth Cymru) ar ddechrau'r cyfnod benthyg gydag adolygiadau perfformiad yn cael eu cynnal ar adegau y cytunwyd arnynt. Rhaid i reolwr llinell Llywodraeth Cymru drefnu rhaglen/hyfforddiant sefydlu a chytuno ar unrhyw hyfforddiant rheoli llinell priodol ar gyfer y sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan. Mae gan y sawl sydd ar fenthyg hawl i ddefnyddio'r Rhaglen Hyfforddiant Craidd a gynigir gan Lywodraeth Cymru drwy gytundeb â'i reolwr llinell.

4.7.7 **- Cwynion a Disgyblu**: Ymdrinnir ag unrhyw fater disgyblu neu gwyno sy'n ymwneud â'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru. Dylai'r rheolwr llinell gymryd cyngor ar unwaith gan y Tîm Cynghori Achos, cyn cysylltu â'r Rhiant-Adran i roi gwybod iddynt am y mater cyn gynted â phosibl. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol yn unol â'r weithdrefn berthnasol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Rhiant-Adran.

4.7.8 – **Dyrchafiad -** Ni all y rhai ar fenthyciad o’r tu allan wneud cais am ddyrchafiad yn LlC gan iddynt gael eu recriwtio ar fenthyg i gyflawni rôl benodol.

### Gofynion Cyfreithiol – Y Cytundeb Benthyciad

4.8 Mae'r Cytundeb Benthyciad rhwng Llywodraeth Cymru, y Rhiant-Adran a'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan yn ddogfen gyfreithiol a gwblhawyd ganddynt, ar ôl cael ei darparu gan y CSSC pan fydd benthyciad o’r tu allan yn cael ei drefnu. **Rhaid** cwblhau a llofnodi'r Cytundeb cyn cwblhau unrhyw drefniadau fetio diogelwch angenrheidiol a chyn i’r sawl sydd ar fenthyg ddechrau gweithio i Lywodraeth Cymru.

### Iechyd a Diogelwch

4.9 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch y sawl sydd ar fenthyg o’r tu allan tra'i fod wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb yr Is-adran sy’n Derbyn yw trefnu asesiad yr Adran Gweithredol Iechyd a Diogelwch (DSE) cychwynnol pan fydd y sawl sydd ar fenthyg yn dechrau ac yn rheolaidd yn ôl y gofyn. Pan fo'r sawl sydd ar fenthyg o’r tu allan wedi'i leoli mewn safle nad yw’n rhan o Lywodraeth Cymru, rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn gael cytundeb ysgrifenedig gan y Sefydliad sy’n Croesawu y bydd yn:

- hysbysu'r sawl sydd ar fenthyg i o weithdrefnau argyfwng a gweithdrefnau eraill sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr adeilad
- darparu dodrefn/cyfarpar i'r safonau gofynnol a threfnu asesiad DSE
- trin y sawl sydd ar fenthyg fel cyflogai mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch yn gyffredinol.

### Cadw mewn Cysylltiad yn ystod y cyfnod benthyg o’r tu allan

4.10 Dylai'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan gadw mewn cysylltiad â’i Riant-Adran i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r holl hysbysiadau staff, cyfleoedd gwaith, ac ati., sy'n codi yn ystod ei absenoldeb. Rhaid i reolwr llinell Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Rhiant-Adran yn rheolaidd i roi gwybod am bresenoldeb, perfformiad ac unrhyw faterion perthnasol eraill, ac ar ddiwedd y cyfnod benthyg o ran dychwelyd i'r Rhiant-Adran.

### Cyfnodau Rhybudd

4.11 Ar unrhyw adeg, gall Llywodraeth Cymru, y Rhiant-Adran neu'r sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan roi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig bod y Cytundeb Benthyciad i'w derfynu ac y bydd y sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan yn ailddechrau dyletswyddau gyda'r Rhiant-Adran. Rhaid i'r rheolwr llinell gadarnhau'r dyddiad dychwelyd gyda'r Rhiant-Adran a hysbysu CSSC yn unol â hynny. Caiff Llywodraeth Cymru derfynu'r cyfnod benthyg heb rybudd os yw'r sawl sydd ar fenthyg yn cyflawni gweithred o gamymddwyn difrifol a fyddai'n cyfiawnhau diswyddo heb rybudd. Rhaid i'r Is-adran sy’n Derbyn, gyda chefnogaeth y Partner Busnes AD/Tîm Cynghori ar Achosion, gysylltu â'r Rhiant-Adran i gytuno a chymryd y camau nesaf.

### Ymestyn y Cyfnod Benthyg o’r Tu Allan

4.12 Rhaid i Achos Busnes i ymestyn cyfnod benthyg gael ei awdurdodi gan Banel Adnoddau'r maes busnes. Ni ddylid rhoi estyniad i fenthyciad heb ganiatâd penodol y Tîm Adnoddau Dynol. Dylid sicrhau cytundeb i ymestyn cyfnod benthyg o leiaf dri mis cyn dyddiad gorffen gwreiddiol y benthyciad.

### Trefniadau monitro ac uwchgyfeirio ar ddiwedd y cyfnod benthyg

4.13 Bydd rheolwr llinell y sawl sydd ar fenthyciad o’r tu allan yn cael negeseuon atgoffa awtomataidd gan CSSC 90 diwrnod a 28 diwrnod cyn gorffen y benthyciad y cytunwyd arno i hwyluso'r gwaith o adolygu'r trefniadau benthyca a chymryd camau priodol ar gyfer ymestyn y trefniant neu gymryd camau i baratoi am ymadawiad. Bydd y sawl sydd ar fenthyciad yn derbyn nodyn atgoffa 28 diwrnod cyn y dyddiad gorffen y cytunwyd arno ar gyfer y benthyciad er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu ar bob cam gadael perthnasol, ceir canllawiau ar hyn o fewn y nodyn atgoffa. Os nad oes ymateb i'r CSSC erbyn y pwynt 28 diwrnod, bydd y CSSC yn cymryd camau gadael priodol, gan gynnwys dileu'r proffil TG, hawlio’r pas adeilad a therfynu trefniadau cyflog.

## 5. SECONDIADAU I’R TU ALLAN (I GYRFF NAD YDYNT YN GYRFF Y GWASANAETH SIFIL)

### Cymhwysedd a Dod o hyd i gyfle am Secondiad i’r Tu Allan

5.1 Er mwyn bod yn gymwys i geisio cyfle am secondiad i’r tu allan, **rhaid** i gyflogai fodloni'r meini prawf canlynol:

- bydd yn barhaol ac wedi pasio cyfnod prawf
- bydd wedi bod yn ei swydd bresennol am o leiaf 12 mis
- ni fydd wedi ei nodi’n danberfformiwr yn y system rheoli perfformiad

5.2 Pan fydd gan gyflogai ddiddordeb mewn gwneud cais am gyfle am secondiad i’r tu allan, rhaid iddo drafod y manylion yn gyntaf, sut y cafodd y cyfle ei hysbysebu neu y cafodd ei hysbysu ohono, a'i ddiddordeb, gyda'i reolwr llinell i asesu a yw rhyddhau i fanteisio ar gyfle o'r fath yn ymarferol. Efallai na fydd yn bosibl rhyddhau cyflogai os yw ei swydd bresennol yn hanfodol i fusnes: os felly, rhaid i'r rheolwr llinell esbonio i'r cyflogai y rhesymau busnes penodol pam na ellir ei ryddhau. Os rhoddir cytundeb mewn egwyddor i'r cyflogai yn ystod y cam trafod cychwynnol, gall wedyn wneud cais am y cyfle am secondiad.

5.3 Gellir hysbysebu cyfleoedd am secondiad i’r tu allan drwy **Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil.** Fel arfer, darperir pwynt cyswllt, ynghyd â'r weithdrefn ymgeisio, gyda'r hysbyseb.

### Trefnu Secondiad i’r Tu Allan – y broses

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

5.4 Os bydd yn llwyddo i gael cyfle am secondiad i’r tu allan, rhaid i'r cyflogai gyflwyno Achos Busnes cynhwysfawr yn ffurfiol i'w reolwr llinell a'i Gyfarwyddwr. Rhaid i hyn ddatgan manteision y cyfle i Lywodraeth Cymru a'r cyflogai a chyfeirio at unrhyw faterion posibl neu wrthdaro buddiannau a allai godi o ganlyniad i'r secondiad. Ni ddylid defnyddio secondiadau fel ffordd o leoli staff dros dro y mae eu perfformiad yn peri pryder: dylid rheoli perfformiad staff o’r fath o fewn eu His-adran.

5.5 Os daw'n amlwg, ar y cam hwn, nad oes unrhyw fudd gwirioneddol i Lywodraeth Cymru, os oes rhesymau busnes penodol bellach pam na ellir rhyddhau'r cyflogai neu os bydd gwrthdaro buddiannau a nodwyd yn peri anawsterau, gellir gwrthod y cais. Nid oes proses apelio pan wrthodir cais i wneud cais am secondiad. Fodd bynnag, os yw'r cyflogai yn credu ei fod wedi cael ei drin yn annheg, gall fynd ar drywydd y mater drwy'r Polisi Cwyno.

5.6 Os yw'r cais wedi'i awdurdodi, rhaid i'r Is-adran sy’n Cyflogi benderfynu, yn seiliedig ar anghenion busnes a natur manteision y secondiad i’r tu allan, a fydd y swydd yn cael ei chadw ar agor i'r cyflogai ar ôl iddo ddychwelyd. Ar gyfer secondiadau o hyd at 12 mis, dylid cadw'r swydd ar agor, ac mae gan yr Is-adran ddisgresiwn ynghylch a ellir cadw'r swydd ar agor ar gyfer secondiadau hirach. Os cytunir y bydd y swydd yn cael ei chadw ar agor, gall y cyflogai ddychwelyd i'r swydd honno ar ddiwedd y secondiad i’r tu allan. Ni ddylai'r secondiad i’r tu allan bara am fwy na dwy flynedd. Os nad yw swydd yn cael ei chadw ar agor, gweler paragraff 5.14.

5.7 Pan fydd y rheolwr llinell wedi cytuno'n ffurfiol y gellir cynnal y secondiad, gall y cyflogai dderbyn y cynnig secondiad yn ffurfiol a rhaid iddo roi manylion llawn ei Sefydliad sy’n Croesawu, disgrifiad swydd, dyddiadau cychwyn ac ati i CSSC gan ddefnyddio'r Ffurflen yn Atodiad D. Dylid cofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n deillio o’r secondiad ond y bernir eu bod yn dderbyniol yr un fath yn unol â'r polisi Trafodion Ariannol a Gwrthdaro Buddiannau. Os yw'r secondiad i’r tu allan i bara mwy na chwe mis, dylai'r rheolwr llinell sicrhau bod proffil TG y cyflogai yn cael ei ddileu drwy gydol y secondiad. Gellir storio cynnwys blwch negeseuon e-bost y cyflogai yn lleol ar iShare. Gellir cael cyngor ar drosglwyddo data gan y Ddesg Gwasanaethau TGCh. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd yn bosibl cynnal y proffil TG fel y gall y secondai i’r tu allan gadw ei fynediad i systemau Llywodraeth Cymru a chadw pàs swyddfa ar gyfer cael mynediad i adeiladau Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r rheolwr llinell nodi'r rhesymau dros gynnig o'r fath a chael caniatâd pwrpasol y Prif Swyddog Diogelwch a'r Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau TGCh i gytuno ar eithriadau o'r fath.

5.8 Rhaid cytuno ar gytundeb secondiad i’r tu allan a'i lofnodi cyn y gall y secondai ddechrau'r trefniant. Unwaith y bydd y CSSC yn derbyn hysbysiad bod secondiad yn digwydd, byddant yn ysgrifennu at y Sefydliad sy’n Croesawu yn gofyn iddo ddarparu cytundeb drafft, gan roi dyddiad sy'n 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad dechrau ar gyfer derbyn y drafft. Os nad yw'r cytundeb wedi'i ddarparu erbyn hyn, bydd y CSSC yn ysgrifennu at y Sefydliad sy’n Croesawu, gyda chopi i’r Partner Busnes AD, gan eu hatgoffa i ddarparu'r cytundeb, gan ddweud na fydd y cyflogai yn gallu dechrau ei secondiad heb i gytundeb wedi'i lofnodi fod ar waith

ac, os nad yw'r cytundeb yn cyrraedd, y bydd yn rhaid newid y dyddiad cychwyn. Os nad oes ymateb o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad dechrau, bydd y CSSC yn anfon yr achos ymlaen at Arweinydd Tîm CSSC gan ddarparu llwybr llawn yr holl gamau gweithredu. Bydd yr Arweinydd Tîm yn cysylltu â'r Partner Busnes AD, gan gopïo'r wybodaeth i'r Pennaeth Darparu AD a'r Pennaeth Strategaeth a Pholisi AD.  Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Pherfformiad AD hefyd yn cael copi fel eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa a gallant gadarnhau eu bod yn fodlon i'r dyddiad dechrau gael ei ohirio hyd nes y derbynnir cytundeb wedi'i lofnodi.

**Telerau ac Amodau Gwasanaeth**

5.9 Nid yw cyflogeion ar secondiadau i'r tu allan yn peidio â bod yn weision sifil ac mae Cod y Gwasanaeth Sifil a rheolau Telerau ac Amodau'r Gwasanaeth sy'n berthnasol i weision sifil, gan gynnwys y rhai ar ddatgelu gwybodaeth, Penodiadau Busnes, derbyn penodiadau o'r tu allan ac ymddygiad/disgyblaeth, yn parhau i fod yn gymwys.

5.9.1 **– Absenoldeb:** Rhaid i'r secondai i'r tu allan wneud cais am absenoldeb drwy'r rheolwr llinell yn y Sefydliad sy'n Croesawu a rhaid iddo allu dangos y cofnod o wyliau blynyddol a gymerwyd pan fydd yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru. Mae ganddo hawl i wyliau cyhoeddus a gwyliau braint yn unol â thelerau ac amodau cyflogaeth Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r Sefydliad sy'n Croesawu roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw absenoldeb arbennig heb dâl, neu absenoldeb teuluol o unrhyw fath sydd wedi'i awdurdodi.

5.9.2 **- Absenoldeb Salwch:** Mae rheolau absenoldeb salwch arferol Llywodraeth Cymru yn berthnasol. Rhaid i'r Sefydliad sy'n Croesawu hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw absenoldeb oherwydd salwch sy'n digwydd yn ystod y cyfnod secondiad a rhaid iddo sicrhau bod Nodiadau Ffitrwydd yn cael eu hanfon at y CSSC unwaith y byddant wedi'u cofnodi'n fewnol. Rhaid i'r Sefydliad sy'n Croesawu gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli unrhyw absenoldeb salwch hirdymor, h.y. dros 28 diwrnod. Bydd yr Is-adran sy'n Cyflogi yn Llywodraeth Cymru neu'r Tîm Cynghori ar Achosion (lle nad yw swydd yn cael ei chadw ar agor) yn rheoli materion absenoldeb oherwydd salwch.

5.9.3 **- Cyflog a Threuliau**: Mae'r secondai i'r tu allan yn parhau ar gyflogres Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r CSSC anfonebu'r Sefydliad sy'n Croesawu bob chwarter mewn ôl-ddyledion ar gyfer ad-dalu'r costau cyflog ynghyd â TAW. Rhaid i'r secondai i'r tu allan hawlio unrhyw gostau Teithio a Chynhaliaeth sy'n ymwneud â'r rôl secondiad drwy bolisi a system Teithio a Chynhaliaeth y Sefydliad sy'n Croesawu. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn lle mae'r cyflogai yn secondio i sefydliad Sector Gwirfoddol, efallai y gall Llywodraeth Cymru dalu'r costau, os yw'r Cyfarwyddwr neu ei reolwyr dirprwyedig wedi cytuno ar hyn ar gyfer yr Is-adran sy'n Cyflogi neu'r Ysgrifennydd Parhaol. Mewn achosion o'r fath, nid oes unrhyw atebolrwydd TAW.  Rhaid i'r cytundeb secondiad nodi nad oes unrhyw gost, ac eithrio costau Teithio a Chynhaliaeth cysylltiedig, i'r sefydliad secondio mewn perthynas â'r secondiad.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

5.9.4 **- Pensiwn:** oni bai ei fod wedi optio allan o gynllun pensiwn, mae'r secondai i'r tu allan yn aros yn ei gynllun pensiwn arferol ac yn parhau i dalu cyfraniadau drwy gyflogres Llywodraeth Cymru. Mae'r Sefydliad sy'n Croesawu yn ad-dalu Llywodraeth Cymru drwy dalu'r anfonebau a godwyd gan Lywodraeth Cymru. Os yw'r Sefydliad sy'n Croesawu yn cytuno ar gyfradd gyflog sy'n uwch na'r un parhaol ar gyfer hyd y secondiad, mae cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a'r cyflogeion yn seiliedig ar y **gyfradd gyflog barhaol** ac nid ar y gyfradd y cytunwyd arni ar gyfer y secondiad.

5.9.5 **- Budd-dal Anafiadau:** dylai'r Sefydliad sy'n Croesawu ddarparu yswiriant budd-dal anafiadau gydol y cyfnod secondiad i'r tu allan. Mewn achosion lle nad oes gan y Sefydliad sy'n Croesawu drefniadau Budd-dal Anafiadau, rhaid i'r cyflogai benderfynu a ddylid derbyn y secondiad heb yswiriant o'r fath. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd y cyflogai am gymryd yswiriant preifat yn erbyn colli enillion oherwydd anaf a gafwyd yn ystod y secondiad i'r tu allan. Rhaid amlinellu'r trefniadau Budd-dal Anafiadau yn y Cytundeb Secondiad.

5.9.6 **- Perfformiad a Hyfforddiant:** Os yw secondiad i'r tu allan am lai na 12 mis, rhaid i'r cyflogai drefnu sgwrs derfynol ac adolygu a chytuno ar ei gategori perfformiad gyda'i Is-adran sy'n Cyflogi. Ar gyfer secondiadau o dros 12 mis, mae gweithdrefnau Rheoli Perfformiad Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio gan y Sefydliad sy'n Croesawu. Rhaid darparu hyfforddiant i'r rheolwr llinell yn y Sefydliad sy'n Croesawu. Dylid amlinellu hyn yn y Cytundeb Secondiad. Mae gan y secondai i'r tu allan hawl i barhau i ddefnyddio'r rhaglen Hyfforddiant Craidd a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar yr amod bod yr Is-adran sy'n Cyflogi, neu'r CSSC lle nad yw'r swydd yn cael ei chadw ar agor, yn cymeradwyo'r cais am hyfforddiant. Rhaid i'r secondai i'r tu allan gyflwyno cais ysgrifenedig yn esbonio manteision hyfforddiant o'r fath. Rhaid i unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod secondiad i'r tu allan gael ei ariannu gan y Sefydliad sy'n Croesawu. Os yw'r secondai i'r tu allan yn parhau â dysgu a datblygiad a gynorthwyir gan Lywodraeth Cymru, megis cwrs gradd neu gymhwyster arall, yn ystod y cyfnod secondiad, rhaid cytuno ar drefniadau ar gyfer unrhyw daliadau perthnasol gyda'r Is-adran sy'n Cyflogi cyn dechrau'r secondiad.

5.9.7 – **Camu Ymlaen:** Os yw'r secondai i'r tu allan yn gwneud cais am unrhyw ymgyrch camu ymlaen gan Lywodraeth Cymru yn ystod ei gyfnod secondiad, bydd ei gymhwysedd yn seiliedig ar ei Asesiad Perfformiad diwethaf gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn er mwyn osgoi unrhyw anfantais a achosir gan yr asesiad perfformiad yn disgyn mymryn yn sgil bod yn newydd i'r rôl a'r dysgu sy'n angenrheidiol ar gyfer rôl y secondiad. Bydd ceisiadau i ystyried cymhwysedd yn cael eu datblygu a'u hystyried fesul achos gan y Pennaeth Darparu AD.

5.9.8 **- Cwynion a Disgyblu:** Rhaid ymdrin â materion disgyblu a/neu gwynion ar gyfer secondeion i'r tu allan yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, ond rhaid i unrhyw fater gael ei godi yn y lle cyntaf gan y Sefydliad sy'n Croesawu neu rhaid codi'r mater gyda nhw. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r

Sefydliad sy’n Croesawu gydweithio i ddatrys materion gan ddilyn pob cam ffurfiol.

**Gofynion Cyfreithiol – Y Cytundeb Secondiad i’r Tu Allan**

5.10 Mae'r Cytundeb Secondiad rhwng y Sefydliad sy’n Croesawu, Llywodraeth Cymru a'r secondai i’r tu allan yn ddogfen gyfreithiol a luniwyd gan y Sefydliad sy’n Croesawu pan fydd secondiad i’r tu allan yn cael ei drefnu. **Rhaid** i'r Cytundeb gael ei gwblhau a'i lofnodi gan bob parti cyn i'r cyflogai ddechrau'r secondiad i’r tu allan. Mae'r Cytundeb Secondiad yn glir gan ei fod ar gyfer rôl benodol, cyfnod amser a chyfnodau rhybudd.

**Iechyd a Diogelwch**

5.11 Mae'r Sefydliad sy’n Croesawu yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr secondai i’r tu allan yn ystod y cyfnod secondiad.

**Trefniadau Cadw mewn Cysylltiad yn ystod y Secondiad i’r Tu Allan**

5.12 Mae'r secondai i’r tu allan yn gyfrifol am hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newid manylion personol, megis cyfeiriad cartref neu fanylion banc. Ar y dechrau, bydd y CSSC yn darparu ddolenni i dudalennau Ystafell Newyddion Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru a'r system recriwtio. Pan fydd swydd flaenorol y secondai yn cael ei chadw ar agor, rhaid i'r rheolwr llinell hefyd gadw mewn cysylltiad i ddiweddaru'r secondai ynghylch datblygiadau busnes a materion cyffredinol eraill. Dylid dychwelyd y pàs diogelwch am gyfnod y secondiad oni bai bod gweithio o adeilad Llywodraeth Cymru, a hynny’n eithriadol, yn rhan o'r Cytundeb Secondiad, ac os felly dylid gwneud trefniadau gyda Diogelwch.

**Cyfnodau rhybudd**

5.13 Ar unrhyw adeg, gall y Sefydliad sy’n Croesawu, Llywodraeth Cymru, neu'r secondai i’r tu allan roi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig bod y Cytundeb Secondiad i'w derfynu ac y bydd y secondai i’r tu allan yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru. (Gweler paragraff 5.14 isod am ddychwelyd)

**Ymestyn Cyfnod Secondiad i’r Tu Allan**

5.14 Pan fo angen estyniad, rhaid i'r secondai i’r tu allan gyflwyno Achos Busnes ysgrifenedig i'r Is-adran sy’n Cyflogi, neu, lle y bo'n berthnasol, i'r CSSC, gan nodi'r manteision i Lywodraeth Cymru o ymestyn y secondiad, y cyfnod a'r rheswm (rhesymau). Rhaid i'r achos gael ei gymeradwyo gan y Sefydliad sy’n Croesawu. Os caiff awdurdodiad ei gymeradwyo gan Banel Adnoddau'r maes busnes, rhaid i'r estyniad wedyn gael ei glirio gan y Tîm Adnoddau Dynol. Heb estyniad wedi'i gymeradwyo'n llawn, rhaid i'r secondai i’r tu allan ddychwelyd i Lywodraeth Cymru ar y dyddiad y cytunwyd arno yn y Cytundeb Secondiad i’r tu allan cychwynnol. Dylai'r CSSC gael ei hysbysu gan y Tîm Adnoddau Dynol a rhaid iddo gadarnhau'r estyniad yn ysgrifenedig i'r secondai i’r tu allan. Dylid

sicrhau cytundeb i ymestyn y cyfnod secondiad o leiaf dri mis cyn dyddiad diwedd gwreiddiol y secondiad. (Gweler paragraff 5.15 am ddychwelyd)

**Dychwelyd o Secondiad i'r Tu Allan**

5.15 Pan nad yw swydd yn cael ei chadw ar agor, bydd angen i'r secondai i'r tu allan gysylltu â'r CSSC a gwneud cais am swyddi o leiaf 3 mis cyn ei ddyddiad dychwelyd. Os yw'r secondiad i ddod i ben yn gynharach na'r disgwyl, rhaid i'r secondai gysylltu â'r CSSC cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol o hynny. Os na fydd swydd newydd yn cael ei sicrhau erbyn i'r secondai i'r tu allan ddychwelyd, bydd yn ofynnol iddo neu iddi ymgymryd â rôl dros dro yn ei adran wreiddiol, a ariennir gan Gostau Rhedeg Is-adrannol yr adran honno, hyd nes y gellir sicrhau swydd fwy addas. Bydd y Partneriaid Busnes AD yn trafod y trefniadau gyda'r cyflogai sy'n dychwelyd a'r adran wreiddiol.

5.16 Pan fydd yr Is-adran sy'n Cyflogi yn cadw'r swydd ar agor, dylai'r secondai i'r tu allan ddychwelyd i Lywodraeth Cymru ar y dyddiad y cytunwyd arno yn y Cytundeb Secondiad, oni chytunwyd yn ffurfiol ar estyniad. Rhaid i'r Is-adran sy'n Cyflogi drefnu i'r proffil TG gael ei ail-ddatgan a gwneud unrhyw drefniadau domestig perthnasol eraill. Rhaid i'r Is-adran sy'n Cyflogi gynghori'r CSSC pan fydd y dyddiad dychwelyd yn cael ei gadarnhau, cyfeirnod y swydd ac unrhyw fanylion perthnasol eraill.

**Ar ôl Secondiad i'r Tu Allan**

5.17 Mae'n ofynnol i gyflogai sy'n dychwelyd o secondiad fod ar gael i drafod manteision ei brofiad gyda gweithwyr eraill a allai fod â diddordeb mewn manteisio ar gyfle am secondiad i'r tu allan. Rhaid iddo hefyd ysgrifennu adroddiad byr am y sgiliau a'r wybodaeth a'r manteision y mae wedi'u caffael yn ystod ei secondiad er gwybodaeth i staff eraill.

## 6. BENTHYCIAD I'R TU ALLAN (I GYRFF Y GWASANAETH SIFIL)

**Cymhwysedd a dod o hyd i gyfle am Fenthyciad i'r Tu Allan**

6.1 Er mwyn bod yn gymwys i geisio am gyfle i gael benthyciad i'r tu allan i adran neu asiantaeth arall o'r llywodraeth, **rhaid** i gyflogai fodloni'r meini prawf canlynol:

- bydd yn barhaol ac wedi pasio cyfnod prawf
- bydd wedi bod yn ei swydd bresennol am o leiaf 12 mis
- ni fydd wedi ei nodi'n danberfformiwr yn y system rheoli perfformiad

6.2 Pan fydd gan gyflogai ddiddordeb mewn gwneud cais am gyfle am fenthyciad i'r tu allan, rhaid iddo drafod manylion y cyfle yn gyntaf, sut y cafodd y cyfle ei hysbysebu neu y cafodd ei hysbysu ohono, a'i ddiddordeb, gyda'i reolwr llinell i asesu a yw rhyddhau i fanteisio ar gyfle o'r fath yn ymarferol. Efallai na fydd yn

bosibl rhyddhau cyflogai os yw ei swydd bresennol yn hanfodol i fusnes: os felly, rhaid i'r rheolwr llinell esbonio i'r cyflogai y rhesymau busnes penodol pam na ellir ei ryddhau. Os rhoddir cytundeb mewn egwyddor i'r cyflogai yn ystod y cam trafod cychwynnol, gall wedyn wneud cais am y cyfle am fenthyciad

6.3 Gellir hysbysebu cyfleoedd benthyciad i'r tu allan drwy **Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil.** Fel arfer, darperir pwynt cyswllt, ynghyd â'r weithdrefn ymgeisio, gyda'r hysbyseb.

**Trefnu Benthyciad i'r Tu Allan – y broses**

6.4 Os bydd yn llwyddo i gael cyfle am fenthyciad i'r tu allan, rhaid i'r cyflogai gyflwyno Achos Busnes cynhwysfawr yn ffurfiol i'w reolwr llinell a'i Gyfarwyddwr neu ei reolwyr dirprwyedig. Rhaid i hyn ddatgan manteision y cyfle i Lywodraeth Cymru a'r cyflogai. Ni ddylid defnyddio benthyciadau fel ffordd o roi staff mewn lleoliad allanol dros dro pan fo'u perfformiad yn destun pryder. Dylid rheoli perfformiad staff o'r fath o fewn eu His-adran.

6.5 Os daw'n amlwg, ar y cam hwn, nad oes unrhyw fudd gwirioneddol i Lywodraeth Cymru neu os oes rhesymau busnes penodol bellach pam na ellir rhyddhau'r cyflogai, gellir gwrthod y cais**.** Nid oes proses apelio pan wrthodir cais i wneud cais am gyfle i fynd ar fenthyciad. Fodd bynnag, os yw'r cyflogai yn credu ei fod wedi cael ei drin yn annheg, gall fynd ar drywydd y mater drwy'r Polisi Cwyno.

6.6 Os yw'r cais wedi'i awdurdodi, rhaid i'r Is-adran sy'n Cyflogi benderfynu, yn seiliedig ar anghenion busnes a natur manteision y benthyciad i'r tu allan, a fydd y swydd yn cael ei chadw ar agor i'r cyflogai ar ôl dychwelyd. Ar gyfer benthyciadau o hyd at 12 mis, dylai'r Is-adran sy'n Cyflogi gadw'r swydd ar agor, ac mae ganddi ddisgresiwn ynghylch a ellir cadw'r swydd ar agor yn achos benthyciadau hirach. Os cytunir y bydd y swydd yn cael ei chadw ar agor, gall y cyflogai ddychwelyd i'r swydd honno ar ddiwedd y benthyciad i'r tu allan. Ni ddylai'r benthyciad i'r tu allan bara am fwy na 2 flynedd. (gweler paragraff 6.13 am ddychwelyd)

6.7 Pan fydd y rheolwr llinell wedi cytuno'n ffurfiol y gellir cynnal y benthyciad, gall y cyflogai dderbyn y cynnig am fenthyciad yn ffurfiol a rhaid iddo roi manylion llawn yr adran neu Asiantaeth yn y Llywodraeth sy'n Croesawu, disgrifiad swydd, dyddiadau cychwyn etc, gan ddefnyddio'r Ffurflen yn Atodiad D. Os yw'r benthyciad i'r tu allan i bara mwy na chwe mis, rhaid i'r Rheolwr Llinell sicrhau bod proffil TG y cyflogai yn cael ei ddileu drwy gydol y benthyciad. Gellir storio cynnwys blwch negeseuon e-bost y cyflogai yn lleol ar iShare. Gellir cael cyngor ar drosglwyddo data gan y Ddesg Gwasanaethau TGCh. Yn gyffredinol, rheolir trefniadau gweinyddol yn yr un modd â throsglwyddo i adran neu asiantaeth arall o'r llywodraeth. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd yn bosibl cynnal y proffil TG fel y gall y sawl sydd ar fenthyciad i'r tu allan gadw mynediad i systemau Llywodraeth Cymru a chadw pàs swyddfa ar gyfer mynediad i adeiladau Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r rheolwr llinell nodi'r rhesymau dros gynnig o'r fath a chael caniatâd datganedig y Prif Swyddog Diogelwch a'r Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau TGCh i gytuno ar eithriadau o'r fath.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

6.8 **Er mwyn sicrhau bod Cytundeb wedi'i lofnodi yn dod i law cyn y dyddiad cychwyn, bydd y broses a nodir yn 5.8 uchod yn gymwys.**

**Telerau ac Amodau Gwasanaeth**

6.9 Bydd y sawl sydd ar fenthyciad i'r tu allan yn trosglwyddo i Delerau ac Amodau Gwasanaeth Adran y Llywodraeth sy'n Croesawu o ddyddiad cychwyn y benthyciad.

6.9.1 **- Gwyliau:** mae'r hawl gwyliau blynyddol am gyfnod y benthyciad, a'r hawl i wyliau cyhoeddus a braint ac unrhyw wyliau teuluol arall, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Adran sy'n Croesawu. Rhaid darparu cofnod llawn o wyliau blynyddol a gwyliau eraill i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod benthyg.

6.9.2 **- Absenoldeb Oherwydd Salwch –** rheolir trefniadau absenoldeb oherwydd salwch gan yr Adran sy'n Croesawu a rhaid darparu cofnod llawn o absenoldeb oherwydd salwch i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod benthyg. Rhaid i'r Adran sy'n Croesawu hysbysu'r CSSC am unrhyw absenoldebau oherwydd salwch ac yn benodol, lle mae gweithdrefnau rheoli presenoldeb ffurfiol yn cael eu dilyn.

6.9.3 **- Cyflog a Threuliau:** mae'r sawl sydd ar fenthyciad i'r tu allan yn trosglwyddo i gyflogres yr Adran sy'n Croesawu drwy gydol y cyfnod benthyg. Bydd y CSSC yn gwneud trefniadau gyda'r Adran sy'n Croesawu ar gyfer trosglwyddo manylion personol a chyflogres. Gwneir trefniadau teithio a chynhaliaeth yn ystod y cyfnod benthyg i'r tu allan yn unol â system a thelerau ac amodau'r Adran sy'n Croesawu.

6.9.4 **- Pensiwn:** mae'r sawl sydd ar fenthyciad i'r tu allan yn aros yn ei gynllun pensiwn arferol drwy gydol y benthyciad. Os yw'r cynllun hwnnw'n gynllun nad yw'n gynllun PCSPS, yna rhaid gwneud trefniadau rhwng y CSSC a'r Adran sy'n Croesawu i barhau i dalu cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai i'r cynllun pensiwn perthnasol, e.e. Cynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf ar gyfer cyn-weithwyr y WDA. **Dylai'r rhai sydd ar fenthyciadau i'r tu allan fod yn wyliadwrus wrth wirio Datganiadau Budd-dal Pensiynau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod cofnodion pensiynau yn dangos parhad y gwasanaeth y gellir ei gyfrif.**

6.9.5 **- Budd-dal Anafiadau**: mae'r benthyciad i'r tu allan yn dod o dan Gynllun Budd-dal Anafiadau'r Adran sy'n Croesawu drwy gydol y cyfnod benthyg. Rhaid nodi hyn yn y Cytundeb Benthyciad.

6.9.6 **- Perfformiad a Hyfforddiant**: Mae'r sawl sydd ar fenthyciad i'r tu allan yn ddarostyngedig i system rheoli perfformiad yr Adran sy'n Croesawu drwy gydol y benthyciad. Rhaid i unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod benthyg i'r tu allan gael ei drefnu a'i ariannu gan yr Adran sy'n Croesawu. Os yw'r benthyciad i'r tu allan yn parhau â dysgu a datblygu a gynorthwyir gan Lywodraeth Cymru, megis cwrs gradd neu gymhwyster arall, yn ystod y cyfnod

benthyg, rhaid cytuno ar drefniadau ar gyfer unrhyw daliadau perthnasol gyda'r Is-adran sy’n Cyflogi cyn dechrau'r benthyciad.

6.9.7 - **Dyrchafiad:** Os yw'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan yn ymgeisio am ddyrchafiad fel rhan o unrhyw ymgyrch gan Lywodraeth Cymru yn ystod ei gyfnod benthyg, bydd angen iddo gwblhau’r gweithdrefnau asesu sydd ar waith ar gyfer gradd y dyrchafiad ar adeg y cais.

6.9.8 **- Cwynion a Disgyblu**: Ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r benthyciad i’r tu allan yn unol â thelerau ac amodau a gweithdrefnau'r Adran sy’n Croesawu. Rhaid i'r Adran sy’n Croesawu hysbysu Llywodraeth Cymru ar ddechrau unrhyw weithdrefnau ffurfiol sy'n cael eu cynnal. Rhaid amlinellu hyn yn y Cytundeb Benthyciad.

6.9.9 – **Aberthu Cyflog**: Os nad yw'r Adran sy’n Croesawu yn gweithredu Cynllun Aberthu Cyflog drwy ei chyflogres a bod y benthyciad i’r tu allan yn defnyddio cynllun LlC, ni fydd yn gallu parhau yn y cynllun unwaith y bydd y benthyciad yn dechrau.

6.9.10 **- Gofynion Cyfreithiol**: Mae'r Cytundeb Benthyciad i’r Tu Allan rhwng yr Adran neu’r Asiantaeth sy’n Croesawu, Llywodraeth Cymru a'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan yn ddogfen gyfreithiol a lunnir gan yr Adran sy’n Croesawu pan fydd benthyciad i’r tu allan yn cael ei drefnu. **Rhaid** i'r Cytundeb gael ei gwblhau a'i lofnodi gan bob parti cyn i'r cyflogai ddechrau'r benthyciad i’r tu allan.

6.9.11 **- Dyrchafiad**: Pan fydd un o weithwyr Llywodraeth Cymru ar fenthyg i adran arall o'r llywodraeth yn llwyddiannus mewn ymarfer dyrchafiad ffurfiol sy'n arwain at ddyrchafiad parhaol, bydd Llywodraeth Cymru yn anrhydeddu ei ddyrchafiad ar ôl iddo neu iddi ddychwelyd.

**Iechyd a Diogelwch**

6.10 Mae'r Adran sy’n Croesawu yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch y sawl sydd ar fenthyciad drwy gydol y benthyciad.

**Cyfnodau rhybudd**

6.11 Ar unrhyw adeg, gall yr Adran sy’n Croesawu, Llywodraeth Cymru, neu'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan roi pedair wythnos o rybudd ysgrifenedig bod y Cytundeb Benthyciad i'w derfynu ac y bydd y sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru. (gweler paragraff 6:14 am ddychwelyd)

**Trefniadau Cadw mewn Cysylltiad yn ystod y Benthyciad i’r Tu Allan**

6.12 Os yw'r swydd yn cael ei chadw ar agor i'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan ddychwelyd iddi, rhaid i'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan a'r Is-adran sy’n Cyflogi gadw mewn cysylltiad â'i gilydd yn rheolaidd. Mae'r sawl sydd ar

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

fenthyciad i’r tu allan yn gyfrifol am hysbysu'r CSSC am unrhyw newid manylion personol, megis cyfeiriad cartref neu fanylion banc. Ar y dechrau, bydd y CSSC yn darparu e-ddolenni â thudalennau Ystafell Newyddion Rhyngrwyd Llywodraeth Cymru a'r system recriwtio. Rhaid i'r Adran sy’n Croesawu roi gwybod i Lywodraeth Cymru am absenoldeb oherwydd salwch, absenoldeb arall, ac unrhyw faterion ymddygiad, disgyblaeth neu gwynion ffurfiol sy'n codi. Dylid dychwelyd y pàs diogelwch am gyfnod y benthyciad oni bai bod gweithio o adeilad Llywodraeth Cymru, a hynny’n eithriadol, yn rhan o'r Cytundeb Secondiad, ac os felly dylid gwneud trefniadau gyda Diogelwch.

**Ymestyn Cyfnod Benthyciad i’r Tu Allan**

6.13 Pan fydd angen estyniad, rhaid i'r benthyciad i’r tu allan gyflwyno Achos Busnes ysgrifenedig i'r Is-adran sy’n Cyflogi neu, lle y bo'n berthnasol, i'r CSSC, gan nodi'r manteision i Lywodraeth Cymru o ymestyn y benthyciad, y cyfnod a'r rheswm (rhesymau). Rhaid i'r achos gael ei gymeradwyo gan yr Adran sy’n Croesawu. Rhaid i'r Panel Adnoddau roi awdurdodiad yn y maes busnes a rhaid i’r Tîm Adnoddau Dynol ei glirio. Heb estyniad wedi'i gymeradwyo'n llawn, rhaid i'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan ddychwelyd i Lywodraeth Cymru ar y dyddiad y cytunwyd arno yn y Cytundeb Benthyciad i’r tu allan cychwynnol (gweler 6:14). Dylai'r CSSC gael ei hysbysu gan y Tîm Adnoddau Dynol a rhaid iddo gadarnhau'r estyniad yn ysgrifenedig i'r benthyciad i’r tu allan. Dylid sicrhau cytundeb i ymestyn cyfnod benthyg o leiaf dri mis cyn dyddiad diwedd gwreiddiol y benthyciad.

**Dychwelyd o Fenthyciad i’r Tu Allan**

6.14 Pan nad yw swydd yn cael ei chadw ar agor, bydd angen i'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan gysylltu â'r CSSC a gwneud cais am swyddi o leiaf 3 mis cyn ei ddyddiad dychwelyd. Os yw'r benthyciad i ddod i ben yn gynharach na'r disgwyl, rhaid i'r sawl sydd ar fenthyciad gysylltu â'r CSSC cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol o hynny. Os na chaiff swydd ei sicrhau erbyn i'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan ddychwelyd, yna bydd gofyn iddo ymgymryd â rôl dros dro yn ei adran wreiddiol, a ariennir gan Gostau Rhedeg Is-adrannol yr adran honno, hyd nes y gellir sicrhau swydd fwy addas. Bydd y Partner Busnes AD yn trafod hyn gyda'r cyflogai sy'n dychwelyd.

6.15 Pan fydd yr Is-adran sy’n Cyflogi yn cadw'r swydd ar agor, dylai'r sawl sydd ar fenthyciad i’r tu allan ddychwelyd i Lywodraeth Cymru ar y dyddiad y cytunwyd arno yng Nghytundeb y Sawl sydd ar Fenthyciad, oni chytunwyd yn ffurfiol ar estyniad. Rhaid i'r Is-adran sy’n Cyflogi drefnu i'r proffil TG gael ei ail-ddatgan a gwneud trefniadau domestig perthnasol eraill. Rhaid i'r Is-adran sy’n Cyflogi gynghori'r CSSC pan fydd y dyddiad dychwelyd yn cael ei gadarnhau, cyfeirnod y swydd ac unrhyw fanylion perthnasol eraill.

**Ar ôl Benthyciad i’r Tu Allan**

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

6.16 Efallai y bydd yn ofynnol i gyflogai sy'n dychwelyd o fenthyciad fod ar gael i drafod manteision ei brofiad gyda gweithwyr eraill a allai fod â diddordeb mewn manteisio ar gyfle i gael benthyciad i’r tu allan.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Atodiad A**

## EGWYDDORION RECRIWTIO COMISIWN Y GWASANAETH SIFIL

**Eithriad 3 Secondiadau**

Gall adrannau wneud secondiadau o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil o hyd at ddwy flynedd. Rhaid i unrhyw gynnig am secondiad hirach or cychwyn cyntaf, neu i ymestyn y penodiad y tu hwnt i ddwy flynedd, neu i benodi unigolyn ar ail secondiad o fewn 12 i'r secondiad cynharach, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Comisiwn. Cliciwch i gael Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

**Cystadleuaeth Deg ac Agored (o Egwyddorion Recriwtio)**

**Y GOFYNIAD CYFREITHIOL**
Y gofyniad cyfreithiol yw i'r dewis ar gyfer penodiad i'r Gwasanaeth Sifil gael ei wneud ar **sail teilyngdod** ac ar sail cystadleuaeth **deg** ac **agored**. Mae'n rhaid bodloni'r tair elfen er mwyn i'r penodiad fod yn gyfreithlon.

Ystyr **teilyngdod** yw penodi'r person gorau sydd ar gael a farnwyd yn erbyn meini prawf hanfodol y rôl. Ni ddylid penodi unrhyw un i swydd oni bai ei fod yn gymwys i'w gwneud a rhaid cynnig y swydd i'r person a fyddai'n ei gwneud orau.

Mae **teg** yn golygu bod heb ragfarn wrth asesu ymgeiswyr. Mae'n rhaid i brosesau dethol fod yn wrthrychol, yn ddiduedd a chael eu gweithredu'n gyson.

Mae **agored** yn golygu bod yn rhaid hysbysebu cyfleoedd am swyddi yn gyhoeddus. Mae'n rhaid i ymgeiswyr posibl gael mynediad rhesymol at wybodaeth am y swydd a'i gofynion, ac am y broses ddethol. Mewn cystadlaethau agored mae'n rhaid caniatáu i unrhyw sy'n dymuno ymgeisio wneud hynny.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Atodiad B**

## DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 2006 (fel y'i diwygiwyd)

**Swyddogaethau - Atodol**

**Adran 83 - Trefniadau asiantaeth a darparu gwasanaethau**

(1) Caniateir i drefniadau gael eu gwneud rhwng Gweinidogion Cymru ac unrhyw awdurdod perthnasol ar gyfer—

(a) unrhyw swyddogaethau sydd gan un ohonynt i'w harfer gan y llall,

(b) unrhyw swyddogaethau sydd gan Weinidogion Cymru i'w harfer gan aelodau o staff yr awdurdod perthnasol,

(c) unrhyw swyddogaethau sydd gan yr awdurdod perthnasol sydd i'w harfer gan aelodau o staff Llywodraeth Cymru,

(d) darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol gan un ohonynt ar gyfer y llall.

(2) Nid yw unrhyw drefniadau o dan baragraff (a), (b) neu (c) o isadran (1) ar gyfer arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithio ar gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru; ac nid yw trefniadau o'r fath ar gyfer arfer unrhyw swyddogaethau awdurdod perthnasol yn effeithio ar gyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol.

(3) Nid yw'r cyfeiriadau yn isadrannau (1) a (2) at swyddogaethau yn cynnwys swyddogaethau gwneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys mewn offeryn statudol.

(4) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod perthnasol" yw unrhyw un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth, unrhyw awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw awdurdod lleol) yng Nghymru a Lloegr neu ddeiliad unrhyw swydd gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

(5) Mae'r adran hon yn berthnasol i'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol fel y mae i Weinidogion Cymru.

**Nodyn Esboniadol i'r Ddeddf wreiddiol fel y'i cymeradwywyd yn 2006**

304. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (a Phrif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol) ac unrhyw un o Weinidogion y Goron, adrannau'r llywodraeth, awdurdod cyhoeddus neu ddeiliad swydd gyhoeddus yng Nghymru, ymrwymo i drefniant lle mae pob un (gan gynnwys eu staff perthnasol) yn arfer swyddogaethau'r llall. Fodd bynnag, ni chaiff swyddogaethau y gall trefniadau o'r fath ymwneud â hwy gynnwys swyddogaethau gwneud, cadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys mewn offeryn statudol. Nid yw'r ffaith bod parti i drefniant o'r fath wedi

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

gwneud trefniadau oddi tano i'r parti arall arfer swyddogaeth ar ei ran yn rhyddhau'r cyntaf o'i gyfrifoldeb cyfreithiol mewn perthynas ag arfer y swyddogaeth honno.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Atodiad C**

## Templed Secondiad/Benthyciad Allanol

**Cyn y gellir cytuno ar Fenthyciad neu Secondiad allanol, mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y Grŵp Adnoddau Lleol.** Siaradwch gyda'ch Partner Busnes AD am gyngor ar y broses gymeradwyo.

**Mae'r Templed hwn i'w gwblhau gan yr Aelod Staff sy'n gadael Llywodraeth Cymru** a'i gyflwyno i'r Tîm Partner Busnes AD. Mae'n rhaid i'r Partner Busnes AD, ar ôl derbyn pob cymeradwyaeth angenrheidiol, anfon y Templed hwn ymlaen at y Ganolfan Gydwasanaethau i'w roi ar waith. **Ni fydd y Ganolfan Gydwasanaethau yn ei roi ar waith os na fydd pob adran wedi'i chwblhau.**

**<u>Noder:</u>**

- Ni ellir cytuno ar ddyddiad cychwyn ffurfiol nes cael pob cymeradwyaeth angenrheidiol a nes i'r Ganolfan Gydwasanaethau gadarnhau y dylid cytuno ar ddyddiad cychwyn.
- Mae benthyciad yn cymryd o leiaf 4 wythnos a secondiad yn cymryd o leiaf 4-6 wythnos i'r Ganolfan Gydwasanaethau ei drefnu.

| | |
|---|---|
| Enw: | Gradd: |
| Rhif HRIS | |
| Grŵp ac Is-adran | Cod Rheoli: |
| Rheolwr Llinell: | Dirprwy Gyfarwyddwr: |
| Gofalwch fod manylion cyswllt eich Hunanwasanaeth AD yn gyson â'r isod | |
| Cyfeiriad Cartref: | Ffôn:<br><br>e-bost Cyswllt: |

Benthyciad yw ble mae unigolyn yn symud i Adran Llywodraeth arall y Gwasanaeth Sifil dros dro. Secondiad yw ble mae unigolyn yn symud i sefydliad y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil dros dro.

**Cadarnhewch ai Benthyciad neu Secondiad yw hwn……**

***Noder:*** Os ydych chi ar Fenthyciad am lai na 6 mis, neu ar Secondiad, byddwch yn aros ar Delerau ac Amodau a Chyflogres Llywodraeth Cymru. Os ydych chi ar Fenthyciad am 6 mis a mwy, byddwch yn symud i Delerau ac Amodau a Chyflogres Adran arall y Llywodraeth yr ydych ar Fenthyciad ynddi.

**Amlinellwch fanteision y Benthyciad/Secondiad hwn i:**

Chi:

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

Yr Is-adran:

Sefydliad y Secondiad/Benthyciad:

Llywodraeth Cymru:

| **Manylion y Benthyciad/Secondiad:** | |
|---|---|
| Enw Sefydliad y Benthyciad/Secondiad: | |
| Teitl Swydd: | |
| Dyddiad Cychwyn: | Dyddiad Gorffen: |

Wnaethoch chi wneud cais i Hysbyseb ar gyfer y Benthyciad/Secondiad hwn: Do / Naddo

Os Do, amgaewch gopi o'r Hysbyseb/Disgrifiad Swydd isod:

Cyflog y Benthyciad/Secondiad: £

| **Manylion Cyswllt Sefydliad y Benthyciad/Secondiad:** | **Manylion Cyswllt Rheolwr Llinell Sefydliad y Benthyciad/Sefydliad:** (os yn wahanol i'r rhai a nodwyd) |
|---|---|
| Enw: | Enw: |
| Cyfeiriad: | Cyfeiriad: |
| Rhif ffôn: | Rhif ffôn: |
| Cyfeiriad e-bost: | Cyfeiriad e-bost: |

**Secondiadau yn unig:**

Ar Secondiad, byddwch chi (y secondai) yn parhau ar Delerau ac Amodau a Chyflogres Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich talu'r cyflog iawn yn ystod y Secondiad ac y gall Llywodraeth Cymru adennill y costau/cyflog cywir, cadarnhewch isod.

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

| | |
|---|---|
| Cyflog y Secondiad: £ | Cyflog presennol yn LlC: £ |
| Cod Is-adrannol y telir eich cyflog presennol ohono: | Noder a ydych chi'n gymwys i hawlio gan Sefydliad y Secondiad:<br><br>Costau teithio ychwanegol: ☐<br>Costau adleoli: ☐<br>Dyletswydd ddatgysylltiedig: ☐<br><br>Os felly: Swm £ |
| **Manylion Cyswllt Swyddog Cyllid Sefydliad y Secondiad** *(dyma'r unigolyn yn Sefydliad y Secondiad a fydd yn codi Archeb Prynu i dalu cost/cyflog eich Secondiad):*<br><br>Enw:<br><br>Rhif ffôn:<br><br>Cyfeiriad e-bost: | **Manylion Cyswllt Swyddog Cyllid Llywodraeth Cymru** *(dyma Swyddog Cyllid Llywodraeth Cymru yn eich Grŵp presennol a fydd yn derbyn Archeb Prynu Sefydliad y Secondiad ac yn trefnu anfonebau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i'r sefydliad hwnnw er mwyn adennill cost/cyflog eich Secondiad).*<br><br>Enw:<br><br>Rhif ffôn:<br><br>Cyfeiriad e-bost: |

| **CYMERADWYAETH AR GYFER Benthyciad/Secondiad** |
|---|
| Cymeradwyaeth a Chadarnhad Rheolwr Llinell:<br><br>Llofnod/ Enw: |
| **Rheolwr Llinell:**<br><br>Os yw'r Secondiad/Benthyciad yn para **llai na 12** mis, yr arfer safonol yw sicrhau bod yr Aelod Staff yn gallu dychwelyd i'w swydd wreiddiol. Cydnabyddir nad yw hyn yn bosibl ym mhob achos pan fo Secondiad/Benthyciad yn para **mwy na 12** mis.<br><br>Os yw'r Secondiad/Benthyciad yn para mwy na 12 mis ac mae'i swydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am gliriad SC neu DV yna nodwch os gwelwch |

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

yn dda y mae'n bosib fe all y cliriad diogelwch ddod i ben (heblaw ei fod yn bosib trosglwyddo'r lefel gyfredol o ddiogelwch). Cofiwch hyn felly wrth benderfynu a ddylid cadw'r swydd ar agor, oherwydd fe all fod amser sylweddol cyn y gallant ailafael yn ei rôl yn llawn wedi iddynt ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae cliriad SC fel arfer yn cymryd 6-8 wythnos ar ôl cyflwyno'r ffurflenni. Fe all cliriad DV gymryd hyd at 9 mis.

A fydd swydd bresennol yr aelod staff yn cael ei chadw ar agor am hyd y secondiad: Bydd / Na fydd

Os Na fydd, amlinellwch eich rheswm a chadarnhewch eich bod wedi trafod, a chytuno ar hyn, gyda'ch aelod staff:

Cadarnhewch eich bod wedi cytuno ar drefniadau 'cadw mewn cysylltiad' gyda'r aelod staff am hyd y Secondiad/Benthyciad: Ydw/ Nac ydw

Er mwyn ceisio am Secondiad/Benthyciad allanol, rhaid i'r unigolyn fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod yn barhaol ac wedi pasio'r cyfnod prawf
- Wedi bod yn ei rôl gyfredol am o leiaf 12 mis
- Peidio â chael ei ystyried yn tangyflawni ar y system rheoli perfformiad

Cadarnhewch os gwelwch chi'n dda bod yr aelod o staff yn bodloni'r meini prawf: Ydy/Nac ydy

**Cymeradwyaeth a Chadarnhad Adnoddau Grŵp:**

Mae Secondiadau a Benthyciadau allanol yn cael eu cytuno drwy eithriad yn unig ac mae'n rhaid i'ch Panel Adnoddau Lleol gytuno arnynt cyn bwrw rhagddi â'r broses. Gweler y templed achos busnes isod:

Business Case 1
(Local Resourcing Par

Amgaewch e-bost Cymeradwyaeth y Panel Adnoddau Lleol yma:……….

Cymeradwyaeth Partner Busnes AD: Oes/Nac oes

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

| Llofnod/Enw: |
| --- |

Partner Busnes AD: Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen hon at Desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

**Atodiad D**

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Secondiad i'r Tu Allan** | Symud gweithiwr o Lywodraeth Cymru dros dro i sector cyhoeddus arall, i'r sector gwirfoddol neu at gyflogwr preifat am gyfnod cyfyngedig o dan delerau Cytundeb Secondiad |
| **Secondiad o'r Tu Allan** | Symud gweithiwr o sector cyhoeddus arall, o'r sector gwirfoddol neu o gyflogwr preifat dros dro i Lywodraeth Cymru am gyfnod cyfyngedig o dan delerau Cytundeb Secondiad |
| **Benthyciadau** | Symud gweision sifil dros dro rhwng Adrannau Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, Asiantaethau Gweithredol a chyrff eraill y llywodraeth o dan delerau Cytundeb Benthyciad |
| **Secondai i'r Tu Allan** | Gweithiwr o Lywodraeth Cymru sydd ar Secondiad i sector cyhoeddus arall, y sector gwirfoddol neu gyflogwr preifat |
| **Y Sawl sydd ar Fenthyg i'r Tu Allan** | Gweithiwr Llywodraeth Cymru sydd ar Fenthyg i gorff llywodraeth y DU neu gorff llywodraeth ddatganoledig. |
| **Secondai o'r Tu Allan** | Unigolyn sy'n secondio o sefydliad allanol o dan Gytundeb Secondiad i Lywodraeth Cymru am gyfnod penodol o amser |
| **Y Sawl sydd ar Fenthyciad o'r Tu Allan** | Unigolyn sy'n ymuno â Llywodraeth Cymru ar fenthyg o adran neu asiantaeth arall yn y DU neu lywodraeth ddatganoledig sydd â statws gwasanaeth sifil, o dan Gytundeb Benthyciad am gyfnod penodol o amser |
| **Partner Busnes AD** | Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol– cyngor cyffredinol a chynllunio busnes ac ati |
| **CAT** | Tîm Cynghori ar Achosion Adnoddau Dynol – materion presenoldeb, cwynion a disgyblaeth |
| **Comisiwn y Gwasanaeth Sifil** | Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil. Mae'n Gorff Cyhoeddus Anadrannol gweithredol a noddir gan Swyddfa'r Cabinet ac sy'n rheoleiddio recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil, yn rhoi sicrwydd bod penodiadau ar sail teilyngdod ar ôl cystadleuaeth deg ac agored, ac yn helpu i hyrwyddo gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil o Onestrwydd, Uniondeb, Gwrthrychedd |

# SECONDIADAU A BENTHYCIADAU

| | |
|---|---|
| | a Diduedddrwydd. |
| **Achos Busnes** | Cais cynhwysfawr yn amlinellu manteision cyfle am Secondiad/ Benthyciad |
| **Yr Is-adran sy'n Cyflogi** | Is-adran Llywodraeth Cymru lle mae'r cyflogai yn cael ei Secondio neu ei Fenthyg. |
| **Yr Is-adran sy'n Derbyn** | Is-adran Llywodraeth Cymru y mae'r secondai/y sawl sydd ar fenthyciad o'r tu allan yn gweithio iddi |
| **Y Sefydliad sy'n Croesawu/ Adran y Llywodraeth** | Y sefydliad allanol y mae'r Secondai/y Sawl sydd ar Fenthyciad yn gweithio iddo |
| **Tymor y Secondiad/y Benthyciad** | Hyd y Secondiad/Benthyciad |
| **Rhiant-Sefydliad/Adran** | Cyflogwr cyfreithiol y Secondai/y Sawl sydd ar Fenthyciad |
| **Yswiriant Budd-dal Anafiadau** | Mae Cynllun Budd-dal Anafiadau Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil yn rhoi budd-daliadau i staff sydd â **llai o allu i ennill cyflog** o ganlyniad i anaf yn y gwaith a ddioddefir yn ystod dyletswydd swyddogol.<br>Mae'n gynllun 'dim bai' ac nid yw hawl i fudd-daliadau yn golygu bod gan yr aelod o staff hawliad iawndal anaf personol o reidrwydd sy'n debygol o lwyddo.<br>Dylid nodi hefyd, os bydd aelod o staff yn llwyddo gyda hawliad am iawndal yn erbyn y cyflogwr ac yn cael budd-daliadau anafiadau, fod yn rhaid eu had-dalu ar ôl setlo'r hawliad am anaf personol.<br>Mae nifer o feini prawf llym y mae'n rhaid eu bodloni cyn dyfarnu budd-daliadau. I fod yn gymwys i gael yswiriant, rhaid i'r aelod o staff fod ag anaf cymwys a bod ei allu i ennill cyflog wedi dioddef o ganlyniad i'r anaf. |

**David Richards OBE**
Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg
Director of Propriety and Ethics

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
SeneddPAPA@senedd.cymru

23 Mai 2023

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n deall bod gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yng nghynnwys adroddiad diweddar Ernst and Young a'i fod wedi gofyn a yw Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi copi ohono i'r Pwyllgor. Awgrymaf y dylid cyfeirio'r cais hwn at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan mai nhw a gomisiynodd yr adroddiad. Nhw fydd yn y sefyllfa orau i lunio barn ar sut i ymateb i'r Pwyllgor gan ystyried, ar yr un pryd, unrhyw faterion ynghylch cyfrinachedd neu hawliau cyflogaeth a all godi drwy ddatgeliad. Byddant hefyd yn gallu ystyried y sail gytundebol sy'n gefndir i gomisiynu'r adroddiad gydag Ernst and Young. Mae'r adroddiad yn dal i fod ar gylchrediad cyfyngedig iawn o fewn Llywodraeth Cymru ac, er ein bod bob amser am helpu'r Pwyllgor, ni fyddai'n bosibl inni ei ryddhau ein hunain heb gytundeb blaenorol gan y Bwrdd Iechyd.

Yn gywir,

**David Richards OBE**
Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg
Director of Propriety and Ethics
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel **03000 604400**
David.Richards@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6.2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE –

## y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig

Mehefin 2023



Paratowyd yr adroddiad hwn i’w gyflwyno i’r Senedd o dan adran 135 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Senedd ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo’r pŵer i gyflwyno adroddiadau i’r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Negeseuon allweddol 4

## Adroddiad manwl

1 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo holl arian yr UE a mwy i brosiectau ond roedd ganddynt symiau sylweddol i'w gwario o hyd yn ystod 2023 11

2 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn rheoli rhai risgiau sylweddol i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei dynnu i lawr, gan gynnwys rhai nad ydynt o dan eu rheolaeth mwyach 18

## Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith 27

2 Ynglŷn â'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig 30

# Negeseuon allweddol

## Cyd-destun

1 Mae Cymru wedi bod yn cael arian gan yr UE ers tro. Er bod rhaglenni eraill wedi bod, y ddwy elfen fwyaf o arian yr UE yw'r canlynol:

- **y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol** – sy'n cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF); a'r
- **Rhaglen Datblygu Gwledig** – sydd wedi'i rhannu'n 'Fesurau' sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau'r UE.

2 Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r ddwy raglen yng Nghymru, ac mae'r ddwy yn cwmpasu amrywiaeth eang o brosiectau/gweithgareddau. Yn ymarferol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)[1] sy'n rheoli'r Cronfeydd Strwythurol a chyfarwyddiaeth materion gwledig Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Adrannau Llywodraeth Cymru yw prif dderbynwyr Cronfeydd Strwythurol, gan reoli prosiectau a gymeradwywyd gan WEFO. Yn gyffredinol, mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn dyfarnu cyllid i ffermwyr, busnesau a sefydliadau allanol. Rhaid i'r ddwy raglen gael eu cyd-ariannu gan gyllid domestig ochr yn ochr â grant yr UE (**Arddangosyn 1**).

1 Mae WEFO, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, yn gyfrifol am gyd-reoli Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Ewropeaidd. Fel 'Awdurdod Rheoli', WEFO sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r rhaglen yn effeithlon. Pan fyddwn yn cyfeirio at WEFO a Llywodraeth Cymru ar yr un pryd, gwneir hynny i wahaniaethu rhwng y cyfrifoldebau am reoli'r Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

**Arddangosyn 1: crynodeb o gwmpas a gwerth y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig[1]**

| Rhaglen | Enghreifftiau o weithgareddau a gefnogir | Grant yr UE | Cyfanswm gwerth gyda chyd-ariannu domestig |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Cronfeydd Strwythurol | Cynlluniau trafnidiaeth mawr, rhaglenni dysgu seiliedig ar waith mawr, cynlluniau lleol llai o faint sy'n mynd i'r afael â thlodi ac allgáu. | £2.1 biliwn[2] | £3.2 biliwn |
| Rhaglen Datblygu Gwledig | Nod y rhaglen yw hyrwyddo twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy, a datblygiad a arweinir gan y gymuned yng Nghymru. Mae'n cefnogi prosiectau o fewn y diwydiannau bwyd, ffermio a choedwigaeth i wella cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd. | £562 miliwn | £842 miliwn |

Nodiadau:

[1] Darperir arian yr UE mewn Ewros. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi dyfynnu gwerthoedd mewn punnoedd a gyfrifir gan WEFO a Llywodraeth Cymru drwy gymhwyso cyfradd trosi cynllunio. Y gyfradd drosi ar hyn o bryd yw £1: €1.17. Byddai gwerthoedd cyffredinol y rhaglen yn newid gydag unrhyw amrywiadau yn y gyfradd trosi cynllunio, ond nid yw grant a dynnwyd i lawr eisoes yn cael ei effeithio gan unrhyw amrywiadau yn y dyfodol.

[2] O ran Cronfeydd Strwythurol, mae’r ERDF yn cyfrif am tua £1.2 biliwn o ddyraniad grant yr UE ac mae’r ESF yn cyfrif am £878 miliwn.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

3 Mae'r ddwy raglen yn dilyn cylchoedd cyllideb saith mlynedd yr UE. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cylch 2014-2020. Yn ymarferol, gall y rhaglenni wario tan 31 Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau allweddol yn y terfynau amser ar gyfer y ddwy raglen (**Arddangosyn 2**). Bydd gweithgarwch cau'r rhaglenni ymhell y tu hwnt i 2023 hefyd.

**Arddangosyn 2: gwahaniaethau allweddol yn y terfynau amser ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig**

Mae gan brosiectau'r **Rhaglen Cronfeydd Strwythurol** hyd at 31 Rhagfyr 2023 i fynd i wariant. Rhaid i bob prosiect gyflwyno hawliadau terfynol i WEFO 21 diwrnod ar ôl dyddiadau gorffen prosiectau er mwyn i WEFO eu prosesu. Wedyn, bydd gan WEFO tan fis Gorffennaf 2024 i hawlio grant terfynol yr UE sy'n weddill.

O dan y **Rhaglen Datblygu Gwledig**, rhaid i fuddiolwr fynd i wariant a rhaid i Lywodraeth Cymru ei dalu erbyn 31 Rhagfyr 2023. Er mwyn caniatáu amser ar gyfer gwiriadau a phrosesu, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu terfyn amser o 7 Gorffennaf 2023 i'r rhan fwyaf o fuddiolwyr gyflwyno eu hawliadau terfynol. Yr eithriad yw nifer bach o gynlluniau gwaith cyfalaf amaeth-amgylcheddol.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

4 Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, nid yw Cymru yn cymryd rhan yn rhaglen cronfeydd yr UE 2021-2027. Mae Llywodraeth y DU wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gymryd lle'r Cronfeydd Strwythurol. Mae Llywodraeth y DU yn rheoli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ei hun.

5 Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddyraniad cyllid tair blynedd o £227 miliwn i sicrhau parhad ar gyfer rhai ardaloedd a gefnogwyd yn flaenorol gan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n nodi ei chymorth amaethyddol ar ôl Brexit i ffermwyr a disgwylir iddo fod ar waith erbyn 2025. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd yn ogystal â chynhyrchu bwyd, ac y bydd yn cefnogi gwelliannau ehangach o ran rheoli tir.

6 Mae'r adroddiad hwn, sydd â chwmpas cyfyng, yn archwilio a yw Cymru ar y trywydd iawn i wneud y defnydd gorau o arian yr UE sy'n weddill o'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Rydym yn canolbwyntio ar y sefyllfa o ran ymrwymiad a gwariant ar ddechrau 2023, a sut mae risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Gwnaethom ddiweddaru ein dadansoddiad wrth i ni orffen yr adroddiad hwn i ddangos y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2023.

7 Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn i roi cipolwg i'r rhai sydd â diddordeb yn y rhaglenni ac i gefnogi gwaith craffu. Fodd bynnag, o ystyried y cyfnod byr sydd ar ôl a'r cwmpas cyfyngedig i wneud newidiadau i'r ffordd y caiff y rhaglenni eu rheoli neu eu cyflawni, ac ar ôl nodi materion perthnasol i'r ddwy raglen eu rheoli mewn adroddiadau blaenorol, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion penodol fel rhan o'r adroddiad hwn.

8 Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o fanylion am ein gwaith yn arwain at yr adroddiad hwn, ac am ein gwaith blaenorol. Mae **Atodiad 2** yn rhoi rhagor o wybodaeth am strwythurau rhaglenni.

## Canfyddiadau allweddol

9 At ei gilydd, rydym wedi dod i'r casgliad bod WEFO a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo holl arian yr UE a mwy i brosiectau ond bod ganddynt symiau sylweddol i'w gwario o hyd yn ystod 2023. Maent yn rheoli rhai risgiau sylweddol i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei dynnu i lawr, gan gynnwys rhai nad ydynt o dan eu rheolaeth mwyach.

10 Er gwaethaf rhai heriau, gan gynnwys oedi a achoswyd gan bandemig COVID-19, llwyddodd WEFO a Llywodraeth Cymru i ymrwymo holl grant yr UE a mwy i brosiectau a buddiolwyr (**Arddangosyn 3**). Serch hynny, roedd ganddynt ychydig o dan £650 miliwn o grant yr UE i'w wario yn 2023. Mae angen i gyfradd gwariant buddiolwyr a phrosiectau yn y ddwy raglen fod yn uwch ym mlwyddyn olaf y rhaglen nag yr oedd mewn blynyddoedd cynharach. Os bydd yr holl brosiectau a buddiolwyr yn cyflawni yn ôl y bwriad ac yn hawlio'r holl gyllid a ymrwymwyd, bydd angen i wariant dros grant 100% yr UE gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Arddangosyn 3: Iefelau ymrwymiad a gwariant ar draws y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig**

| | Rhaglen Cronfeydd Strwythurol (Rhagfyr 2022) | Rhaglen Datblygu Gwledig (Ionawr 2023)[1] |
|---|---|---|
| Grant yr UE | £2.1 biliwn | £562 miliwn |
| % grant yr UE sydd wedi’i ymrwymo | 102% | 104% |
| Grant yr UE sydd wedi'i wario[2] | £1.5 biliwn | £488 miliwn |
| Grant yr UE sydd ar gael i’w wario[3] | £576 miliwn | £73 miliwn |
| Gwerth yr or-ymrwymiad | £48 miliwn | £20 miliwn |

Nodiadau:

[1] Mae’r ymrwymiad a’r gwariant hyd at Ionawr 2023 ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yn hytrach na Rhagfyr 2022 gan i ni ddefnyddio’r wybodaeth oedd ar gael ar adeg ein gwaith maes. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion am ymrwymiad a gwariant ar ei gwefan ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig.

[2] Mae ffigur ‘grant yr UE sydd wedi’i wario’ yn cynnwys cyllid sydd wedi’i gymeradwyo a’i ddosbarthu i brosiectau a buddiolwyr.

[3] Nid yw grant yr UE sydd wedi’i wario ac sydd ar gael i’w wario yn cyfateb i gyfanswm grant cyffredinol yr UE oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Data WEFO a Llywodraeth Cymru

11 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhagor o gynnydd ar ddechrau 2023. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd £504 miliwn o grant yr UE ar ôl i'w wario (£446 miliwn o'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol, £58 miliwn o'r Rhaglen Datblygu Gwledig). Roedd y gwariant cyffredinol ar gyfer pob rhaglen yn gynnar yn 2023 yn cyd-fynd yn fras â'r llwybr roedd ei angen i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei dynnu i lawr. Ymrwymodd WEFO hefyd £22 miliwn arall o grant gan yr UE i brosiectau Cronfeydd Strwythurol, gan fynd â'r gor-ymrwymiad o £48 miliwn i £70 miliwn.

12 Serch hynny, mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn rheoli rhai risgiau sylweddol, gan gynnwys rhai nad ydynt o dan eu rheolaeth mwyach:

- mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn parhau i addasu'r rhaglenni er mwyn sicrhau bod cyllid wedi'i ymrwymo o hyd ac i sicrhau'r rhagolygon gorau ar gyfer gwario grant yr UE. Fodd bynnag, gydag ychydig iawn o amser ar ôl, ychydig iawn o gyfle sydd yna i ymestyn cynlluniau neu brosiectau, sefydlu cynlluniau neu brosiectau newydd a'u cyflawni. Erbyn hyn, mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar brosiectau a buddiolwyr i gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.
- mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn monitro'r gyfradd gyfnewid yn agos, ond mae effaith unrhyw amrywiadau yn lleihau dros amser.
- mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal gwiriadau ar hawliadau i reoli'r risg y bydd cyllid yn cael ei adennill wedyn gan yr UE oherwydd anghymwystra neu wallau.
- mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn atgoffa prosiectau a buddiolwyr bod angen cadw cofnodion da ar ôl 2023. Mae hon yn risg benodol oherwydd, heb unrhyw gyllid newydd, efallai na fydd rhai sefydliadau allanol yn bodoli mwyach ac efallai na fyddant yn gallu cymryd rhan yn y prosesau terfynu fel sy'n ofynnol gan yr UE.
- mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i hybu a chadw eu capasiti staffio eu hunain i brosesu hawliadau, cynnal y gwiriadau gofynnol cyn diwedd y rhaglenni, a chefnogi'r prosesau terfynu ar ôl 2023.

"Rwy'n sylweddoli ei bod yn her ceisio gwario cymaint â phosibl o gronfeydd yr UE sy'n weddill. Mae cwblhau'r rhaglenni yn brin yn golygu colli arian i Gymru ond byddai eu cwblhau yn y cyfeiriad arall yn gallu golygu bil sylweddol i Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf amgylchiadau anodd, mae'n galonogol gweld bod WEFO a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo holl gyllid yr UE a bod y rhaglenni ar drywydd cadarnhaol o ran gwariant. Mae angen cynnal y cynnydd hwnnw gan hefyd reoli risgiau sylweddol a sicrhau gwerth am arian.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo holl arian yr UE a mwy i brosiectau ond roedd ganddynt symiau sylweddol i'w gwario o hyd yn ystod 2023

01

13 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn nodi’r cynnydd o ran ymrwymo holl arian yr UE i brosiectau a gwariant. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi ystyr ‘ymrwymiad’ a ‘gwariant’ ar gyfer pob rhaglen.

**Arddangosyn 4: diffiniadau o ymrwymiadau a gwariant ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig**

| | Rhaglen Cronfeydd Strwythurol | Rhaglen Datblygu Gwledig |
|---|---|---|
| Ymrwymiad | Cyllid prosiect wedi’i gymeradwyo a chontract wedi'i lofnodi gyda'r buddiolwr. | Cyllid prosiect wedi'i gymeradwyo a llofnod gan y buddiolwr yn nodi ei fod wedi derbyn y cynnig grant. |
| Gwariant | Swm yn cael ei dalu i fuddiolwyr ar ôl cymeradwyo hawliadau. | Symiau yn cael eu talu i fuddiolwyr ar ôl derbyn a phrosesu hawliad dilys. |

Noder: mewn ymateb i’n hadroddiad yn 2018 ar effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae Llywodraeth Cymru wedi egluro ei diffiniad o ‘ymrwymiad’ ar gyfer y rhaglen.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

## Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi wynebu rhai heriau sylweddol wrth fwrw ymlaen â'r rhaglenni

14 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau wrth fwrw ymlaen â'r rhaglenni. Achosodd pandemig COVID-19 yn arbennig aflonyddwch, gyda rhai prosiectau yn cael eu gohirio neu'n gorfod cael eu canslo, ac effaith ar gyflymder gwariant. Mae'r rhaglenni hefyd wedi wynebu heriau yn ddiweddar oherwydd chwyddiant uchel, sydd wedi effeithio ar gostau deunyddiau. Mae problemau cadwyni cyflenwi a phrinder llafur hefyd wedi effeithio ar gyflawni prosiectau. Amlygodd ein hadroddiadau yn 2018 ar yr effaith y cafodd Brexit ar y rhaglenni sawl her o ran ymrwymo cyllid, gan gynnwys oedi cynnar ar y rhaglenni ac ansicrwydd a oedd yn gysylltiedig â Brexit, hyd yn oed cyn y pandemig a'r pwysau economaidd diweddar.

## Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ymrwymo holl arian yr UE a mwy i brosiectau a buddiolwyr

15 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffaith eu bod wedi llwyddo i or-ymrwymo'r holl gyllid yn llwyddiant sylweddol, o ystyried yr heriau a wynebwyd yn ystod cyfnod y rhaglen hon. Mae data WEFO a Llywodraeth Cymru yn dangos:

- ym mis Rhagfyr 2022, roedd WEFO wedi ymrwymo 102% o grant yr UE ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol. Mae hyn yn golygu bod yr holl grant wedi'i ddyrannu a'i fod wedi gor-raglennu tua 2% (£48 miliwn). Rhannwyd y gor-ymrwymiad o £48 miliwn bron yn gyfartal ar draws yr ESF ac ERDF; ac
- ym mis Ionawr 2023, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo 104% o grant yr UE ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hyn yn golygu bod yr holl grant wedi'i ddyrannu a'i fod wedi gor-raglennu 4% (£20 miliwn).

16 Mae gor-ymrwymo cyllid yn arfer cyffredin wrth reoli rhaglenni. Mae'n darparu byffer ar gyfer rhai prosiectau sy'n tangyflawni ac felly'n methu â thynnu i lawr eu cyllid grant. Mae rhagweld y lefel gywir o or-raglennu yn anodd ac mae risgiau yn gysylltiedig â hyn. Os bydd yr holl brosiectau a buddiolwyr yn cyflawni yn ôl y bwriad ac yn hawlio'r holl gyllid a ymrwymwyd, bydd angen i wariant dros grant 100% yr UE gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

17 Mae WEFO wedi bod yn fwy gofalus ynghylch gor-ymrwymiadau nag yn y rowndiau blaenorol. O dan rowndiau blaenorol[2], roedd WEFO yn teimlo rhywfaint o gysur y gallai elfennau o gyllid bontio rhwng un rhaglen a'r rhaglen nesaf pe bai gorwariant yn debygol. Gan nad yw Cymru yn cymryd rhan yn Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2021-2027, nid yw'r cam lliniaru hwn ar gael. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei gweinyddu gan Lywodraeth y DU a'i darparu'n uniongyrchol i lywodraeth leol, ac ar draws Ardaloedd Bargeinion Dinesig a Thwf[3], felly ni all Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid hwnnw i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r sefyllfa'n wahanol ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig, lle mae Llywodraeth Cymru yn cadw rheolaeth dros gynllun a chyllid y rhaglen newydd.

## Roedd gan WEFO a Llywodraeth Cymru tua £650 miliwn o arian yr UE i'w wario yn ystod 2023

18 Er bod holl arian yr UE a mwy wedi'i ymrwymo ar gyfer y ddwy raglen, roedd symiau sylweddol o arian ar ôl i'w gwario yn ystod 2023.


- ym mis Rhagfyr 2022, roedd angen gwario £576 miliwn (27.5%) o grant yr UE ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol o hyd cyn 31 Rhagfyr 2023. Roedd hyn yn cynnwys £355 miliwn o'r ERDF a £221 miliwn o'r ESF.
- ym mis Ionawr 2023, roedd £73 miliwn (13%) o grant yr UE ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig heb ei wario o hyd.

19 Mae angen i'r ddwy raglen gynyddu eu cyfradd gwariant dros y flwyddyn olaf. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos, er mwyn i'r holl gyllid gael ei dynnu i lawr, y bydd angen gwario Cronfeydd Strwythurol ar gyfradd llawer cyflymach nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r gyfradd gwariant ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yn edrych yn fwy sefydlog o'i mapio hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, mae'r amserlen a'r rheolau (**Arddangosyn 2**) yn golygu bod angen i wariant gan fuddiolwyr gynyddu'n sylweddol os yw'r rhan fwyaf am gyflwyno hawliadau terfynol erbyn mis Gorffennaf 2023.

2 Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi gwybodaeth i ni am lefel y gor-ymrwymiad yng nghylchoedd blaenorol y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn cymharu.

3 Mae'r bargeinion Dinesig a Thwf yn cael cyllid rhanbarthol. Y rhain yw Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bargen Ddinesig Bae Abertawe, Uchelgais Gogledd Cymru, a Phartneriaeth Ranbarthol Tyfu Canolbarth Cymru.

**Arddangosyn 5: canran gronnol grant yr UE sydd wedi'i wario ar draws y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac sydd ar ôl i'w wario, 2015 i 2023[1, 2]**




Nodiadau:


[1] Mae **Arddangosyn 2** yn egluro'r rheolau gwahanol ar gyfer y ddau gynllun. Mae gan brosiectau Cronfeydd Strwythurol hyd at 31 Rhagfyr 2023 i barhau i wario. O fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig, gofynnwyd i'r rhan fwyaf o fuddiolwyr gyflwyno hawliadau terfynol erbyn 7 Gorffennaf 2023, fel y gall Llywodraeth Cymru eu gwirio a'u talu erbyn 31 Rhagfyr 2023.

[2] Gwariant cronnol yw gwariant 2015-2022. 2023 yw'r gwariant sydd ar ôl i'w hawlio.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata WEFO a Llywodraeth Cymru

20 Mae'r patrwm o wariant uwch yn hwyr yn y rhaglenni wedi bod yn nodwedd mewn rowndiau blaenorol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n fwy heriol yn y rownd bresennol oherwydd y tarfu a achoswyd gan y digwyddiadau a arweiniodd at ohirio llawer o brosiectau a gwario'n hwyrach na'r disgwyl (**paragraff 14**). Yn benodol, cyfrannodd pandemig COVID-19 at ostyngiad yng ngwariant grant yr UE ar y Rhaglen Datblygu Gwledig yn 2020 a 2021 (**Arddangosyn 6**). Er bod gwariant blynyddol grant yr UE ar y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol wedi cynyddu ar gyfer 2020, gostyngodd ychydig yn 2021 cyn cynyddu unwaith eto yn 2022.

**Arddangosyn 6: gwariant blynyddol grant yr UE ar draws y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig, 2015 i 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata WEFO a Llywodraeth Cymru

21 Mewn rowndiau rhaglennu blaenorol, nid yw WEFO a Llywodraeth Cymru wedi gwario’r holl arian grant sydd ar gael gan yr UE. Mae’r amrywiad yn y gyfradd gyfnewid yn fater sy’n cymhlethu’r broses o gyflawni gwariant llawn. Ar gyfer y ddwy rownd Cronfeydd Strwythurol blaenorol – 2000-2006 a 2007-2013 – gwariodd WEFO tua 97% o grant yr UE. Gwariodd rownd flaenorol y Rhaglen Datblygu Gwledig tua 93% o grant yr UE[4]. Byddai canlyniadau sy’n cyfateb i’r rhai yn y rownd flaenorol yn golygu bod tua £102 miliwn o grant yr UE ar ôl heb ei wario (£63 miliwn ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a £39 miliwn ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig). Ar draws y ddwy raglen gyda’i gilydd, mae pob 1% o’r grant na chaiff ei wario yn cyfateb i ychydig o dan £27 miliwn.

4 Nid oes gennym ffigur ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2000-2006.

## Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd pellach ar ddechrau 2023, ac erbyn diwedd mis Mawrth gostyngodd swm grant yr UE a oedd ar ôl i'w wario i £504 miliwn

22 Darparodd WEFO a Llywodraeth Cymru y wybodaeth ddiweddaraf i ni am wariant hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 wrth i ni gwblhau'r adroddiad hwn. Mae'n dangos bod cyfanswm y grant sydd ar ôl i'w wario wedi gostwng o £650 miliwn i £504 miliwn.

23 Gostyngodd swm Cronfeydd Strwythurol yr UE a oedd ar ôl £130 miliwn, o £576 miliwn ar ddiwedd mis Rhagfyr 2022 i £446 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Ymrwymodd WEFO hefyd £22 miliwn arall o grant gan yr UE, yn bennaf i brosiectau ERDF, gan fynd â'r gor-ymrwymiad o £48 miliwn i £70 miliwn. At ei gilydd, roedd y gwariant yn gynnar yn 2023 yn cyd-fynd yn fras â'r llwybr roedd ei angen i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei dynnu i lawr. Fodd bynnag, gwelwyd llawer mwy o gynnydd o ran gwario grant yr ESF. Gostyngodd yr ERDF a oedd ar ôl o £355 miliwn i £304 miliwn (-14%), gyda'r ESF yn gostwng o £221 miliwn i £142 miliwn (-36%). Mae **paragraff 31** yn nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â chael nifer o brosiectau mawr i'w cwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, y mae llawer ohonynt yn y rhaglen ERDF.

24 Ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig, gostyngodd gweddill grant yr UE o £73 miliwn ar ddiwedd mis Ionawr 2023 i £58 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'r gyfradd gwariant gyffredinol yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth yn cyd-fynd yn fras â'r llwybr sydd ei angen i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei dynnu i lawr. Mae **paragraffau 32 a 33** yn egluro'r heriau penodol ynghylch cydbwysedd y prosiectau sydd ar ôl ar ddiwedd mis Ionawr. Mae cynlluniau economaidd-gymdeithasol wedi tueddu i danwario yn erbyn eu dyraniad yn hanesyddol. Nid oedd data Llywodraeth Cymru a oedd ar gael i ni, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am swm grant yr UE a oedd ar ôl ar gyfer y gwahanol fathau o brosiectau.

**Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn rheoli rhai risgiau sylweddol i sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei dynnu i lawr, gan gynnwys rhai nad ydynt o dan eu rheolaeth mwyach**

02

25 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn nodi’r risgiau allweddol y mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu wrth iddynt geisio gwneud y defnydd gorau posibl o’r arian sydd ar ôl gan yr UE.

## Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn parhau i addasu’r rhaglenni er mwyn sicrhau bod yr holl gyllid wedi’i ymrwymo o hyd

26 Mae’n anochel ar raglenni mawr y bydd cynlluniau’n newid: mae rhai prosiectau’n tangyflawni neu ddim yn dwyn ffrwyth ac mae angen symud cyllid o gwmpas. Mae symud cyllid o gwmpas yn y fath fodd wedi bod yn nodwedd o rowndiau blaenorol y Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig. Ar gyfer y rownd hon, mae’r oedi a achoswyd gan bandemig COVID-19 wedi ychwanegu at yr heriau, sydd wedi golygu bod angen rhoi’r gorau i rai prosiectau a chyflwyno prosiectau newydd yn eu lle neu ymestyn prosiectau eraill. Ar gyfer y ddwy raglen, mae rheolau caeth ond gwahanol yn llywodraethu unrhyw newidiadau i’r cynlluniau a gymeradwywyd gan yr UE (**Arddangosyn 7**).

**Arddangosyn 7: rheolau yn ymwneud ag addasu’r rhaglenni**

Ar gyfer y **Rhaglen Cronfeydd Strwythurol**, ni ellir symud cyllid grant rhwng yr ERDF a’r ESF na rhwng dau ranbarth daearyddol Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a Dwyrain Cymru (**Atodiad 2**). Ar gyfer yr ERDF a’r ESF, mae’r UE yn cymeradwyo cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar lefel flaenoriaeth ar gyfer pob rhanbarth. Ym mlwyddyn olaf y rhaglen, mae gan WEFO yr hyblygrwydd i orwario hyd at 15% o’r swm y cytunwyd arno ar gyfer unrhyw flaenoriaeth mewn rhanbarth a’i ariannu drwy danwariant ar flaenoriaethau eraill yn y rhanbarth hwnnw, heb fod angen cymeradwyaeth yr UE.

Ar gyfer y **Rhaglen Datblygu Gwledig**, mae Llywodraeth Cymru yn pennu’r dyraniadau yn erbyn y Mesurau amrywiol a chymeradwyir hyn gan yr UE. Yn wahanol i Gronfeydd Strwythurol, nid oes hyblygrwydd i symud arian rhwng Mesurau heb gymeradwyaeth pellach gan yr UE drwy addasu’r rhaglen. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru reoli cynlluniau’n hyblyg o fewn y terfynau a bennir ar gyfer y Mesur.

27 Ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, pandemig COVID-19 gafodd yr effaith fwyaf ar brosiectau ERDF lle mae rhai prosiectau wedi cael eu gohirio, eu lleihau o ran cwmpas, neu eu canslo. Mae rhai prosiectau, yn enwedig prosiectau cyfalaf, hefyd wedi wynebu pwysau o ran cost oherwydd chwyddiant a phrinder llafur. Ym mis Mawrth 2023, cafodd WEFO gymeradwyaeth yr UE i addasu’r Rhaglen yn ffurfiol. Mae hyn, i raddau helaeth, wedi golygu symud cyllid o brosiectau i uwchraddio ffyrdd a gorsafoedd rheilffordd a gafodd eu gohirio, ac ail-fuddsoddi mewn maes blaenoriaeth i gefnogi mentrau bach a chanolig. Mae WEFO yn rhagweld, os bydd angen gwneud rhagor o newidiadau i symud arian rhwng Blaenoriaethau, y gellir ei gynnwys o fewn yr hyblygrwydd o 15% sydd ganddi o dan reolau’r UE (**Arddangosyn 7**).

28 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o addasiadau i’r Rhaglen Datblygu Gwledig hyd yma. Bu angen gwneud y rhain am resymau megis tanwariant prosiectau, prosiectau aflwyddiannus, a chosbau am beidio â chydymffurfio â rheolau’r cynllun. Er bod y Rhaglen yn fwy na chwbl ymrwymedig yn gyffredinol, mae nifer o Fesurau unigol wedi’u gor-ymrwymo, tra bod nifer o rai eraill heb eu hymrwymo’n ddigonol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud addasiad terfynol i’r rhaglen ar 30 Medi 2023. Ni all wneud unrhyw addasiadau pellach ar ôl hynny. Fel y nodwyd ym **mharagraff 16**, byddai angen i Lywodraeth Cymru dalu am unrhyw orwariant yn erbyn dyraniadau grant yr UE ar gyfer pob Mesur o gyllid domestig. Bydd unrhyw danwariant ar gyfer pob Mesur yn cael ei golli i Gymru.

## Gydag ychydig iawn o amser ar ôl, ychydig o gyfle sydd yna i ymestyn cynlluniau neu brosiectau neu sefydlu cynlluniau neu brosiectau newydd felly mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar brosiectau a buddiolwyr presennol i gyflawni ar amser

29 Mae’r terfynau amser arfaethedig yn golygu mai ychydig o gyfle sydd yna i WEFO a Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i’r rhaglenni. Mae’n cymryd amser i fynd drwy’r broses o sefydlu prosiectau a chynlluniau ac yna cyflawni’r gweithgaredd a’r buddion. Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er eu bod yn gallu gweithio’n agos gyda phrosiectau a chynlluniau a helpu lle y gallant, eu bod yn dibynnu’n helaeth erbyn hyn ar y prosiectau a’r cynlluniau i gyflawni yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.

30 Ar 31 Rhagfyr 2022, roedd 224 o brosiectau Cronfeydd Strwythurol wedi'u categoreiddio fel rhai 'gweithredol', ac roedd 54 ohonynt wedi mynd heibio eu dyddiad dyledus. Mewn egwyddor, roedd £624 miliwn o grant yr UE wedi'i ymrwymo i'r prosiectau hyn ac ar ôl i'w wario, gan gynnwys £48 miliwn o or-ymrwymiad. Ar ôl rhoi cyfrif am hawliadau a gyflwynwyd eisoes gan brosiectau ond nas talwyd eto gan WEFO, swm y cyllid a oedd ar ôl i'w hawlio oedd £470 miliwn (**Arddangosyn 8**).

**Arddangosyn 8: nifer y prosiectau Rhaglen Cronfeydd Strwythurol gweithredol ar ddiwedd mis Rhagfyr 2022 a swm y grant UE sydd ar ôl i'w hawlio**

| | **Nifer y prosiectau gweithredol** | **Grant yr UE wedi'i ymrwymo sydd ar ôl i'w hawlio (gan gynnwys gor-ymrwymiad)** |
|---|---|---|
| Prosiectau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad terfynu ar 31 Rhagfyr 2022 | 54 | £37 miliwn |
| Dyddiad terfynu 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023 | 170 | £433 miliwn |
| **Cyfansymiau [o'r rheini]** | **224** | **£470 miliwn** |
| Dyddiad terfynu 1 Hydref 2023 i 31 Rhagfyr 2023 | 41 | £153 miliwn |
| Dyddiad terfynu 1 Rhagfyr 2023 i 31 Rhagfyr 2023 | 18 | £68 miliwn |

Noder: Mae'r ffigurau £ yma yn cynrychioli'r symiau sydd ar ôl i'w hawlio heb gynnwys hawliadau a gyflwynwyd i WEFO nad oeddent wedi'u prosesu a'u talu ar ddiwedd mis Rhagfyr 2022.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata WEFO

31 Bydd llawer o'r prosiectau gweithredol yn rhedeg yn agos at y terfyn amser ar gyfer gwario. Mae 41 o brosiectau y disgwylir iddynt ddod i ben yn chwarter olaf 2023, gan gynnwys 18 y disgwylir iddynt ddod i ben yn y mis olaf. Mae nifer o'r prosiectau sy'n dod i ben yn 2023 yn gynlluniau mawr, wedi'u hariannu drwy'r ERDF, a Llywodraeth Cymru yw'r sefydliad arweiniol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect gwella ffordd yr A40 a phrosiectau seilwaith band eang.

32 Mewn egwyddor, ar ddiwedd mis Ionawr 2023, roedd £93 miliwn o gyllid grant yr UE a oedd wedi'i ymrwymo ar ôl o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys £20 miliwn o or-ymrwymiad. O'r £93 miliwn, roedd £25 miliwn yn ymwneud â Mesurau a oedd yn cynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol a £50 miliwn yn ymwneud â Mesurau a oedd yn cynnwys cynlluniau arddull economaidd-gymdeithasol. Roedd y gweddill yn gymysgedd o'r ddau. Yn gyffredinol, mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cyflawni yn unol â phroffiliau gwariant disgwyliedig ac felly mae Llywodraeth Cymru yn fwy hyderus y bydd yn gwario yn unol â phroffiliau.

33 Ar y cyfan, mae'r prosiectau arddull economaidd-gymdeithasol yn fwy anodd eu rhagweld yn ddibynadwy. Yn hanesyddol, maent wedi bod yn dueddol i dangyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro'r prosiectau economaidd-gymdeithasol hyn. Ar ddiwedd mis Ionawr 2023, roedd disgwyl i dros 100 o brosiectau economaidd-gymdeithasol barhau hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023. Byddai unrhyw estyniadau i'r prosiectau hyn yn peryglu amserlen Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o brosesu hawliadau (**Arddangosyn 2**).

## Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn monitro'r gyfradd gyfnewid yn agos, ond mae effaith unrhyw amrywiadau yn lleihau dros amser

34 Mae cyfradd gyfnewid amrywiol bob amser wedi bod yn risg barhaus y bu'n rhaid i'r ddwy raglen ei rheoli'n ofalus. Pennir lefel uchaf y cyllid sydd ar gael i Gymru mewn Ewros ar ddechrau'r cyfnod rhaglennu. Byddai unrhyw ostyngiad yng ngwerth y bunt yn golygu y byddai gwerth disgwyliedig arian yr UE mewn punnoedd yn cynyddu ac i'r gwrthwyneb. Gostyngodd gwerth y bunt yn gynharach yn y rhaglenni ac, o ganlyniad, roedd dyraniadau cyllid grant cyffredinol yr UE yn sylweddol uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

35 Er gwaethaf amrywiadau cynharach yn y gyfradd gyfnewid, mae wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Erys y risg, er ei bod yn fach, y bydd digwyddiad annisgwyl yn sbarduno newid sylweddol yn y gyfradd cyn i'r rhaglen ddod i ben. Fodd bynnag, po agosaf y bydd hyn at ddiwedd y rhaglen, y lleiaf fydd yr effaith, gan y byddai llai o arian ar ôl i'w dynnu i lawr ar y gyfradd newydd. Er bod y risg yn lleihau, bydd WEFO a Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r gyfradd gyfnewid hyd at ddiwedd y rhaglen.

## Er mwyn rheoli'r risg y bydd yr UE yn adennill cyllid, mae angen i WEFO a Llywodraeth Cymru barhau i wirio cymhwystra hawliadau a gweithio gyda phrosiectau a buddiolwyr i gadw cofnodion da ar ôl 2023

36 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o wiriadau dilysu a rheoli ar hawliadau cyn talu er mwyn sicrhau bod y gwariant a hawlir yn unol â rheolau'r cynllun ac yn cydymffurfio â rheoliadau'r UE. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig i leihau'r risg y bydd yr UE yn hawlio cyllid yn ôl yn ddiweddarach oherwydd ei fod yn anghymwys neu oherwydd gwallau.

37 Canfu ein hadroddiad yn 2018 ar reoli effaith Brexit ar y Cronfeydd Strwythurol fod WEFO wedi cryfhau'r gwiriadau a gynhaliwyd ganddi er mwyn sicrhau mai dim ond yn unol â meini prawf caeth y mae prosiectau'n gwario arian yr UE. O ganlyniad, roedd cyfradd y gwallau'n isel iawn. Rydym ar ddeall bod y rheolaethau cryfach hynny ar waith ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol o hyd. Mae'r Adroddiad Rheoli Blynyddol diweddaraf gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru – sy'n cwmpasu'r cyfnod cyfrifyddu 1 Gorffennaf 2021 i 30 Mehefin 2022 – yn nodi cyfradd gwallau isel dros ben o 0.046%.

38 Mae ein gwaith archwilio ariannol ar y Rhaglen Datblygu Gwledig ers 2016 wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru, yn gyffredinol, wedi cydymffurfio â safonau rheoli'r UE. Fodd bynnag, roedd un maes i'w wella lle roedd swyddogion yn gwneud camgymeriadau gweinyddol wrth ddehongli rheolau'r cynllun a phennu cymhwystra hawliadau am gyllid. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio canllawiau ac wedi darparu hyfforddiant diweddaru a chanllawiau i swyddogion. Yn 2022, gwelsom lai o gamgymeriadau o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond roedd nifer sylweddol ohonynt o hyd. Nid oedd effaith ariannol y materion yn berthnasol[5].

5 Cyfrifir perthnasedd fel 2% o wariant gros. Os bydd gwallau archwilio wedi'u hallosod yn fwy na'r swm hwn, byddai'r farn archwilio'n cael ei diwygio.

39 Wrth i'r rhaglenni symud tuag at gerrig milltir allweddol, mae'n hanfodol o hyd i WEFO a Llywodraeth Cymru barhau i gynnal gwiriadau cadarn. Mae risg y bydd y gwiriadau a'r oruchwyliaeth yn cael eu llacio wrth frysio i wario. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod WEFO na Llywodraeth Cymru yn bwriadu llacio eu gwiriadau, ond bydd angen iddynt wylio rhag y risg hon.

40 Cynhelir gwiriadau ac archwiliadau pellach ar wariant ar ôl dyddiad terfynu'r rhaglen. Bydd angen i WEFO a Llywodraeth Cymru gadw trywydd archwilio llawn a sicrhau bod ganddynt staff sydd â'r wybodaeth ofynnol i derfynu'r rhaglenni'n briodol a mynd i'r afael ag ymholiadau archwilio, gan liniaru'r risgiau o beidio â chydymffurfio â rheolau'r cynllun neu'r UE. Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â materion staffio ac yn cydnabod bod angen rheoli'r risg hon (**paragraffau 43 i 46**).

41 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch cadw cofnodion a mynediad at rai prosiectau a buddiolwyr fel rhan o'r broses derfynu ac archwilio. Mewn rowndiau rhaglenni blaenorol, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gofyn i adolygu dogfennaeth ar gyfer prosiectau ar ôl iddynt orffen cael cyllid gan rownd rhaglen benodol. Gan fod prosiectau yn aml yn parhau i'r rownd nesaf o raglenni, mae'r broses honno wedi bod yn eithaf syml.

42 Fodd bynnag, gan mai hon yw'r rhaglen olaf, mae'n bosibl na fydd sefydliadau sydd wedi dibynnu'n helaeth ar gyllid yr UE ar gyfer eu gwaith yn bodoli mwyach. Mae hyn y tu allan i reolaeth WEFO a Llywodraeth Cymru, i raddau helaeth, ond bydd angen iddynt barhau i weithio gyda phrosiectau a buddiolwyr i wneud popeth o fewn eu gallu i liniaru'r risg hon. Fel rhan o'i gwaith o reoli'r broses o derfynu rhaglenni, mae WEFO wedi cyhoeddi canllawiau ar gadw cofnodion. Dywedodd WEFO wrthym hefyd ei bod yn cynnal trafodaethau anffurfiol parhaus gyda phrosiectau ynghylch pwysigrwydd cadw cofnodion. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ei chyfathrebu hyd yma â buddiolwyr o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi canolbwyntio mwy ar yr angen i gadw data a sicrhau eu bod ar gael i gefnogi'r gwiriadau cyn y taliad terfynol, gan gynnwys ymweliadau â'r safle.

## Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi nodi capasiti staff fel risg i brosesu a gwirio hawliadau mewn pryd a rheoli'r broses o derfynu'r rhaglenni

43 Mae WEFO a Llywodraeth Cymru wedi nodi pwysau ar adnoddau staff fel risg i wirio a phrosesu hawliadau mewn modd amserol, er mwyn sicrhau bod gweddill arian yr UE yn cael ei dynnu i lawr yn llawn. Maent hefyd angen staff ar waith drwy'r broses derfynu lawn y tu hwnt i 2023. Mae'r timau sy'n gyfrifol am y ddwy raglen yn nodi bod ganddynt swyddi gwag mewn meysydd allweddol. Fodd bynnag, mae'r heriau o ran staffio yn wahanol ar gyfer y ddwy raglen.

44 Ar gyfer y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol, mae WEFO yn pryderu, wrth i'r dyddiad terfynu agosáu, y bydd rhai staff allweddol yn chwilio am gyflogaeth arall. Mae WEFO yn lliniaru'r risg hon drwy brosiect pontio. Mae'r prosiect yn cynnwys helpu staff WEFO i aros yn eu swydd yn WEFO wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben, a hynny wrth gynllunio ar gyfer rolau newydd ar ôl diwedd y rhaglen. Mae WEFO hefyd yn bwriadu sicrhau bod tîm gwaddol ar gael ar ôl 2023 i ymdrin â'r broses derfynu ond nid yw wedi penderfynu ar ei faint a'i strwythur eto.

45 Dywedodd WEFO ei bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio'n fewnol i lenwi bylchau. Mae'n pryderu nad yw rolau WEFO yn cael eu hystyried yn ddeniadol oherwydd bod y rhaglen ar fin dod i ben. Mae wedi ystyried caffael cymorth contractwyr allanol ar gyfer rhywfaint o waith ond diystyrodd hyn oherwydd yr amserlenni caffael dan sylw. Mae WEFO yn ystyried opsiynau allanol eraill ar gyfer mynd i'r afael â materion capasiti staff, gan gynnwys cyflogi staff asiantaeth os bydd angen.

46 O ran y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi capasiti staff fel risg oherwydd swyddi gwag a blaenoriaethau cystadleuol. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch allanol i recriwtio hyd at 15 o staff dros dro newydd, ac ymestyn dyrchafiadau dros dro presennol hyd ddiwedd 2023. Fodd bynnag, mae risg o hyd y bydd angen i swyddogion allweddol gydbwyso gweithio ar y cynlluniau pontio a chynlluniau disodli'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn y dyfodol (**paragraff 5**), yn ogystal â rheoli'r flwyddyn ddiwethaf a therfynu'r rhaglen gyfredol.

# Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

2 Ynglŷn â'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Gan ganolbwyntio'n benodol ar y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gwnaethom ystyried a yw Cymru ar y trywydd iawn i wneud y defnydd gorau o'r cyllid sy'n weddill gan yr UE.

Roedd y meysydd allweddol a ystyriwyd gennym ar gyfer y ddwy raglen yn yr archwiliad hwn, sydd â chwmpas cyfyngedig, yn cynnwys:

- lefel bresennol yr ymrwymiad a'r gwariant;
- y rhagolygon ar gyfer gwario'r dyraniad llawn;
- [pan fo ar gael] hanes o wariant yn erbyn ymrwymiad mewn rhaglenni blaenorol; a
- sut mae risgiau i gyflawni yn cael eu rheoli.

Dyma'r meysydd nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad hwn:

- hanes sut mae rhaglenni 2014-2020 wedi cael eu rheoli'n gyffredinol;
- perfformiad y rhaglenni yn erbyn eu hamcanion ehangach;
- cadernid y trefniadau sydd ar waith i reoli risgiau i gyflawni; a'r
- cynlluniau olynol i gyllid yr UE.

Rydym wedi adrodd yn flaenorol ar faterion yn ymwneud â rheolaeth gyffredinol y ddwy raglen. Ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020, roedd y rhain yn cynnwys dau adroddiad yn 2018 a oedd yn ystyried effaith Brexit ar adeg pan roedd posibilrwydd o hyd y byddai'r DU yn gadael yr UE 'heb gytundeb'[6]. Pe bai'r DU wedi gadael yr UE heb gytundeb, byddai arian yr UE i Gymru wedi dod i ben ar unwaith gyda Llywodraeth y DU ond yn gwarantu y byddai'n disodli cyllid ar gyfer prosiectau 'yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r DU adael yr UE'.

Gwnaethom hefyd adrodd ym mis Mehefin 2020 ar brosesau a rheolaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer grantiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a ddyfarnwyd rhwng Ionawr 2016 ac Ionawr 2019[7]. Nid ydym wedi ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw fel rhan o'r archwiliad diweddaraf hwn.

6 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE, Gorffennaf 2018 a Rheoli Effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru, Tachwedd 2018

7 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian, Mehefin 2020

# Dulliau archwilio

## Dadansoddiad ariannol

Gwnaethom gynnal amrywiaeth o ddadansoddiadau gan gynnwys:

- adolygu lefelau ymrwymiad a gwariant presennol o gymharu â dyraniad grant yr UE ar sail gwerthoedd cyfredol;
- adolygu lefelau ymrwymiad a gwariant presennol o gymharu â'r un adeg yn y rhaglen flaenorol;
- adolygu gwariant anghymwys mewn rhaglenni cyfredol o gymharu â'r rhaglen flaenorol;
- adolygu tueddiadau gwariant cronnol a blynyddol dros oes y rhaglen; ac
- adolygu dyddiadau terfynu prosiectau ym mlwyddyn olaf y rhaglen.

## Adolygu dogfennau

Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau. Roedd hyn yn cynnwys papurau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni[8] gwybodaeth ac adroddiadau rheoli a monitro Llywodraeth Cymru, a dogfennau rheoli risg a lliniaru.

Mae Archwilio Cymru yn cynnal yr archwiliad Ardystiad Blynyddol o wariant ar gyfer cyfrifon Cronfa Amaethyddol Ewrop, gan weithio ar ran Swyddfa Archwilio Genedlaethol yr UE. Mae'r gwaith archwilio yn cwmpasu cyflawnder a chywirdeb y cyfrifon, gan asesu'r amgylchedd rheoli a chyfreithlondeb a rheoleidd-dra gwariant. Gwnaethom adolygu adroddiadau archwilio Archwilio Cymru.

Mae'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd yn rhan o Is-adran Archwilio, Sicrwydd a Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru. Mae'r Tîm yn gweithredu fel yr Awdurdod Archwilio ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Gwnaethom adolygu eu hadroddiadau archwilio diweddar. Nid yw Archwilio Cymru wedi chwarae rhan uniongyrchol yn yr archwiliad o Raglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020.

8 Sefydlodd Llywodraeth Cymru Bwyllgor Monitro Rhaglenni i fonitro'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ac i gydymffurfio â darpariaethau cyfreithiol a gweinyddol a nodir gan yr Undeb Ewropeaidd.

## Cyfweliadau ac arsylwadau

Gwnaethom gyfarfod â WEFO a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig yn y drefn honno.

Buom yn trafod materion sy’n berthnasol i gwmpas ein gwaith gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaethom hefyd arsylwi ar gyfarfod Pwyllgor Monitro’r Rhaglen ym mis Ionawr 2023.

# 2 Ynglŷn â'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig

## Rhaglen Cronfeydd Strwythurol

Mae dwy elfen allweddol i'r rhaglen: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Rhennir ERDF ac ESF yn flaenoriaethau buddsoddi, y nodir prosiectau unigol oddi tanynt (**Arddangosyn 9**). Rhennir y cyllid hefyd rhwng dwy ardal ddaearyddol. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n cael y rhan fwyaf o'r cyllid oherwydd allbwn economaidd is, gyda'r gweddill ar gyfer Dwyrain Cymru.

**Arddangosyn 9: trosolwg o'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol**

| Blaenoriaethau ERDF | Enghreifftiau o'r prosiectau a ariennir |
|---|---|
| Cysylltedd a datblygu trefol | • Uwchraddio ffyrdd a gorsafoedd rheilffordd.<br>• Datblygu safleoedd cyflogaeth newydd.<br>• Buddsoddi mewn atyniadau allweddol i ymwelwyr i ysgogi twf yn y diwydiant twristiaeth. |
| Ymchwil ac arloesi | • Rhaglenni ymchwil ym mhrifysgolion Cymru.<br>• Cydweithrediadau ymchwil a datblygu rhwng y byd academaidd a diwydiant.<br>• Cynorthwyo busnesau yng Nghymru i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd ar draws ystod o sectorau. |
| Cystadleurwydd BBaChau | • Cymorth ariannol a busnes i fentrau bach a chanolig (gan gynnwys busnesau newydd a mentrau cymdeithasol). |
| Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni | • Gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi incwm isel.<br>• Mentrau ynni adnewyddadwy bach.<br>• Cefnogi datblygiad diwydiant ynni morol blaenllaw. |
| Cymorth technegol | • Darparu cyllid er mwyn helpu WEFO i weithredu'r rhaglenni.<br>• Cynnwys archwilio a rheolaethau, ymchwil, monitro a gwerthuso a gwybodaeth a chyhoeddusrwydd. |

| Blaenoriaethau ESF | Enghreifftiau o’r prosiectau a ariennir |
|---|---|
| Sgiliau ar gyfer twf | • Gwella sgiliau sylfaenol, technegol a lefel uchel ymhlith gweithwyr ledled Cymru. |
| Cyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc | • Prosiectau i gynyddu’r niferoedd sy’n dilyn pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Meddygaeth (STEM) a’u cyrhaeddiad.<br>• Cynyddu sgiliau gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant. |
| Mynd i'r afael â thlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy | • Cynyddu sgiliau a chyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. |
| Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio rhanbarthol | • Prosiectau i ysgogi atebion rhanbarthol newydd, cynllunio a modelau gwasanaeth.<br>• Helpu sefydliadau i arloesi a chydweithio’n rhanbarthol. |
| Rheoli COVID drwy gapasiti | • Prosiectau i gefnogi gallu iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i COVID-19. |
| Cymorth technegol | • Darparu cyllid er mwyn helpu WEFO i weithredu’r rhaglenni.<br>• Cynnwys archwilio a rheolaethau, ymchwil, monitro a gwerthuso a gwybodaeth a chyhoeddusrwydd. |

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

## Rhaglen Datblygu Gwledig

Mae strwythur y Rhaglen Datblygu Gwledig yn fwy cymhleth na’r Cronfeydd Strwythurol. Mae wedi’i rannu’n ystod o ‘Fesurau’ i fynd i’r afael â chwe blaenoriaeth yr UE. Y chwe blaenoriaeth yw:

- meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig;
- gwella hyfywedd a chystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth, a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy;
- hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd, lles anifeiliaid a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth;
- adfer, cadw a gwella ecosystemau sy’n ymwneud ag amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi’r symudiad tuag at economi carbon isel sy’n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth; a
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

O dan y chwe blaenoriaeth hyn mae ‘meysydd â ffocws’ ac mae’r rhaglen yn cynnwys dangosyddion targed yn erbyn pob maes. Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion targed hyn mewn adroddiad blynyddol i’r UE ac mae’r wybodaeth hon hefyd ar gael i’r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

Mae rheolaeth y rhaglen o ddydd i ddydd yn seiliedig ar ‘Fesurau’. Pennwyd dyraniadau cyllid o’r cychwyn cyntaf ac maent wedi’u haddasu ar adegau yn ystod y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro’r gwariant yn erbyn y Mesurau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu amrywiaeth o gynlluniau o dan bob Mesur (**Arddangosyn 10**). Mae pob cais llwyddiannus gan ffermwr neu sefydliad yn dod yn ‘brosiect’ at ddibenion rheolau’r UE, er y cyfeirir yn aml at y rhai sy’n cael cymorth fel buddiolwyr.

**Arddangosyn 10: trosolwg o Fesurau’r Rhaglen Datblygu Gwledig a chynlluniau allweddol sy’n cyfrannu atynt**

| Mesur | Cynlluniau |
|---|---|
| M1: Trosglwyddo gwybodaeth a chamau gweithredu’n ymwneud â gwybodaeth | Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi |
| M2: Gwasanaethau cynghori, rheoli ffermydd a gwasanaethau cymorth i ffermydd | Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig |
| M4: Buddsoddiadau mewn asedau ffisegol | Grant Busnes i Ffermydd, Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, Gwaith Cyfalaf Glastir, Grantiau Bach Glastir |
| M6: Datblygu ffermydd a busnesau | Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig |
| M7: Gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig | Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig |
| M8: Buddsoddiadau mewn datblygu coedwigoedd a gwella hyfywedd coedwigoedd | Glastir – Creu Coetir, Glastir – Adfer Coetir, Glastir - Rheoli Coetir, Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren, Monitro Coedwigoedd a Rheoli Risg |

| Mesur | Cynlluniau |
|---|---|
| M10: Amaeth-amgylchedd-hinsawdd | Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch, Glastir - Tir Comin |
| M11: Ffermio Organig | Glastir Organig |
| M16: Cydweithredu | Galluogi Adnoddau Naturiol Cymru, Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio, Y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth, Partneriaeth Arloesi Ewrop |
| M19: Cymorth ar gyfer LEADER | LEADER |
| M20: Cymorth technegol | Cymorth Technegol |

Noder: Yr UE sy’n pennu rhifau a disgrifiadau mesur. Mae’r rhestr lawn wedi’i chynnwys yn Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn 808/2014. Penderfynodd Llywodraeth Cymru pa rai o’r mesurau hyn i’w cynnwys yn ei Rhaglen Datblygu Gwledig.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas (y llawr gwaelod a'r cyntaf)

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.